

Rhaglen Gyflawn



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MERCHER, 10FED TACHWEDD, 2021

Lleoliad

Zoom

Cysylltwch am fynediad cyhoeddus

Pwynt Cyswllt

Natalie Lloyd Jones

01286 679665

NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Cynghorydd Julie Fallon	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorydd Meirion Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Cynghorydd Ian Roberts	Cyngor Sir y Fflint
Cynghorydd Phil Wynn	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cynghorydd Cemlyn Rees Williams	Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Rosalind Williams	Eglwys yng Nghymru
Claire Armitstead	Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Richard Collet	Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Jonathan Morgan	Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Alison Fisher	Cynrychiolydd Llywodraethwr

Swyddogion Heb Bleidlais

Dr Lowri Brown	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Claire Homard	Cyngor Sir y Fflint
Garem Jackson	Cyngor Gwynedd
Rhys Howard Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Karen Evans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Geraint Davies	Cyngor Sir Ddinbych

Swyddogion yn bresennol

Dafydd L. Edwards	Awdurdod Lletyol
Sion Huws	Awdurdod Lletyol
Annwen Morgan	Cyngor Sir Ynys Môn
Arwyn Thomas	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Alwyn Jones	Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Gareth Williams	Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

Sylwedydd

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2021/22.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

5 - 11

(Ynglwm)

7. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

12 - 83

I gyflwyno:

- Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;
- Llythyr Cynrychiolaeth.

8. CYLLIDEB GWE 2021-2022 - ADOLYGIAD CHWARTER 2

84 - 89

- Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.
- Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.

9. GRANT DATBLYGU DISGYBLION 2021-22

90 - 98

Rhoi diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar y Cynllun Cymorth Grant Datblygu Disgyblion am 2021/22 ar draws y rhanbarth.

10. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2021-2022 GWE - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 2

99 - 134

Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 2 - Cynllun Busnes Rhanbarthol
2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

11. CEFNOGI POB YSGOL GYDA'R CWRICWLWM I GYMRU: 135 - 146
DATBLYGU RHWYDWEITHIAU LLEOL A RHANBARTHOL
CWRICWLWM I GYMRU

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar ein dull gweithredu gyda datblygu rhwydweithiau lleol a rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru er mwyn cefnogi pob ysgol a lleoliad i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

CYD-BWYLLGOR GWE – 22 Medi 2021

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Phil Wynn (Cadeirydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Cemlyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Claire Armitstead (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd).

Swyddogion yn bresennol: Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad, GwE), Marc Hughes, Elfyn Jones a Catrin Roberts (Swyddogion GwE) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol).

Eraill a wahoddwyd: Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol; Annwen Morgan (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn, Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol), Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Cyfeiriodd aelod at y sefyllfa bryderus sydd yn ein hysgolion gan nodi mai dyma'r adeg fwyaf ansefydlog maent wedi ei hwynebu dros gyfnod y pandemig yn sgil niferoedd positif uchel iawn o Covid-19 sydd o fewn ysgolion.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai'n fwy priodol cyfarfod y tu allan i gyfarfod y Cydbwyllgor, ar amser i'w drefnu a fyddai'n gyfleus i bawb.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar yr 14eg o Orffennaf 2021 yn gywir.

5. CYLLIDEB GWE 2021-2022 - ADOLYGIAD CHWARTER 1

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad.

TRAFODAETH:

Adroddwyd mai adolygiad cychwynnol yw hwn a rhagwelir tanwariant net o (£48,805) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22. Ategwyd nad oes materion wedi codi yn ystod y broses monitro chwarter 1 sy'n codi pryder.

Adroddiad monitro cyntaf y flwyddyn yw hwn, sy'n edrych ar gwir gostau hyd at ddiwedd Mehefin ynghyd ac amcan gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan obeithio bydd y sefyllfa yn fwy clir erbyn yr adolygiad chwarter nesaf.

Amcangyfrifir cronfa cyffredinol gwerth £612,335 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, sy'n sefyllfa gadarnhaol i fod ynddo.

Nodwyd bod diffyg incwm mewnol wedi bod o fewn y maes rhenti, gan nad oes modd ddefnyddio adeiladau GwE i redeg cynlluniau sy'n cael ei talu allan o grantiau. Yn ogystal, nodwyd bod defnydd cludiant wedi ailgychwyn, ond nid yn ôl i lefelau arferol a disgwylir tanwariant oherwydd hyn.

6. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2021-2022 GWE - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd y papur gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE gan nodi bod amgylchiadau yn mynd i arafu neu gyflymu rhai o'r gweithredoedd a nodwyd. Tynnwyd sylw'r aelodau at y data i gefnogi'r prif amcanion a chyfeiriodd at ba ymgysylltu sydd wedi bod ar y wahanol gynigion. Nododd bod hyn yn berthnasol i aelodau adrodd yn ôl yn eu Pwyllgorau Craffu Addysg.

Parhaodd i nodi bod cludiant yn dechrau cynyddu o gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cyfeiriwyd at eitemau megis y cwricwlwm, anghenion dysgu ychwanegol a phwysleisiodd bod angen sensitifrwydd gydag amgylchiadau ysgolion yn y cyfnod anodd hwn.

Nodwyd bod Estyn wedi ailgychwyn arolygu o ddechrau'r tymor yma yn bennaf o fewn ysgolion sy'n peri pryder.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nodwyd bod Penaethiaid yn wynebu heriau ymgysylltu oherwydd yr amgylchiadau presennol.
- Ategwyd bod enghreifftiau o fewn ysgolion lle mae Pennaeth yn dysgu oherwydd prinder staffio.
- Cyfeiriwyd hefyd at brinder staffio mewn ysgolion arbennig lle mae gan blant anghenion dwysach sy'n creu anawsterau sylweddol.
- Nodwyd bod pwysau pellach gydag Estyn yn ailgychwyn arolygu yn creu pryder i sawl ysgol.

7. ADRODDIADAU HUNAN ARFARNU YSGOLION

PENDERFYNIAD

- a) Derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad ynghyd â'r blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel.
- b) Cydnabod yr ymrwymiad mae swyddogion GwE wedi'i ddarparu i sefydliadau addysgol ar draws y Gogledd yn ystod y cyfnod pandemig.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE a rhoddwyd trosolwg o sut mae ysgolion ac UCD yng Ngogledd Cymru wedi ymateb i COVID-19.

Nododd bod staff GwE wedi bod yn cefnogi ysgolion er mwyn arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth yn ystod y cyfnod clo fel rhan o'u rhaglen waith.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau gyda'r ysgolion, ynghyd â'r meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach.

Ategwyd bod ysgolion wedi dysgu llawer o'r cyfnod clo cyntaf ac felly bod y ddarpariaeth yn ystod yr ail gyfnod wedi adeiladu ar hyn.

Tynnwyd sylw'r aelodau at y blaenoriaethau rhanbarthol sydd wedi codi o'r adroddiad a rhoddwyd trosolwg ohonynt.

Cyfeiriwyd at eiriau'r Gweinidog Addysg ar dudalen 63 y rhaglen, sef:

'bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrion ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'

Nododd bydd GwE yn cefnogi ysgolion i gyflawni hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd i swyddogion GwE am weithio gyda'r Awdurdodau Lleol a'r Penaethiaid Addysg er mwyn hyrwyddo cydweithio.
- Ategwyd bod yr adborth o fewn yr adroddiad yn wych a chyfeiriwyd at yr holl gymorth sydd wedi bod ar bob lefel.
- Cyfeiriwyd at bryder rhai o'r aelodau am yr anghysondebau a'r amrywiaeth yn y ddarpariaeth gan ysgolion. Cyfeirir at hyn o fewn yr adroddiad ac ategwyd bod rhannu arferion da yn dangos bod hyn yn cael sylw.
- Ateggodd aelod bod angen cyfathrebu da ac amserol fel bod penaethiaid yn gallu ymateb i unrhyw heriau.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ymatebodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Nodwyd y pwysigrwydd bod ysgolion yn ymwybodol o beth yw'r model asesu boed hynny'n asesiad athro, neu ganolfan neu'n arholiad.
- Mai'r brif neges yw bod ysgolion yn ymwybodol o'r mecanweithiau sydd eu hangen mewn lle i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial.

8. PROSES AU A STRWYTHURAU RHANBARTHOL AR GYFER CEFNOGI A HERIO YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER

PENDERFYNIAD

Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad sy'n dal yn gryno y gwaith dros y Gwanwyn a'r Haf er mwyn grymuso ymhellach yr arweiniad a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion sy'n achosi pryder.

Nododd bod y papur yn berthnasol i ganran o'r ysgolion er mwyn iddynt sicrhau mwy o berchenogaeth ac atebolrwydd am eu taith gwella a'i wneud o fewn fframwaith o gydweithio mewn clystyrau a chynghreiriau.

Cydnabuwyd bod rhai ysgolion angen cymorth mwy cynhwysfawr a dwys, yn arbennig rhai sydd mewn categori statudol neu'n cael eu hadnabod fel rhai mewn peryg o ddisgyn i mewn i'r categori statudol.

Bydd system rhybudd cynnar yn galluogi GwE ac awdurdodau i ymyrryd yn gynnar. Aethpwyd ati i egluro bod cyswllt rheolaidd gyda swyddogion o fewn yr ysgolion yn ddefnyddiol i rannu gwybodaeth a chydweithio ar y cynlluniau. Ar hyn, nodwyd nad Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant fydd gan yr ysgolion yma ond tîm cyfan i'w harwain.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad amserol sy'n adlewyrchu proses sydd ei angen i roi cymorth i ysgolion sy'n achosi pryder.
- Adnabuwyd y pwysigrwydd i gefnogi ysgolion ond hefyd y gwaith sydd angen ei wneud iddynt fod yn hunangynhaliol.
- Holodd aelod ynghylch y data o'r graff a gofynnwyd a fydd ystyriaeth i statws ysgol wrth nodi beth yw cyrhaeddiad y disgyblion.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ymatebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Bod y dyddiau o ddata craidd ynglŷn â chyrhaeddiad wedi'i addasu gan fod y cwricwlwm newydd yn gofyn am fframwaith ansoddol a mwy holistaidd. Ategodd y bydd hyn yn fodd o nodi cyflawniad dysgwyr o waelodlin fwy unigryw.

9. STRATEGAETH RANBARTHOL - ADNEWYDDU A DIWYGIO: CEFNOGI LLES A CHYNNYDD Y DYSGWYR

PENDERFYNIAD

Derbyn a chymeradwyo'r Strategaeth Ranbarthol.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau'r Cydbwyllgor ar gyfeiriad strategol GwE dros y cyfnod nesaf yn sgil heriau'r pandemig Covid-19.

Cyfeiriwyd at y strategaeth ranbarthol a nodwyd bod themâu wedi eu hadnabod er mwyn sicrhau darpariaeth safon uchel i ddysgwyr.

Cyfeiriwyd at y gwaith arloesol sydd wedi bod wrth i staff ail bwrpasu a'r newidiadau a fuodd yn sgil hyn.

Trafodwyd sut mae rôl Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi esblygu er mwyn cwrdd â'r gwahanol ofynion o fewn yr ysgolion. Cyfeiriwyd at y broses o arfarnu'n fewnol fel bod ysgolion yn medru rhoi ffocws ar wella o fewn yr ysgol.

10. Y GYMRAEG - CYNLLUNIAU CLWSTWR A PHROSIECT LLAFAREDD 'EIN LLAIS NI'

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu'r prosiect yn unol â'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

TRAFODAETH:

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y trefniadau a'r cynlluniau ar gyfer dau brif ffrwd gwaith y cynllun busnes ar gyfer y Gymraeg eleni – trefniadau ar gyfer y Cynlluniau Clwstwr a Phrosiect Llafaredd 'Ein Llais.

Trafodwyd y ffrwd gyntaf sef y cynlluniau clwstwr gan nodi'r amcanion o hyrwyddo cyfarfodydd clwstwr, datblygu sgiliau Cymraeg ac annog cydweithio rhwng y Cynradd ac Uwchradd. Nododd y bydd tri Ymgynghorydd ym mhob ardal yn gweithio'n agos efo'r Awdurdodau Lleol i sicrhau cefnogaeth.

O ran yr ail ffrwd, Prosiect Llais Ni – eglurodd bod y prosiect wedi ei hariannu yn dilyn cais i Lywodraeth Cymru i hyrwyddo llafaredd Cymraeg a mireinio sgiliau siarad y dysgwyr.

Nodwyd bod y prosiect wedi ei gynllunio'n agos gyda'r Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor a bydd Swyddog Ymchwil ar gyfer y prosiect. Parhaodd i nodi bod y broses gynllunio wedi digwydd ac hysbysiad wedi ei anfon i ysgolion. Ategodd bod bwrdd llywio ar fin ei sefydlu i oruchwylio'r prosiect ac adrodd yn ôl i'r Llywodraeth.

Rhannwyd y bydd cynhadledd lansio ar yr 20fed Hydref i ysbrydoli ysgolion a rhannu strategaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Nododd bod yr awdurdodau yn brysur yn cynllunio eu hadroddiadau CSGA; gwerthfawrogi bob cymorth i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Holwyd os oes bwriad i adrodd yn ôl yn y dyfodol ar effaith y gweithgareddau sydd wedi bod i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion.
- Diolchwyd am yr adroddiad amserol yn sgil dirywiad sydd wedi bod yn nefnydd y Gymraeg o fewn yr ysgolion oherwydd y cyfnod clo a hyn mewn cadarnleoedd ieithyddol Cymraeg.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ymatebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Bod sgrysiâu ar waith am ddefnyddioldeb posib cyflwyno adroddiad i'r Cydbwyllgor er mwyn i'r aelodau weld y ffrydiau gwaith sydd yn bodoli i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion.

11. DYSGU DIGIDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau'r Cydbwyllgor.

Ni fu trafodaeth nac unrhyw sylwadau pellach.

12. TREFN YMDRIN Â PHRYDERON A CHWYNION GWE

Cyflwynwyd yr adroddiad i aelodau'r Cydbwyllgor.

Ni fu trafodaeth nac unrhyw sylwadau pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 a daeth i ben am 15:00.

CADEIRYDD

Eitem 7

GwE: Cyd-Bwyllgor 10/11/21



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cyd-Bwyllgor GwE
DYDDIAD	10 Tachwedd 2021
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;• Llythyr Cynrychiolaeth.
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2020/21, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cyd-Bwyllgor.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 14 Gorffennaf o Gyd-Bwyllgor GwE:

- 1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilyr allanol apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2. CYFRIFON 2020/21

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2020/21 i'r cyfarfod 26 Mai 2021 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro", â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2020/21 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol i'r cyfarfod 14 Gorffennaf 2021.

3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler bod paragraff 10 yn nodi "Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod" ar y datganiadau ariannol 2020/21.

4. CYFRIFON TERFYNOL 2020/21

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2020/21. Mae'r materion â godwyd fel rhan o'r archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo'r wybodaeth sy'n yr atodiadau, sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 (yn dilyn archwiliad)

6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.

7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cynghorau Conwy, Dinbych, Flint,
Gwynedd, Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2020/21

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 – 6
Datganiad Cyfrifoldebau	7
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	8
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13 – 36
Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynnyddo	37 – 47
Geirfa	48 – 49
Adroddiad yr Archwilydd	50 – 52

ADRODDIAD NARATIF

RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2020/21 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 36. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2020/21*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2020/21 :

Conwy	15.30%
Dinbych	15.30%
Fflint	22.68%
Gwynedd	17.63%
Ynys Môn	10.15%
Wrecsam	18.94%
Cyfanswm	100%

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2021.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2020/21 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE

Gweledigaeth GwE yw bod ganddynt:

“Ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant a fydd yn arwain at les a safonau rhagorol i'w disgyblion”.

Mae Cynllun Busnes y GwE, yn adnabod amcanion sefydlwyd i gyfarfod eu blaenoriaethau, ac mae ar gael yn: <https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/>

Ar ddiwedd Mawrth 2020 gwelwyd argyfwng Covid-19 sydd yn parhau i gael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein bywydau. Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid gan rhoi sylw i'r agweddau a ganlyn:

- Cefnogi lles a datblygiad arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Cefnogi ysgolion i ail agor – cydweithio â'r ALI i sicrhau dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisiâu priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.
- Cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Darparu ystod o ddysgu proffesiynol ystyrllon gan ganolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol.
- Parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r Gymraeg.
- Darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.
- Defnyddio dull cyflymu dysgu yn rhanbarthol.
- Gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd.
- Cymorth cyfunol i ysgolion ac ALI – sefydlu Canolfan Cefnogaeth GwE
- Darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw sefyllfaoedd clo yn y dyfodol.
- Cydweithio gyda'r Athro Graham Donaldson i ddatblygu ystod o ddarnau meddwl i gefnogi ysgolion weithredu'r cwricwlwm newydd, gan blethu'r Cwricwlwm i Gymru yn naturiol â'r arferion presennol.

Strategaeth Ariannol

Mae Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2020/21 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 2020 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, tra'n ceisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/g2787/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2026ain-Chwe-2020%2010.30%20Cyd-Bwyllgor%20GwE.pdf?T=I0&LLL=I>

Bydd newidiadau yn sgil pandemig Covid-19 hefyd yn effeithio ar sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor fel cyngorau Cymru wedi cyd-weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru er mwyn ymdopi gyda'r sefyllfa gorau y gellir.

Perfformiad 2020/21

Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael yn:

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/g4373/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2026ain-Mai-2021%2010.30%20Cyd-Bwyllgor%20GwE.pdf?T=I0&LLL=I>

Perfformiad Ariannol 2020/21

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant referniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £13,583k yn ystod 2020/21, gyda'r sefyllfa net yn £236k.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2020/21 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2021. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o (£83k) i reserf penodol.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant ar Weithgareddau	13,344	13,264	(80)
Incwm			
Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd:			
Conwy	(637)	(637)	0
Dinbych	(637)	(637)	0
Fflint	(944)	(944)	0
Gwynedd	(734)	(734)	0
Ynys Môn	(422)	(422)	0
Wrecsam	(789)	(789)	0
Incwm Arall	(9,181)	(9,184)	(3)
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(83)	(83)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad Perfformiad (Alldro) £'000	Addasiad Trawsddodiad £'000	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol £'000	*Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo £'000	Datganiad Incwm a Gwariant £'000
Gwariant	13,264	(17)	13,247	336	13,583
Incwm	(13,347)	0	(13,347)	0	(13,347)
Cost Gwasanaethau Net	(83)	(17)	(100)	336	236

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

Eitemau Materol o Incwm a Gwariant

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £3,541k yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £13,347k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

Materion Eraill

- Mae risgiau ariannol gyda sefyllfa'r economi byd-eang ac mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ansicrwydd economaidd yn parhau yn sgil terfynu aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyd-Bwyllgor.
- Mae'r argyfwng Covid-19 cyfredol yn parhau yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a chanolog.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor ddarpariaethau o £3k a reserfau a glustnodwyd o £811k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 9 a 14.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyd-Bwyllgor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyd-Bwyllgor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £4,069k i £12,373k yn 2020/21. Gweler Nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2019, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2022.

Llywodraethu

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 13.

Newidiadau mewn Polisiâu Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Mae polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu y newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Hywyn Lewis Jones
Cyfrifydd Grwp
01286 679145

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

10 Tachwedd 2021

Y Cyngorydd Phil Wynn
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2021 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

21 Hydref 2021

Tud. 22

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2019/20				2020/21		
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 7)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
4,364	907	5,271	Gweithwyr	4,808	336	5,144
288	0	288	Eiddo	153	0	153
197	0	197	Cludiant	15	0	15
1,611	0	1,611	Gwasanaethau a Chyflenwadau	826	0	826
7,721	0	7,721	Trydydd Parti	7,445	0	7,445
0	71	71	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
(14,551)	0	(14,551)	Incwm	(13,347)	0	(13,347)
(370)	978	608	Cost Gwasanaethau	(100)	336	236
0	225	225	Gwariant ac Incwm Arall	0	199	199
(370)	1,203	833	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(100)	535	435
(341)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(711)		
(370)			(Gweddill)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(100)		
(711)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(811)		

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2019/20			2020/21			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
5,271	0	5,271	Gweithwyr	5,144	0	5,144
288	0	288	Eiddo	153	0	153
197	0	197	Cludiant	15	0	15
1,611	0	1,611	Gwasanaethau a Chyflenwadau	826	0	826
7,721	0	7,721	Trydydd Parti	7,445	0	7,445
71	0	71	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
0	(14,551)	(14,551)	Incwm	0	(13,347)	(13,347)
15,159	(14,551)	608	Cost Gwasanaethau	13,583	(13,347)	236
225	0	225	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	199	0	199
15,384	(14,551)	833	(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	13,782	(13,347)	435
		(1,800)	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau)			3,541
		(1,800)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			3,541
		(967)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			3,976

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cyngorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau		
Nodyn	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor	
	£'000	£'000	£'000	
Balans 31 Mawrth 2019 a ddygwyd ymlaen	(341)	8,993	8,652	
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2019/20</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	833	0	833	
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	(1,800)	(1,800)	
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	833	(1,800)	(967)	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(1,203)	1,203	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(370)	(597)	(967)	
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2019/20	(370)	(597)	(967)	
Balans 31 Mawrth 2020 a ddygwyd ymlaen	(711)	8,396	7,685	
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2020/21</u>				
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	435	0	435	
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	3,541	3,541	
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	435	3,541	3,976	
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(535)	535	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(100)	4,076	3,976	
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2020/21	(100)	4,076	3,976	
Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen	(811)	12,472	11,661	

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrïso), ble nad yw'r symïau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2020 £'000	Nodyn	31 Mawrth 2021 £'000
0	Dyledwyr Tymor Hir	0
0	Asedau Tymor Hir	0
476	Dyledwyr Tymor Byr	509
2,557	Arian a Chyferwerthoedd Arian	5,959
3,033	Asedau Cyfredol	6,468
(1,909)	Credydwyr Tymor Byr	(4,114)
(3)	Darpariaethau Tymor Byr	(3)
(502)	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	(1,639)
(2,414)	Ymrwymïadau Cyfredol	(5,756)
(8,304)	Ymrwymïad Pensiwn	(12,373)
(8,304)	Ymrwymïadau Tymor Hir	(12,373)
(7,685)	Asedau Net	(11,661)
(711)	Reserfau Defnyddiadwy	(811)
8,396	Reserfau na ellir eu defnyddio	12,472
7,685	Cyfanswm Reserfau	11,661

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfwerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

2019/20		Nodyn	2020/21
£'000			£'000
833	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		435
(518)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwyr, dyledwyr a pensiwn</i>)	17	(3,837)
315	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(3,402)
0	Gweithgareddau Buddsoddi		0
0	Gweithgareddau Ariannu		0
315	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian		(3,402)
(2,872)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(2,557)
(2,557)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		(5,959)

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2020/21 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2021. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiau perthnasol yn unig.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar y cyfrif refeniw am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferwerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

I.4 Buddiannau Gweithwyr

I.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei Gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau croniedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

NODYN I – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

I.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniat yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i pensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa pensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Pensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

I.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Pensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

I.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Pensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.0% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Pensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

NODYN I – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniodol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

NODYN 1 – POLISIŌAU CYFRIFO (parhad)

1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Còd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, ac hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.13 Contractau Tymor Hir

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

1.14 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partion sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddi-ddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisiâu cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Còd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020/21.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Còd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Còd 2021/22:

Diffiniad o Fusnes: Diwygiadau i SAARh 3 Cyfuniad Busnes

Diwygio Meincnod Cyfradd Llog: Diwygiadau i SAARh 9, SCRh 39 ac SAARh 7

Diwygio Meincnod Cyfradd Llog – Cam 2: Diwygiadau i SAARh 9, SCRh 39 ac SAARh 7, SAARh 4 ac SAARh 16.

Mae'n ofynnol fod y Còd yn weithredol o 1 Ebrill 2021 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2020/21, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Còd Ymarfer 2021/22 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÄU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys thybiaethau a thafuniadau hanesyddol, cyfredol a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau. Tra bod effeithiau'r argyfwng Covid-19 yn parhau i fod yn her ariannol i'r Cyd-Bwyllgor yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er hynny, mae'r Cyd-Bwyllgor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyd-Bwyllgor.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r thybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2021 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

Ymrwymiad Pensiwn - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion ddisgwyliedig ar asedau'r Gronfa Bensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Bensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 24 a 25

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol ac eiddo byd-eang. O ganlyniad i'r anwadalrwydd yn amodau'r farchnad, roedd adroddiadau prisio diwedd blwyddyn a ddarparwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2020 yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio materol yn ymwneud â chronfeydd eiddo'r DU a reolir ar ran y Gronfa. Fodd bynnag, ni adroddir am unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn prisiadau eiddo ar 31 Mawrth 2021.

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- £3,541k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 16).
- £13,347k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 21).

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2020/21	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Gweithwyr	0	329	7	336
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0	0
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	329	7	336
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	199	0	199
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	528	7	535

2019/20	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i) £'000	Gwahaniaethau Eraill (ii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Gweithwyr	0	904	3	907
Eiddo	0	0	0	0
Cludiant	0	0	0	0
Gwasanaethau a Chyflenwadau	0	0	0	0
Trydydd Parti	0	0	0	0
Costau Heb eu Dosrannu	0	71	0	71
Incwm	0	0	0	0
Cost Gwasanaethau	0	975	3	978
Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0	0
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	0	225	0	225
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0	0
(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	0	1,200	3	1,203

NODYN 7 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi**, y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(ii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2020/21		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(1,336)	1,336
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	808	(808)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(7)	7
Cyfanswm Addasiadau	(535)	535

2019/20		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 25)	(1,796)	1,796
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	596	(596)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(3)	3
Cyfanswm Addasiadau	(1,203)	1,203

NODYN 9 – TROSSLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda chynnydd net o £100k.

Reserfau Defnyddiadwy

	Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE £'000
Balans 31 Mawrth 2020	711
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Mewn	100
Allan	0
Balans 31 Mawrth 2021	811

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2019/20		2020/21
£'000		£'000
225	Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	199
225	Cyfanswm	199

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Symiau Derbyniadwy Masnach	91	46
Blaendaliadau	70	75
Symiau Derbyniadwy Eraill	315	388
Cyfanswm	476	509

NODYN 12 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya	2,557	5,959
Arian a Chyferthoedd Arian	2,557	5,959

NODYN 13 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Symiau Taladwy Masnach	430	568
Symiau Taladwy Eraill	1,479	3,546
Cyfanswm	1,909	4,114

NODYN 14 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadu penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

	Balans ar 31 Mawrth 2020 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2021 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd	(3)	0	0	(3)
	(3)	0	0	(3)

Darpariaeth Cynllun Ceir Gwyrdd – darpariaeth ar gyfer gofynion cynllun prydlesu ceir staff.

NODYN 15 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2020		31 Mawrth 2021
£'000		£'000
(8,304)	Reserf Pensiynau	(12,373)
(92)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(99)
(8,396)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(12,472)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2019/20		2020/21
£000		£000
(8,904)	Balans 1 Ebrill	(8,304)
1,800	Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymadau/(asedau) (Nodyn 25)	(3,541)
(1,796)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,336)
596	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	808
(8,304)	Balans 31 Mawrth	(12,373)

NODYN 16 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blyneddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2019/20		2020/21
£000		£000
(89)	Balans 1 Ebrill	(92)
(3)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronïadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(7)
(92)	Balans 31 Mawrth	(99)

NODYN 17 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2019/20		2020/21
£'000		£'000
471	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyd	(3,342)
211	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyd	33
(1,200)	Ymrwymiad Pensiwn	(528)
(518)		(3,837)

NODYN 18 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 26 Mai 2021. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle roedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2021, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd materol i ddangos yr effaith.

NODYN 19 – TALIADAU I SWYDDOGION

19a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

2019/20			Uwch Swyddogion	2020/21		
Cyfraniadau Pensiwn				Cyfraniadau Pensiwn		
Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £		Cyflog £	Cyflogwr £	Cyfanswm £
100,896	22,803	123,699	Prif Swyddog	103,545	23,815	127,360

19b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2020/21 na 2019/20.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:			
Nifer yn 2019/20		Nifer yn 2020/21	
Cyfanswm		Cyfanswm	
8	£60,000 - 64,999	5	
3	£65,000 - 69,999	6	
1	£70,000 - 74,999	4	

NODYN 20 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2019/20		2020/21
£'000		£'000
11	Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	11
11	Ffioedd Net	11

NODYN 21 – INCWM GRANT

21a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2019/20		2020/21	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru -				
Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Plant Mewn Gofal	970		1,029	
GDD - Cynghorydd Strategol	100		97	
GDD - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	0		142	
Arall	153		115	
		1,223		1,383
Grant Gwella Ysgolion Consorita Rhanbarthol - Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA)		5,824		4,561
Grant Gwella Addysg (GGA)				
Llywodraeth Cymru	1,836		1,283	
Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau	1,165		1,587	
		3,001		2,870
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor Chwaraeon Cymru	1		0	
Cyngor Gweithlu Addysg	251		276	
Cyngor Celfyddydau Cymru	5		0	
		257		276
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	625		637	
Dinbych	623		637	
Fflint	927		944	
Gwynedd	720		734	
Ynys Môn	417		422	
Wrecsam	772		789	
		4,084		4,163
Grantiau a Chyfraniadau eraill		162		94
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau		14,551		13,347

NODYN 21 – INCWM GRANT (parhad)

21b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grantiau, cyfraniadau neu roddion sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Cyngor Gweithlu Addysg	493	631
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	0	997
Arall	9	11
Cyfanswm	502	1,639

NODYN 22 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y ddiffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cyngorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cyngorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 20/21. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

	Taliadau a wnaethpwyd £'000	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor £'000	Incwm a dderbyniwyd £'000	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor £'000
Awdurdod Lleol				
Cyngor Bwrdeistef Sirol Conwy	810	472	682	30
Cyngor Sir Ddinbych	376	430	921	4
Cyngor Sir y Fflint	707	1,110	1,478	0
Cyngor Gwynedd	1,153	603	1,238	61
Cyngor Sir Ynys Môn	386	255	689	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	740	451	789	2

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y'u diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2020/21 a'r balansau ar 31 Mawrth 2021 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
28	136	0

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr.

Swyddogion

Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2020/21, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrrff a nodwyd.

NODYN 23 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Roedd yna ddau becyn terfynu gwaith yn ystod 2020/21, roedd y staff ar gontractau dros dro, ond gyda gwasanaeth yn cario drosodd o'i cyflogaeth blaenorol, nid oedd yna unrhyw becyn terfynu gwaith yn ystod 2019/20.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band	
	2019/20	2020/21	2019/20	2020/21	2019/20	2020/21	2019/20	2020/21
£							£'000	£'000
0 - 20,000	0	1	0	0	0	1	0	8
20,001 - 40,000	0	1	0	0	0	1	0	34
Cyfanswm	0	2	0	0	0	2	0	42

NODYN 24 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Nid oes unrhyw athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwysu'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwn wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Pensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddeler yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiwnau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2020			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2021		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	17,783	0	17,783	17,622	0	17,622
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(26,687)	(26,687)	0	(25,926)	(25,926)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu Hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	17,783	(26,687)	(8,904)	17,622	(25,926)	(8,304)
Addasiad pensiwn cyfnod blaenorol**				(180)		(180)
Sefyllfa Agoriadol Addasiedig ar 1 Ebrill	17,783	(26,687)	(8,904)	17,442	(25,926)	(8,484)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(1,500)	(1,500)	0	(1,137)	(1,137)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	(71)	(71)	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(1,571)	(1,571)	0	(1,137)	(1,137)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	433	0	433	408	0	408
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(658)	(658)	0	(607)	(607)
Cyfanswm Llog Net	433	(658)	(225)	408	(607)	(199)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	433	(2,229)	(1,796)	408	(1,744)	(1,336)
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	273	(273)	0	279	(279)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	599	0	599	797	0	797
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(433)	433	0	(453)	453	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	18,655	(28,756)	(10,101)	18,473	(27,496)	(9,023)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	1,036	1,036	0	(434)	(434)
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	2,480	2,480	0	(7,950)	(7,950)
Profiadau Eraill	0	(686)	(686)	0	264	264
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	(1,033)	0	(1,033)	4,770	0	4,770
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(1,033)	2,830	1,797	4,770	(8,120)	(3,350)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	17,622	0	17,622	23,243	0	23,243
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(25,926)	(25,926)	0	(35,616)	(35,616)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu**	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	17,622	(25,926)	(8,304)	23,243	(35,616)	(12,373)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

**Addasiad i ffigyrau 2019/20, yn dilyn derbyniad adroddiad diwygiedig gan Hymans am 2019/20.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh 19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2,510m ar 31 Mawrth 2021, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond rhan o'r Gronfa sy'n berthnasol i'r GwE.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2020				Ar 31 Mawrth 2021			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	0	0	0	0	0	0	0	0
Cynhyrchu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ynni a Gwasanaethau	0	0	0	0	0	0	0	0
Sefydliadau Ariannol	0	0	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Gofal	0	0	0	0	0	0	0	0
Technoleg Gwybodaeth	0	0	0	0	0	0	0	0
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	0	0	0	0	0	0	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	1,103	1,103	6	0	1,445	1,445	6
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	1,729	1,729	10	0	1,843	1,843	8
Eiddo Tramor	0	2	2	0	0	0	0	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac								
Ymddiriedolaethau								
Unedol								
Ecwiti	0	11,760	11,760	67	0	14,892	14,892	64
Is-adeiladwaith	0	400	400	2	0	410	410	2
Eraill	0	2,536	2,536	14	0	4,519	4,519	19
Arian a								
Chyferthoedd								
Arian								
Y cyfan	92	0	92	1	134	0	134	1
Cyfanswm	92	17,530	17,622	100	134	23,109	23,243	100

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.5% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	1.9	2.85
Cyfradd Codiad Cyflogau	2.2	3.15
Cyfradd Chwyddiant	1.9	2.85
Cyfradd Ddisgownt	2.3	2.0
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar yr holl asedau	2.3	2.0
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol		
Dynion	21.3	21.5
Merched	23.4	23.9
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	22.2	22.7
Merched	25.1	25.9

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2021 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau SCRh 19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2019, sef dyddiad y prisiad actiwaraid diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun		
Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2021	Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2021
	%	£'000
0.5% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt	11	3,915
0.5% o gynnydd i'r cyfradd codiad cyflog	2	534
0.5% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn	9	3,290

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwylid oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedranau iau neu hŷn).

Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2019), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2021 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraid 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2021	
	£'000	%
Aelodau Gweithredol	21,713	61.0
Aelodau Gohiriedig	4,036	11.3
Aelodau Pensiynwyr	9,867	27.7
Cyfanswm	35,616	100.0

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2019.

NODYN 25 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £798k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2022.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £191k yn 2020/21, sydd yn cynnwys addasiad o £180k sydd yn berthnasol i'r flwyddyn flaenorol (£3k yn 2019/20) i ddod a'r diffyg yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad sy'n berthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a ddiffinnir yn y Fantolen.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Gweledigaeth y Cynghorau oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2021, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2020/21.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu yn barhaus mewn ffordd ddisgybledig, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac atodol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blyneddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Ar gyfer pob egwyddor llywodraethu, arfarnwyd yn seiliedig ar gyfuniad o:

- Adolygiad o adroddiadau a dogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes;
- Trafod â swyddogion, yr UDA a'r Bwrdd Rheoli a sylwadau a gafwyd ganddynt hwythau;
- Myfyrion'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith, yn fewnol ac yn allanol h.y. Estyn, Steve Munby, Education Development Trust.

3.5 Ers mis Mawrth 2020, hyd at ddyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2020/21, bu GwE yn ymateb i argyfwng pandemig Covid-19. Ble cafodd hyn effaith sylweddol ac amlwg ar drefniadau llywodraethu GwE, nodwyd hyn isod.

Egwyddor A	Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
 - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
 - Ymrwymiad a Chymhelliant
 - Sgiliau a Chreadigedd
 - Perthnasau Effeithiol
 - Datblygu ac Addasu
 - Enw Da
 - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
 - Caniatâd Angenrheidiol
 - Ymrwymadau Aelodau a Swyddogion
- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r God Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn

Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.

- Yn rhan o'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
 - Ymddiriedaeth
 - Dim tuedd
 - Tegwch
 - Parch at amryfaliaeth
 - Cefnogi a chydweithio
 - Dwyieithog
 - Gwrthrychedd
 - Mynnu safonau uchel
 - Gonestrwydd
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2020-21 yn rhithiol ar Zoom. Rhoddwyd canllawiau at ei gilydd i'r Aelodau mewn perthynas â Mynychu Cyfarfodydd Rhithiol.

Egwyddor B	Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Sefydliad partneriaeth yw GwE, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y pandemig ac wrth symud ymlaen.
- Ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau o fewn y drefn lywodraethu ffurfiol, a thu allan iddi.
- Yn ystod 2020/21, bu GwE yn gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae GwE hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd hefyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.
- Mae GwE yn annog i'w rhanddeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ac ati.

Tud. 54

- Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.
- Cynhyrchodd GwE gyfres o adroddiadau a rannwyd â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn yr adroddiadau hyn, ceir safbwyntiau ysgolion, staff a'r awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion y rhanbarth. Mae pob adroddiad yn disgrifio ansawdd y ddarpariaeth ac yn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant i yrru'r agenda ddysgu ymlaen.
 - Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
 - Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
 - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
 - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
 - Cyfarfodydd wythnosol â'r Bwrdd Rheoli a'r Deilyddion Portffolio Addysg - penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol.
 - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
 - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALI/Aelodau Etholedig.
 - Diweddarau rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
 - Rhannu gwybodaeth rhanbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
 - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
 - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
 - Paratoi a chydlyn cyfarfodydd rhanbarthol, er enghraifft y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor.
 - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.
- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Egwyddor C	Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blynyddol.
- Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenathiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.
- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Tud. 55

- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Egwyddor Ch	Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.
- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.
- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.
- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
 - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
 - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gydag unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.
- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
 - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;

Tud. 56

- cysylltu â chyrrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;
 - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
 - goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
 - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
 - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
 - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
 - cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gyngorau unigol;
 - cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
 - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
 - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
 - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.
- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
 - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALI unigol;
 - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
 - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
 - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
 - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.
 - Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

Egwyddor Ch	Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion.
Asesu	Sicrhawyd

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae GwE wedi ailgyfeirio amryw o weithiau yn ystod pandemig Covid-19 er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid.

Tud. 57

- Yn ystod pandemig Covid-19, bu'r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir. Ategwyd cyfarfodydd dyddiol yr Uwch Dîm Arwain gan gyfarfodydd wythnosol Bwrdd Rheoli GwE a'r Deilyddion Portffolio Addysg.
- Fel hyn, roedd modd gwneud penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol ag eglurder a hyder. O ganlyniad, cafwyd negeseuon cyson gan yr awdurdodau lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sydd yn gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.
- Mae'r Deilyddion Portffolio Addysg wedi cael sawl cyfarwyddyd a diweddariad ar yr holl ddatblygiadau drwy gyfrwng adroddiadau a diweddariadau llafar. Cawsant gyfle hefyd i gael weminarau ac adnoddau.
- Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystywyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.
- Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar foddelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod.
- Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.
- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol Blyneddol yn ystod y flwyddyn.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.
- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson pob wythnos ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

Egwyddor Dd	Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
Asesu	Sicrhawyd


Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.
- Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Egwyddor E	Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol
Asesu	Sicrhawyd
Camau gweithredu yn y dyfodol	Rhoddir y cyfle i'r Cyd-Bwyllgor, mewn cyfarfod maes o law, i ystyried a mabwysiadu Siarter Archwilio Fewnol, fel sy'n ofynnol dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae gan GwE atebolrwydd blynyddol i amrywiol randdeiliaid ar draws y flwyddyn, fel y gwelir yn y diagram hwn.



- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.
- Yn ystod y flwyddyn, ac ar gais y Cyd-Bwyllgor, aeth Rheolwr Gyfarwyddwr GwE ati i adolygu'r trefniadau archwilio mewnol gan ymgynghori â Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. O ganlyniad, cytunwyd ar y broses ganlynol i adnabod yr angen am archwilio mewnol a gweithredu ar yr argymhellion:

Tud. 60

- Nodi'r angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Lle bo'n bosibl, bydd y cynllun gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy ystyried cofrestri risg, adroddiadau perfformiad, cynlluniau busnes ac ati.
 - Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
 - Cytuno ar y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn efo'r Bwrdd Rheoli.
 - Rhannu cynnwys y rhaglen â'r Cyd-Bwyllgor.
 - Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.
 - Rhannu adroddiadau archwilio drafft â rheolwyr perthnasol GwE er cywirdeb a chytuno ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw risg.
 - Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio at Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
 - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar y camau gweithredu (materion gweinyddol ble nad oes angen cynnwys y Cyd-Bwyllgor).
 - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol â'r Bwrdd Rheoli.
 - Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.
 - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cyd-Bwyllgor.
 - Swyddogion GwE i adrodd am gynnydd i'r Cyd-bwyllgor fel bo angen.
- Mae GwE wedi llwyddo i reoli a gwerthuso ei hun yn rheolaidd. O ganlyniad, bu barn cyrff atebolrwydd allanol yn gadarnhaol.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.

4.2 Mae pob maes llywodraethu wedi'u hadolygu yng nghyd-destun pandemig Covid-19 ac rydym yn fodlon bod GwE wedi gallu addasu ei drefniadau gweithio er mwyn delio gyda'r argyfwng hwn.

Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU

5.1 Cynnydd yn erbyn Materion Llywodraethu a Nodwyd 2019/20

Yn y tabl isod, rhoddir diweddariad ar gynnydd yn erbyn y cynigion hynny am welliant a nodwyd yn ystod 2019/20:

Egwyddor Graidd	Cynnig ar gyfer gwella	Swyddog Cyfrifol	Diweddariad ar gynnydd
Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid.	Sicrhau bod yr adolygiad llywodraethu yn cael ei gwblhau.	Awdurdod Lletyol/Rheolwr Gyfarwyddwr	Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithio wrth wraidd y gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf. Bu'r cydweithio hwn a hwyluswyd yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol

Tud. 61

			a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.
Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion.	Parhau i ddatblygu staff dros y flwyddyn nesaf gan sicrhau bod staff yn cael unrhyw ofynion/datblygiadau newydd o ran cymorth o ganlyniad i Covid-19.	Rheolwr Gyfarwyddwr	Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Cafodd staff ddysgu proffesiynol sylweddol yn ystod y flwyddyn.
Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.	Gwella'r fframwaith gwerth am arian yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos ymhellach bod adnoddau yn cael eu blaenoriaethu.	Rheolwr Gyfarwyddwr	Mae GwE wedi parhau i roi gwerth am arian ac wedi gweithio o fewn ei gyllideb unwaith eto eleni. Adolygir y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn ystod 2021/22.

Rhan 6: BARN

Rydym o'r farn y bydd y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda ar y cyfan. Er hynny, rydym yn bwriadu gweithredu i ddelio gyda'r materion a nodir uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y mesurau hyn yn delio gyda'r angen i wella fel y nodir yn yr adolygiad effeithlonrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Arwyn H Thomas

Phil Wynne

Swyddog Arweiniol GwE Cadeirydd GwE

Dyddiad: 14/07/2021

ARWYN LLOYD THOMAS

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Dyddiad: 14/07/2021

Y CYNGHORYDD PHIL WYNN

Tud. 62

Geirfa

Amhariad – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

Ased - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall gollu gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

Balansau (neu Reserfau) - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymadau gaiff eu hadnabod.

CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting) – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

Costau Gwasanaeth Cyfredol – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwyllir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

Credydwyr - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Cronfa Gyffredinol - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

Cynllun Buddiannau Diffiniedig – Pensiwn neu fudd ymddeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

Darpariaeth – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

Dyledwyr - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

Eiddo Buddsoddi – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisant cyfalaf, neu'r ddau.

Enillion a Cholledion Actiwaraid - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraid sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraid a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraid wedi newid.

Gwariant Cyfalaf - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

Gwerth Teg - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

Offerynnau Ariannol - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewtblannu.

Partïon Cysylltiedig - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

Reserfau - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymïadau'r dyfodol.

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

Ymrwymïadau – Symïau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Gyd-Bwyllgor GwE

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Sail y farn

Cynhaliats fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r cyd-bwyllgor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth perthnasol ar allu'r cyd-bwyllgor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21;

Tud. 65

- Mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r dealltwriaeth a gafwyd o'r cyd-bwyllgor a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall. Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyd-bwyllgor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn. Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisiau a gweithdrefnau Cyd-Bwyllgor GwE mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyd-Bwyllgor GwE yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyd-Bwyllgor GwE yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-Bwyllgor GwE.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio Llywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r cyd-bwyllgor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-Bwyllgor GwE, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
16 Tachwedd 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-Bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2674A2021-22

Diben y ddogfen hon

Dogfen ddrafft yw hon a ddarperir yn gyfrinachol a hynny dim ond er mwyn gwirio cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ynglŷn â'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

Trin y ddogfen cyn ei chyhoeddi

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac maent yn aros yn eiddo iddo. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan swyddogaethau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol ac at y diben hwnnw yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel a ganiateir yn benodol gan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw gynnwys ynddi, na'u storio mewn system adalw na'u trosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'u datgelu wrth unrhyw un ac eithrio'r derbynnnydd gwreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamedd ar eich cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig	10
Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed	15

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn yr adroddiad hwn. Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Pennaeth Cyllid a'i dîm.
- 2 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.
- 3 Fe bennon ni lefel o £276,000 ar gyfer hyn yn archwiliad eleni.
- 4 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a all fod o fwy o bwysigrwydd i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel is o berthnasedd ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
 - Datgeliad Partïon Cysylltiedig £10,000
 - Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion £1,000
- 5 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol.
- 6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; bod yn annibynnol arnoch chi; ac, ni pheryglwyd ein gwrthrychedd mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

- 7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd o'n cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.
- 8 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar y broses archwilio eleni.

Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

Amserlen	<ul style="list-style-type: none">• Darparodd swyddogion y cyfrifon drafft ar ein cyfer ar 27 Mai 2021 fel a gynlluniwyd.• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi canol mis Tachwedd 2021.
Llofnodion electronig	O ystyried y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd, bydd yn anodd llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar ffurf copi caled eto eleni. Byddwn yn derbyn llofnodion electronig gennych.
Dull o gynnal yr archwiliad a chael tystiolaeth archwilio	Oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae Archwilio Cymru a'r mwyafrif o staff y Cyd-Bwyllgor yn gweithio o bell ar hyn o bryd. O ganlyniad, fe fabwysiadom ni ffyrdd o weithio o bell trwy: <ul style="list-style-type: none">• gynnal cyfarfodydd Microsoft Teams gyda swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg; a• defnyddio ein mynediad o bell i alluogi'r tîm archwilio i gael mynediad at gofnodion a systemau ariannol y Cyd-Bwyllgor ar awdurdod lletyol.

- 9 Byddwn yn parhau i adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19, ac os oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

Barn archwilio arfaethedig

- 10 **Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn ddiamod** ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau o'ch cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 12 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhaid y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'u darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 13 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

- 14 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u canfod yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 15 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

Materion arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

- 16 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi eleni. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, rydym yn bwriadu cynnal ymarfer ôl-brosiect gyda staff allweddol er mwyn gwella'r broses o cynhyrchu'r cyfrifon ymhellach ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr Cyd-Bwyllgor GwE

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

10 Tachwedd 2021

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2020-21

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- Baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â'r rhain.
- Dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyd-Bwyllgor GwE ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogedigion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i sicrhau cydnabyddiaeth, mesur neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn anfaterol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

Sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Cyd-Bwyllgor GwE ar 10 Tachwedd 2021.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L. Edwards

Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Y Cyngorydd Phil Wynn

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau o Gyd-Bwyllgor GwE

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r Cyd-Bwyllgor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw

amheuaeth perthnasol ar allu'r Cyd-Bwyllgor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; ac
- mae'r wybodaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd o'r Cyd-Bwyllgor a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyd-Bwyllgor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-Bwyllgor GwE mewn cysylltiad â:

- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.
 - Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyd-Bwyllgor GwE yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyd-Bwyllgor GwE yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y chyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-Bwyllgor GwE.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r chyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio Llywodraethu a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyd-Bwyllgor;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-Bwyllgor GwE, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
16 Tachwedd 2021

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o'r Cywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad fe ganfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

Arddangosyn 2: crynodeb o'r cywiriadau a wnaed

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
£1,137,000	Nodyn 17 – Datganiad Llif Arian: Addasiadau i'r gwarged neu diffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol Nodwyd camddosbarthiad yn y nodyn ategol ar gyfer y Datganiad Llif Arian. Dylai Grantiau a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw fod wedi cael eu cynnwys o fewn (Cynnydd) / Gostyngiad mewn Credydwyr yn lle o fewn Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neud diffyg net ar ddarparu gwasanaeth. Roedd y cywiriad hwn yn hunangynhwysol yn Nodyn 17.	Cydymffurfio â'r gofynion datgelu yn ôl Côd CIPFA.
£304,000	Nodyn 21 – Incwm Grant Nodwyd gwall trawsosod wrth ddatgelu Grantiau Gwella Addysg (GGA) rhwng swm y grant gan Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd a'r Ariannu Cyfatebol gan Gyngorau. Roedd y cywiriad hwn yn hunangynhwysol yn Nodyn 21a.	Er mwyn sicrhau bod y swm cywir o Grantiau Llywodraeth Cymru ag Ariannu Cyfatebol gan Gyngorau mewn perthynas a GGA yn cael ei ddatgelu.
Datgeliadau naratif a thrafodion	Nodyn 22 – Partion Cysylltiedig Roedd angen ail-weithio'r nodyn hwn i gynnwys yr holl bartïon cysylltiedig perthnasol a diwygio'r ffigyrau mewn perthynas â thrafodion awdurdodau lleol a thrafodion aelodau. Roedd hyn er mwyn datgelu symiau cywir o daliadau a wnaed, yr incwm a dderbyniwyd a'r symiau sy'n ddyledus i/gan y Cyd-Bwyllgor. Roedd y cywiriadau hyn yn hunangynhwysol yn Nodyn 22.	Sicrhau bod y datgeliad yn cydymffurfio â'r gofynion yng Nghôd CIPFA.

Bu nifer o fân ddiwygiadau a diweddariadau datgelu hefyd o ganlyniad i'n gwaith.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Eitem 8

GwE: Cydbwyllgor 10/11/21



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	10 Tachwedd 2021
TEITL	Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 2il Chwarter
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2021/22.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Mae'r adolygiad 2il chwarter yn amcangyfrif tanwariant net o (£79,720), yn bennaf yn sgil arbediad ar y gyllideb costau teithio craidd.
- 1.2 Mae effaith Covid-19 yn parhau i effeithio ar benawdau unigol, ac mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 Gweithwyr Chwarter 2: tanwariant (£62,691) Chwarter 1: niwtral

Rhagwelir sefyllfa o danwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 21/22 yn bennaf oherwydd trosiant staff, ynghyd ag arbediad bychan ar gostau eraill sydd yn gysylltiedig â staff (hyfforddiant, hysbysebu a.y.y.b)

2.2 Adeilad: Chwarter 2: gorwariant £58,833 Chwarter 1: gorwariant £24,514

Mae'r gyllideb yma yn ddibynnol ar incwm allanol a defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol fel rhan ohono. Yn sgil y pandemig mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu mabwysiadu, gyda llawer mwy o weithio o bellter, a chyfarfodydd rhithiol.

Nid yw swyddogion GwE yn ôl yn y swyddfa ar hyn o bryd, ond mae'n bosib bydd hyn yn newid cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fe adroddir ar ddiffyg incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei gyfanrwydd, gan nad oes unrhyw ddefnydd o ystafelloedd GwE wedi ei wneud o Ebrill hyd at Hydref, a ni ragwelir ddefnydd yn y dyfodol agos.

2.3 Cludiant: Chwarter 2: tanwariant (£75,862) Chwarter 1: tanwariant (£73,319)

Dim newid o sylwedd i'r hyn a adroddwyd yn Chwarter 1, gyda ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn, ond ddim i'r un raddfa a chyn yr argyfwng Covid. Bydd y pennawd yn destun adolygiad ar ffyrdd newydd o weithio.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2021/22 oedd £563,530.

3.2 Yn seiliedig ar rhagolygon y sefyllfa bresennol fe amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £643,250 ar ddiwedd 2021/22, yn dilyn ychwanegiad y tanwariant o £79,720 a ragwelir uchod.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2021/22 – Adolygiad 2il Chwarter.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.

CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2021/22 : 2il Chwarter Gorffennaf - Medi 2021

	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 1) £	Addasiadau Cyllideb (Chwarter 2) £	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 2) £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2) £	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1) £
Gwariant						
Gweithwyr						
Cyflogau						
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	924,341	(55,000)	869,341	797,105	(72,236)	0
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	3,860,941		3,860,941	3,834,691	(26,250)	0
- Staff ar Secondiad	43,580	103,495	147,075	147,075	0	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,820,533)	55,000	(1,765,533)	(1,724,418)	41,115	0
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	42,588		42,588	37,268	(5,320)	0
Adeilad						
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	173,245		173,245	173,245	0	0
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(58,833)		(58,833)	0	58,833	24,514
Cludiant						
Costau Teithio	137,264		137,264	61,402	(75,862)	(73,319)
Cyflenwadau a Gwasanaethau						
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	72,980		72,980	72,980	0	0
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	16,496		16,496	16,496	0	0
Ffioedd archwilio	11,454		11,454	11,454	0	0
Broceru	288,698		288,698	288,698	0	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd						
Cyfreithiol	5,726		5,726	5,726	0	0
Adnoddau Dynol	9,818		9,818	9,818	0	0
Cyllid	42,456		42,456	42,456	0	0
Technoleg Gwybodaeth	46,957		46,957	46,957	0	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948		469,948	469,948	0	0
Prosiectau Penodol						
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	10,251,998		10,251,998	10,251,998	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	1,031,754		1,031,754	1,031,754	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	102,787		102,787	102,787	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	155,642		155,642	155,642	0	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	346,769		346,769	346,769	0	0
Trawsnewid Y System Ady	75,295		75,295	75,295	0	0
Fin-Ed Pathfinder Project	0	10,625	10,625	10,625	0	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	207,720		207,720	207,720	0	0
Ein Llais Ni	210,900		210,900	210,900	0	0

Cyfanswm Gwariant	<u>16,649,991</u>	<u>114,120</u>	<u>16,764,111</u>	<u>16,684,391</u>	<u>(79,720)</u>	<u>(48,805)</u>
-------------------	-------------------	----------------	-------------------	-------------------	-----------------	-----------------

	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 1)	Addasiadau Cyllideb (Chwarter 2)	Cyllideb Diwygiedig (Chwarter 2)	Gwariant Rhagwelir	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 2)	Gor / (Tan) Wariant Net (Chwarter 1)
	£	£	£	£	£	£
<u>Incwm</u>						
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd						
- Cyngor Ynys Môn (20/21: 10.15% - 21/22: 10.16%)	(429,053)		(429,053)	(429,053)	0	0
- Cyngor Gwynedd (20/21: 17.63% - 21/22: 17.63%)	(744,676)		(744,676)	(744,676)	0	0
- Cyngor Conwy (20/21: 15.30% - 21/22: 15.28%)	(645,228)		(645,228)	(645,228)	0	0
- Cyngor Dinbych (20/21: 15.30% - 21/22: 15.36%)	(648,731)		(648,731)	(648,731)	0	0
- Cyngor Fflint (20/21: 22.68% - 21/22: 22.72%)	(959,441)		(959,441)	(959,441)	0	0
- Cyngor Wrecsam (20/21: 18.94% - 21/22: 18.86%)	(796,417)		(796,417)	(796,417)	0	0
Prosiectau Penodol						
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(10,251,998)		(10,251,998)	(10,251,998)	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(1,031,754)		(1,031,754)	(1,031,754)	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	(102,787)		(102,787)	(102,787)	0	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	(155,642)		(155,642)	(155,642)	0	0
Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG)	(346,769)		(346,769)	(346,769)	0	0
Trawsnewid Y System Ady	(75,295)		(75,295)	(75,295)	0	0
Fin-Ed Pathfinder Project	0	(10,625)	(10,625)	(10,625)	0	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	(207,720)		(207,720)	(207,720)	0	0
Ein Llais Ni	(210,900)		(210,900)	(210,900)	0	0
Incwm Secondiadau	(43,580)	(103,495)	(147,075)	(147,075)	0	0
Cyfanswm Incwm	(16,649,991)	(114,120)	(16,764,111)	(16,764,111)	0	0
Cyfanswm Cyllideb Net	0	0	0	(79,720)	(79,720)	(48,805)
<u>Memorandwm - Y Gronfa Tanwariant</u>						
			Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2021		(563,530)	(563,530)
			Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn ariannol 2021/22		(79,720)	(48,805)
			Llai - Defnydd o'r Gronfa		0	0
			Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2022		(643,250)	(612,335)

Eitem 9

GwE: Cyd-Bwyllgor 10/11/2021



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

10 TACHWEDD 2021

Adroddiad gan: Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Grant Datblygu Disgyblion 2021-22

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhoi diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar y Cynllun Cymorth Grant Datblygu Disgyblion am 2021/22 ar draws y rhanbarth.

2.0 Cefndir

2.1 Pwrpas y cyllid GDD yw cael effaith hirdymor ar ddeilliannau plant difreintiedig. Y Consortia sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y bwriedir y grant ar ei gyfer, a GwE sydd yn gyfrifol am ddatblygu a monitro Cynllun Cymorth y Grant Datblygu Disgyblion (GDD).

2.2 Mae dyraniad GwE yn seiliedig ar ddata CYBLD am 2020 gan ddefnyddio grwpiau blwyddyn. Am 2021/22:

	Nifer y dysgwyr cymwys	Dyraniad £
Dysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim (PYD)	14,969	17,214,350
Dysgwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (GDDBC)	2,754	3,167,100
Dysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol mewn UCD ac mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS).	129	148,350
Plant Mewn Gofal 3 i 15 oed	986	1,133,900

- 2.3 Mae gwybodaeth fanwl am yr arian uchod wedi'i chynnwys yn y cynllun cymorth blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dyrennir yr holl gyllid yn uniongyrchol i ysgolion/lleoliadau; er hynny, mae'r GDD PMG yn fodel ariannu a arweinir gan y consortia.
- 2.4 Mae person arweiniol (ymgyngorydd strategol) o fewn y consortia sydd yn gyfrifol am y Cynllun Cymorth GDD o ran cefnogi ysgolion a'r cyswllt efo'r grŵp GDD cenedlaethol gyda LIC.
- 3.0 **Ystyriaethau**
- 3.1 **GDD PYD:**
Parhau i weithredu'r cynllun cymorth blynyddol ar gyfer 2021-22 ar draws y rhanbarth. Canolbwytir yn bennaf ar gefnogi ysgolion/lleoliadau i gynllunio eu GDD o gwmpas dysgu ac addysgu effeithiol.
- 3.2 Sicrhau bod dangosfwrdd y grantiau Rhanbarthol ac Ysgol yn cael ei gwblhau gan bob ysgol/lleoliad i gynllunio eu defnydd o'r prif grantiau (uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol hon h.y. Y Blynyddoedd Cynnar/PYD/Addysg Heblaw yn yr Ysgol/PMG.
- 3.3 Cyflwyno'r canllawiau i ysgolion/lleoliadau o ran defnyddio'r GDD a chymorth i ddysgwyr bregus.
- 3.4 Sicrhau y caiff y cynllun cymorth ei fonitro pob chwarter gydag enghreifftiau o effaith.
- 3.5 **Arian a arweinir gan y consortia:**
Am yr ail flwyddyn, bydd GwE yn cael arian a arweinir gan y Consortia i gefnogi ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgwyr difreintiedig. Bydd y pwyslais ar ddysgu ac addysgu, targedu cynhaliaeth ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach.
- 3.6. **Dyraniad GDD PMG 2020/21**
Cynigiwn barhau i ddsbarthu cyllideb y grant o £1,133.900 drwy'r model clwstwr rhanbarthol, yr elfen bwrsari unigol a datblygiad proffesiynol - yn unol â Thelerau ac Amodau Llywodraeth Cymru.
- 3.7 Bydd gan bob clwstwr fynediad at gyllid a chymorth ar draws y rhanbarth i sicrhau tegwch o ran cynnig a chymorth.
- 3.8 Mae GwE wedi parhau i ddefnyddio data gwasanaethau plant/data CYBLD i adnabod a dyrannu cyllid i bob clwstwr ar sail £1050 i bob dysgwr y gofelir amdano. Nid yw'r data yn cynnwys plant a arferai dderbyn gofal. Mae gan bob clwstwr ar draws y rhanbarth blant sydd mewn gofal.

3.9 Mae'r dangosfwrdd GDD Clwstwr Rhanbarthol yno i helpu ysgolion/clystyrau i gynllunio'r grant. Mae'n rhoi modd hefyd i GwE a'r ALL fonitro a gwerthuso'r cynlluniau.

3.10 Mae cyfeiriadur diweddar ar gael o'r cymorth cyffredinol a phenodol sydd ar gael i glystyrau, sydd yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

3.11 Mae llinellau atebolrwydd clir a chaiff effaith y GDD ei fonitro drwy gylch arfarnu blynyddol a rhennir adnoddau efo ysgolion/lleoliadau ar arferion effeithiol.

3.12 **Lles:**

Yn ystod 2021/22, mae GwE wedi nodi'r trefniadau yn y cynllun cymorth ar gyfer cynllunio a darparu cymorth i blant o safbwynt lles, yn nodi sut rydym ni'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid ar y cynigion hyn, o safbwynt y dull gweithredu ysgol gyfan gyda llesiant emosiynol a meddyliol.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

5.2 Nodir dyraniad GwE am 2021/2022 yn seiliedig ar ddata CYBLD am 2020 gan ddefnyddio grwpiau blwyddyn yn adran 2.2 yr adroddiad.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Plant ac Addysg) a Bwrdd Rheoli GwE.

9.0 Atodiadau

- 9.1 Atodiad 1 - Canllawiau rhanbarthol i sefydliadau addysgol yng ngogledd Cymru ar weithredu'r GDD (Grant Datblygu Disgyblion) .
-

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Cadarnhaf y ffigyrau ariannol sydd ar yn rhan 2.2 o'r adroddiad.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

CANLLAWIAU RHANBARTHOL I SEFYDLIADAU ADDYSGOL YNG NGOGLEDD CYMRU AR WEITHREDU'R GDD (GRANT DATBLYGU DISGYBLION) .

Llywodraeth Cymru

Pwrpas y cyllid yw dod â manteision hirdymor ar ddeilliannau i blant difreintiedig.

1. Cefndir:

Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg o'r GDD mewn perthynas â'r agendau/gofynion cenedlaethol, y dull gweithredu rhanbarthol a'r cymorth gan y consortia, a pherthnasedd ac effaith hyn ar ysgolion a lleoliadau.

2. Y cyd-destun cenedlaethol:

Un o amcanion allweddol Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun Gweithredu 2017–21 yw "codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol." Mae Llywodraeth Cymru wedi ehangu'r GDD fel y gall ysgolion wella cyfleoedd bywyd ein dysgwyr mwyaf difreintiedig, gyda ffoecs ar ymyrryd yn gynt a chefnogi'r mwyaf abl a thalentog. Mae'r GDD hefyd yn cefnogi gweithredu amcan 3, sy'n cyfeirio at ddatblygu "ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles."

Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD:

Ebrill 2018

"Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

3. Beth yw Dyraniadau GDD 2021/2022?

Mae LIC wedi dyrannu'r GDD yn seiliedig ar ddata CYBLD 2020.

O Ebrill 2021, bydd y GDD yn parhau i gael ei ddyrannu i gefnogi:

- dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac a addysgir mewn ysgolion a gynhelir;
- dysgwyr sydd â chofrestriad sengl mewn uned cyfeirio disgyblion (UCD) ac mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS);
- dysgwyr cymwys mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ble darperir Y Cyfnod Sylfaen; a
- Plant mewn gofal (PMG) a phlant a arferai dderbyn gofal sydd wedi'u mabwysiadu o ofal, neu sy'n destun gwarchodaeth arbennig neu orchymyn preswylad, 3-15 oed.
- Yn ogystal, ar gyfer 2020-21, bydd y GDD yn codi elfen blynyddoedd cynnar y grant i £1,150 y dysgwr.

4. Canllawiau GDD i ysgolion / lleoliadau:

Mae LIC yn nodi y dylid defnyddio'r GDD i:

1. Gefnogi pob dysgwr hPYD drwy adnabod disgyblion yn gynnar a'u tracio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y dysgwyr mwy galluog.

2. Datblygu staff addysgu a staff cymorth i ddefnyddio arferion megis metawybyddiaeth, meddylfryd o dwf ac adborth o ansawdd, arferion yr ystyrir ar hyn o bryd fel y rhai mwyaf effeithiol gyda dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.
3. Ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â gwendidau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn berthnasol i'r blynyddoedd cynnar, yn ogystal â phan fo disgyblion yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ac yn ystod cyfnodau pontio allweddol eraill.
4. Sicrhau y targedir mwy o adnoddau yng nghyfnod allweddol 3, yn y dosbarth ac mewn gweithgareddau cyfoethogi, a chodi dyheadau, tra cydnabyddir pwysigrwydd Blwyddyn 11 i bob dysgwr. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i ysgolion uwchradd gyflawni targed uchelgeisiol o fuddsoddi 60% o'r GDD mewn dysgwyr CA3.
5. Sicrhau y cyhoeddir holl ddatganiadau GDD ar wefan yr ysgol (os nad oes gan yr ysgol wefan, dylid ei anfon a'i gyhoeddi gan GwE).

Cynllun Datblygu Ysgol:

Mae'n ofyniad statudol bod gan bob ysgol yng Nghymru gynllun datblygu ysgol (CDY) mewn lle. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y consortia addysg rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i ddefnyddio eu CDY fel dull o gynllunio eu defnydd o'r GDD ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim lle bo'n briodol. Copi o'r CDY i'w gynnwys ar G6 fel tystiolaeth.

5. Cefnogaeth Ranbarthol:

Mae model cynllun busnes GwE ar gyfer y GDD wedi'i weithredu'n llawn yn y rhanbarth ac mae'n amlinellu sut y bydd y consortia yn defnyddio eu hadnabyddiaeth o ysgolion a gwaith ymchwil i hwyluso rhannu arferion gorau a chydweithio er mwyn gwella deilliannau dysgwyr, a hynny o fewn system hunan wella.

Yn ddi-os, mae perthynas uniongyrchol rhwng cyrhaeddiad addysgol a ffyniant economaidd, ac yn syml, nid yw llawer o'r dysgwyr hPYD a effeithir yn cyflawni eu potensial yn llawn. Mae'n wir bod llawer o ddysgwyr bregus yn llwyddo yn ein hysgolion. Serch hynny, mae perfformiad rhai grwpiau o ddysgwyr ymhell y tu ôl i berfformiad a llwyddiannau grwpiau eraill o hyd.

Mae'r consortia rhanbarthol wedi datblygu strategaeth GDD un tudalen y gall ysgolion a lleoliadau ei gweithredu, ac mae'r ffocws ar:

- I. atebolrwydd a dull ysgol gyfan
- II. adnabod dysgwyr yn gynnar a'u tracio
- III. dysgu ac addysgu
- IV. darpariaeth a chymorth ychwanegol
- V. arfarnu a mesur effaith

Gweler gopi o'r fframwaith GDD –



Fframwaith PDG
Cymraeg.docx

6. Rôl yr Ymgynghorydd GDD Rhanbarthol:

Mae gan YCG Llesiant y Consortia gyfrifoldeb cyffredinol am y strategaeth GDD ar draws y rhanbarth, ac mae'n cynrychioli'r rhanbarth ar y grŵp llywio GDD cenedlaethol. Yr Ymgynghorydd fydd y prif

gyswllt ar gyfer ysgolion o ran ymyraethau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cysylltwch â'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant cyswllt am ragor o wybodaeth a chymorth.

7. Rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt:

Mae gan y Consortia Addysg Rhanbarthol gyfrifoldeb i fonitro a chymeradwyo cronfeydd GDD o fewn cyd-destun yr agenda gwella ysgol ac yn unol â gofynion LIC o'r cynllun cymorth blynyddol a gynhrychir gan y consortia. Bydd gan eich Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) cyswllt a'r YCG Llesiant feini prawf/cwestiynau monitro clir er mwyn sicrhau ansawdd o ran sut y defnyddir y cyllid a'i effaith ar ddysgwyr bregus. Defnyddir yr wybodaeth hon i gymeradwyo pob cynllun yn ogystal ac adnabod arferion llwyddiannus mewn ysgolion ac adnabod effaith y GDD ar gyflawniadau disgyblion. Bydd hyn hefyd yn adnabod meysydd penodol ar gyfer gwelliant yn y rhanbarth ac yn sicrhau y rhoddir ymyraethau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain.

Gweler gopi o'r cwestiynau monitro GDD.



Cwestiynau
Monitro PDG Cymra



Rhestr Wirio

Arferion Llwyddiann

8. Atebolrwydd a Thystiolaeth o gronfeydd GDD

Y Dangosfwrdd Grant rhanbarthol yw'r dull o fonitro a sicrhau atebolrwydd y GDD. Mae gan bob ysgol gyswllt â'r dangosfwrdd trwy Office 365 a gofynnir iddynt boblogi eu cyllideb GDD yn erbyn yr elfennau / amcanion allweddol y grant. Mae'r system hefyd yn cynnwys elfen cymeradwyo a sicrhau ansawdd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion a lleoliadau rannu Cynlluniau GDD trwy gwefan yr ysgolion neu gonsortia.



School Grants
Screenshots.docx

9. Arfarnu & Mesur Effaith GDD

Bwriad y canllawiau yw cefnogi ysgolion wrth iddynt fonitro ac arfarnu'r ymyraethau/gefnogaeth a gyllidir gan y GDD ar draws y rhanbarth. Gall gynnwys dulliau ysgol gyfan yn ogystal â thargeddu cynhaliadaeth i unigolion. O weithredu'r canllawiau, ceir cysondeb yn y modd y bydd ysgolion yn cofnodi eu tystiolaeth, a'r modd y bydd y consortia rhanbarthol yn adnabod arferion llwyddiannus. Rhennir yr arfarniad efo partneriaid perthnasol yn y ffordd fwyaf priodol sy'n cynnwys G6, ymweliadau ysgol, cyfarfodydd ALI unigol ac adroddiad blynyddol. Bydd canfyddiadau'r arfarnu hefyd yn bwydo i fodel cylch cynllun busnes a chynllun cymorth LIC am y flwyddyn ganlynol.

10. Rôl yr Awdurdod Lleol:

Bydd GwE yn gweithio ar y cyd â'r ALI i sicrhau bod ysgolion yn cadw at Fodel Arfarnu a Monitro rhanbarthol y GDD. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol fydd sicrhau effeithiolrwydd strategaeth y GDD

drwy GwE. Cyflawnir hyn, yn y lle cyntaf, drwy gyfarfodydd monitro GwE ym mhob Awdurdod Lleol, a Chraffu ar gais yr aelodau etholedig.

Os oes unrhyw bryderon sylweddol am y modd y defnyddir y GDD gan ysgol/lleoliad o ran peidio â bodloni telerau ac amodau'r grant, gall yr awdurdod lleol ofyn am gael ail ddyrannu'r arian.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

10 TACHWEDD 2021

Adroddiad gan: Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE – Adroddiad monitro chwarter 2

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 2 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2021-2022 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth. Cytunwyd ar y blaenoriaethau trosfwaol am 2021-2022 â'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Chwefror 2021. Cytunwyd ar y cynllun busnes hwn yn ffurfiol gan Brif Swyddogion Addysg pob Awdurdod Lleol, y Cyd-Bwyllgor a'r Prif Weithredwr Arweiniol yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 26 Mai 2021.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynglwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.2 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

3.3 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

3.4 Mewn perthynas â sut mae GwE am ymateb i effeithiau ôl-covid yng nghyd-destun Addysg, mae cynlluniau manwl y gwasanaeth yn cyfarch hyn, yn ogystal â'r Strategaeth Rhanbarthol 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'. Drwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol a gwranddo arnynt, rydym wedi adnabod themâu penodol i gefnogi ein nod o sicrhau bod pob dysgwr yng ngogledd Cymru yn cael darpariaeth o'r safon uchaf. Mae eu hiechyd meddyliol a'u lles emosiynol, eu perthnasau a'u hiechyd corfforol oll yn alluogwyr hanfodol dysgu da. Byddwn yn cefnogi ysgolion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ogystal â datblygu'r sgiliau galluogi allweddol sy'n cynnwys llafaredd, llythrennedd, rhifedd, cynllunio, trefnu a meddwl yn feirniadol. Yn ogystal, bydd ymweliad cychwynnol yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar ddechrau'r flwyddyn yn ffocysu ar anghenion yr ysgolion, gan gymryd i ystyriaeth effaith Covid. Bydd gwybodaeth gyfansawdd yn deillio o'r ymweliadau yma yn bwydo cynlluniau cefnogi ysgolion, a byddwn yn mireinio ein cynlluniau busnes i adlewyrchu hynny.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 2.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â'r Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 2
Atodiad 2 – Data Rhanbarthol Chwarter 2

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.


Swyddog Cyllid Statudol:

Rwy'n gwerthfawrogi'r Cynllun Busnes, sy'n nodi cyfrifoldeb clir am weithrediad priodol ym meysydd busnes, risg, a gwerth am arian, ymhlith eraill. Mae paragraff 5 o'r adroddiad blaen yn datgan bydd GwE yn ariannu unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Cynllun Busnes o fewn ei gyllideb gyfredol.



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Atodiad 1



Cynllun Busnes GwE 2021-2022 Adroddiad Cynnydd Chwarter 2



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru

CYNNWYS

1. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2021-2022

- **Blaenoriaethau rhanbarthol a darpariaeth sy'n cyfrannu at flaenoriaethau awdurdodau lleol – Adroddiad Cynnydd ar gyfer Chwarter 2**

2. Atodiad: Data Rhanbarthol

AMCAN 1 – CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol gyda thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n gosod safon uchel i bob dysgwr

CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

Sicrhau cefnogaeth i bob ysgol wrth ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, y 12 egwyddor addysgeg ac ymchwil gweithredol

Mae hyfforddiant eang lefel uchel ar y Daith Ddiwygio wedi'i ddarparu i arweinwyr ysgol ar draws y rhanbarth a bydd yn parhau y tymor hwn (cyfeiriwch at Wireddu'r Cwricwlwm). Mae pob arweinydd ysgol wedi cael cynnig gweithdai ar gynllunio gweledigaeth a'r cwricwlwm ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (CiG) sydd wedi cwmpasu syniadau cynnar o ran cynllunio ar gyfer cynnydd a lle'r 12 egwyddor addysgeg yn y cwricwlwm.

Mewn ysgolion uwchradd, mae arweinwyr dysgu ac addysgu mewn ysgolion wedi bod yn rhan o drafodaethau trwy fforymau ar yr hyn y maent yn eu gweld fel eu cryfderau a'u hanghenion o ran datblygu ar gyfer gwella addysgeg yn eu hysgolion, a fydd y bwydo i mewn i'r cynnig o fis Medi ymlaen. Ar gais, mae rhai ysgolion wedi derbyn mewnbyn ar beth sy'n gwneud dysgu ac addysgu da ar gyfer cynnydd, gyda hyfforddiant wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y 12 egwyddor. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynnig Dysgu ac Addysgu yn parhau.

Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol

Prosiect Ymchwil Gweithredol GwE a Shirley Clarke – Haen 3

Mae'r prosiect Ymchwil Gweithredol Asesu Ffurfiannol (GwE a Shirley Clarke) wedi bod ar waith yn y rhanbarth ers mis Hydref 2017. Mae'r prosiect yn datblygu'n effeithiol a chaiff ei weithredu mewn patrwm o haenau, gan roi egwyddorion addysgeg ar waith mewn dosbarthiadau ar sail tystiolaeth gadarn.

Cynhaliwyd gweminar yn ystod oriau gwylly gyda Shirley Clarke ar gyfer holl ysgolion y rhanbarth o dan y teitl 'Asesu Ffurfiannol 2021' a gynhaliwyd ar 28/09/2021. Cawsant dderbyn ac ailymweld â'r prif egwyddorion ac ymarferion a'r ymchwil ddiweddaraf. Roedd dros 1000 o athrawon o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol. Cafodd yr holl athrawon fynediad at negeseuon uniongyrchol gan Shirley Clarke er mwyn adennill momentwm a rhoi cymorth i'r holl ymarferwyr ac arweinwyr dysgu gyda datblygiad pellach ac ymwreiddio ymarfer addysgegol da a chyson i baratoi ar gyfer y CiG.

Sicrhau cysondeb o ran negeseuon a chefnogaeth i ysgolion ynglŷn â'r 4 diben a'r 12 egwyddor addysgeg ar draws rhwydweithiau, ac mewn hyfforddiant a chefnogaeth gan GwE

Sefydlwyd rhwydweithiau rhanbarthol a lleol o ymarferwyr i gydweithredu ar ddatblygu'r cwricwlwm - gweler y naratif ar Wireddu'r Cwricwlwm. Mae GwE yn creu banc o gyflwyniadau y gellir eu defnyddio fel y man cychwyn i ymateb i geisiadau ysgolion am Ddysgu Proffesiynol ar faterion Addysgu a Dysgu fel cwestiynu, gwahaniaethu ac ati. Byddant i gyd yn cysylltu â'r 12 egwyddor addysgeg.

Sicrhau cefnogaeth i bob ysgol wrth ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar y pedwar diben, 12 egwyddor addysgeg ac ymchwil gweithredol

Sefydlwyd rhwydweithiau rhanbarthol a lleol o ymarferwyr i gydweithredu ar ddatblygu'r cwricwlwm – gweler y naratif ar Wireddu'r Cwricwlwm.

Mae YCG unigol mew trafodaethau ag ysgolion unigol ac yn cynllunio a darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion a chlystyrau, e.e. hyfforddiant i glystyrau cyfan mewn agweddau ar y Fframwaith (gweler hefyd Adroddiad Monitro Chwarter 2 y Cyfnod Sylfaen).

Cynhaliwyd sesiwn CiG CaBan gan gynnwys diweddariad ar y 12 egwyddor addysgeg, a gyflwynwyd yng Ngorffennaf 2021 i hybu cysondeb o ran ymagweddau, gan gynnwys o ran addysgeg rhwng AGA ac athrawon gweithredol. Roedd

un aelod o staff darlithio CaBan wedi mynychu hyfforddiant Shirley Clarke. Mae ysgolion arweiniol CaBan yn rhan o rwydweithiau CiG gan gynnwys arwain ar lefel ranbarthol a fydd yn helpu i sicrhau ymagwedd gyson o ran AGA.

Asesu: Sicrhau cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o egwyddorion allweddol y canllaw asesu newydd – tri diben asesu – tracio o ddydd i ddydd, adnabod a chofnodi cynnydd a deall cynnydd grwpiau

Mae system dracio ysgol gyfan ar gyfer y cwricwlwm newydd wedi cael ei chreu a'i threialu mewn nifer gyfyngedig iawn o ysgolion ar draws y rhanbarth i gael adborth. Mae'r system dracio yn canolbwyntio ar yr ail a'r trydydd diben asesu. Cafodd y system dracio ei rhannu gydag ambell YCG a oedd yn galluogi trafodaethau ag ychydig o ysgolion a/neu glystyrau ar draws y rhanbarth ym mis Medi. Rhennir y system dracio â phob YCG ym mis Hydref er mwyn hyrwyddo trafodaeth o fewn ysgolion a/neu glystyrau. Mae'r grŵp asesu rhanbarthol wedi cyfarfod ddwywaith. Mae'r Cadeirydd etholedig a chynrychiolwyr ysgolion o'r chwe Awdurdod Lleol wedi rhannu syniadau cychwynnol ac egwyddorion asesu allweddol.

Trawsnewid: Cefnogi a chyd-gynllunio dulliau trawsnewid ar gyfer haf 2021 gyda'r clystyrau. Datblygu cydweithio traws-sector ar drawsnewid a rhannu arfer dda

Darparwyd canllawiau LIC ar asesu ar gyfer y CiG i bob ysgol trwy'r gweithdai dysgu proffesiynol ar gynllunio'r cwricwlwm, sesiwn 2. Mae'r rhain ar gael yn y ganolfan cefnogaeth ac mae ysgolion yn parhau i gael mynediad iddynt trwy'r adnodd hwn.

Mae clystyrau'n dechrau rhannu ymarfer llwyddiannus o ran trawsnewid ac yn cydweithio ar draws ysgolion a rhyngddynt i ddatblygu cwricwlwm 3-16. Trwy hyn, mae lleiafrif bach o glystyrau wedi cynllunio gweithgareddau addysgu ar y cyd rhwng staff ysgol uwchradd ac ysgol gynradd, mae hyn yn cynnwys grwpiau oedran cymysg mewn gweithgareddau cynllunio a rhoi'r cwricwlwm ar waith.

Fel y mae rhagor o glystyrau'n esblygu eu hymarfer yn nes ymlaen y tymor hwn ac yn ystod y tymor nesaf, bydd hyn yn ehangu. Ni oes unrhyw ymarfer llwyddiannus wedi'i rannu ar lefel ranbarthol hyd yma - bydd hyn yn digwydd trwy'r rhwydweithiau CiG.

Mae iaith a chynnwys y cymorth a'r hyfforddiant yn cynnwys cyfleoedd o ran y cwricwlwm 3-16. Nid oes unrhyw adnoddau wedi'u datblygu hyd yma – dyma'r cam nesaf ar gyfer chwarter 3 a 4. Bydd canllawiau pellach i ysgolion eu dilyn yn chwarter 3 a 4.

GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

Sicrhau cefnogaeth i ysgolion mewn cysylltiad â Dylunio Cwricwlwm yr ysgol gyfan ac o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh)

Cefnogi'r ysgolion ar hyd y daith at 2022 gan ddarparu dysgu proffesiynol ar gyfer y cwricwlwm newydd

Fel rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n cyfuno pob agwedd ar y diwygio ehangach gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol gweddnewidiol. Mae'r cynnig trawsranbarthol hwn yn anelu at gefnogi pob ymarferydd ysgol, ac yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr gyda'r themâu canlynol:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Datblygu Cyd-weledigaeth
- Cynllunio ar gyfer Newid Cwricwlwm – i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg
- Amser a Lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol

Roedd y cynnig dysgu proffesiynol hwn wedi'i drefnu'n wreiddiol i ddechrau yn nhymer y gwanwyn 2020, fodd bynnag cafodd ei oedi'n naturiol oherwydd blaenoriaethau pandemig Covid-19. Mewn trafodaethau gyda Phenathiaid ar draws GwE, bu i'r dysgu proffesiynol ailddechrau yn rhithwir ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn Arwain Newid. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn seiliedig ar glystyrau ac yn galluogi grwpiau llai o ysgolion cynradd a'u hysgol uwchradd leol i drafod y Cwricwlwm newydd i Gymru ar draws y continwmm dysgu 3-16. Ar draws y rhanbarth, mynychodd 832 o Uwch Arweinwyr y sesiynau Arwain Newid hyn. I gydnabod bod ysgolion yn ail-agor i'r holl ddysgwyr ym mis Mawrth a mis Ebrill, bu oedi unwaith eto gyda'r sesiynau Arwain Newid ym mis

Mawrth 2021. Yn dilyn trafodaethau â'r Cyfarwyddwyr Addysg trwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghorol ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar adborth gan Benaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r modd gorau o ail-ymgysylltu. Roedd dros 300 o benaethiaid wedi mynychu'r ymgynghoriadau.

I gefnogi ail-ymgysylltu â'r gwaith sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru, trefnwyd sesiwn cynllunio arweinyddiaeth pellach ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i adeiladu capasiti'r clystyrau i gydweithio ar draws anghenion y daith ddiwygio yn ei chyfanrwydd, ynghyd â llunio cynllun gweithredu cytunedig ar gyfer pob clwstwr. Fel rhan o hyn, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau lle mae gan ysgolion o fewn clwstwr gyfle i gydweithio i gynllunio'n strategol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm. Mae amseru'r sesiynau hyn mewn modd hyblyg a sensitif wedi bod yn elfen allweddol o'r trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae gweithgareddau i gefnogi paratodau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgolion unigol a chlystyrau wedi'u hadnabod o fewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Mae'r defnydd o dechnoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau clwstwr a gwefannau yn sicrhau bod y ddeialog yn un barhaus ac mae Uwch Arweinwyr yn gallu parhau gyda'r gwaith hwn, yn dilyn trafodaethau yn ôl ar lefel ysgolion unigol. Yn ogystal â'r cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cefnogaeth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gefnogaeth ar gael ar lefel clwstwr yn ogystal â lefel ysgolion unigol, gan gynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra lle bo angen.

Mae cefnogaeth bellach sydd ar gael i ysgolion hefyd yn cynnwys cyfres o 'Bapurau Procio' wedi'u hysgrifennu gan dîm GwE fel rhan o'r sesiynau diwygio wythnosol gyda'r Athro Graham Donaldson. Mae'r papurau hyn, sy'n mynd i'r afael ag elfennau allweddol o daith ddiwygio'r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm, wedi'u rhannu a'u mireinio drwy ymgynghoriad â phartneriaid ehangach yn yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Cafodd yr holl uwch arweinyddion eu gwahodd i fynychu gweminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu'r gwaith hwn ar y Papurau Procio.

TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDPh)

Darparu cynnig dysgu proffesiynol i'r 6 MDPh

Elfen allweddol wrth symud ymlaen fydd cefnogi ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh). Ym Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb i fod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol i gyfrannu at raglen gefnogaeth barhaus GwE i ysgolion yn y meysydd a ganlyn:

- Dylunio'r Cwricwlwm ar gyfer yr ysgol gyfan
- Egluro potensial un o'r MDPh
 - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg a'r Saesneg)
 - Mathemateg a Rhifedd
 - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
 - Dyniaethau
 - Iechyd a Lles
 - Celfyddydau Mynegiannol
- Asesu

Bydd Rhwydweithiau'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arfer MDPh effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Ddiwygio.

Roedd cyhoeddi canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn Ionawr 2020 yn dynodi'r cyfnod nesaf o ran diwygio'r cwricwlwm a rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mhob ysgol gynradd, ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir, ynghyd â'r cyfnod o Fedi 2022 ymlaen. Caiff yr ysgolion uwchradd hynny sy'n barod i roi'r cwricwlwm ar waith ym mlwyddyn 7 eu hannog i wneud hynny, fodd bynnag, ni fydd y gofyniad i roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn ffurfiol yn orfodol tan 2023, pryd y caiff ei roi ar waith ar gyfer blynnyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd.

Ar draws GwE, cefnogwyd ysgolion yn flaenorol i ymgysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru trwy Hwyluswyr Clystyrau'r Cwricwlwm i Gymru. Bu gweithgareddau dysgu proffesiynol a chyllid ar gael i rwydweithiau a chlystyrau o ysgolion ddatblygu cydweithrediad ag ymarferwyr ar draws y continwmm 3-16. Y rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru yw'r cam nesaf yn y datblygiad hwn, sy'n edrych i ddatblygu cydweithrediad ar draws y cwricwlwm cyfan.

Bu GwE yn gweithio gyda'u cyd-gonsortia ar lefel ranbarthol, ynghyd ag Estyn a Llywodraeth Cymru i nodi'r disgwyliadau ar ysgolion a lleoliadau o ran diwygio fel yr ydym yn symud tuag at roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn y Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cydnabod yr her y mae Covid-19 yn dal i'w gyflwyno i bob ysgol o fewn y strategaeth adnewyddu a diwygio.

O ddechrau gyda 300 o enwau ymarferwyr ym mis Mehefin, i fod â 600 o ymarferwyr erbyn hyn, fel rhan o grwpiau lleol, mae'r ymrwymiad i fod yn rhan o'r gwaith hwn ac i gydweithredu yn glir, ac rydym unwaith eto'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cysylltu.

Mae'r grŵp Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol wedi cyfarfod â'r Athro Graham Donaldson ar ddau achlysur gwahanol. Cafwyd trafodaethau cynhyrchiol a rhannwyd cyflwyniadau, y mae recordiadau ohonynt ar gael, ac fe'u rhennir pan fydd y grwpiau lleol yn cyfarfod. Mae pob un o aelodau'r grŵp rhanbarthol sydd o ysgolion o fewn yr Awdurdodau Lleol wrthi ar hyn o bryd yn y broses o gysylltu ag aelodau grwpiau lleol am y tro cyntaf. Bydd holl waith y rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar gael i bob ysgol trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a thrwy drafodaethau YCGau ysgolion.

AMCAN 2- DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu ac addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

Rhoi cefnogaeth i ysgolion cynradd gynllunio eu darpariaeth o ran leithoedd Rhyngwladol (IRh)

Canolfan Cefnogaeth GwE: leithoedd Rhyngwladol yn y sector cynradd.

Mae adran IRh Cynradd wedi'i datblygu bellach yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau clir a chyfredol yng nghyswllt addysgu a dysgu IRh yn y sector cynradd, yn ogystal â chynigion a chyfleoedd Dyfodol Byd-eang. Caiff pob athro fynediad i'r wefan a gallant ddod o hyd i'r dolenni a'r cysylltiadau y mae eu hangen arnynt i gynyddu hyder ac arbenigedd ac i gefnogi eu taith i 2022 a thu hwnt.

Saesneg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en>

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>.

Ysgolion Cynradd Arweiniol

Mae 9 ysgol arweiniol bellach yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i'w clystyrau eu hunain, ac maent ar gael i roi cefnogaeth i unrhyw ysgol sy'n gofyn am gefnogaeth ychwanegol.

Pecyn Cychwynnol

Mae'r Ysgolion Cynradd Arweiniol bellach wedi cwblhau'r fideo/tiworialau i roi i ysgolion gyflwyno IRh o fewn eu cwricwlwm. Maent yn y broses o gael eu postio o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE, a rhannwyd gwybodaeth trwy Gylchlythyr Cynradd Dyfodol Byd-eang GwE, Bwletin GwE a'r YCGau Cynradd. Y themâu a gynhwysir yw:

- Map ffordd Clir a Chryno ar gyfer Integreiddio leithoedd Rhyngwladol
- Datblygu Hyder wrth Ddysgu leithoedd Rhyngwladol
- Ymwreiddio leithoedd yn y Cwricwlwm
- Ymwreiddio Llafaredd ac leithoedd Ychwanegol mewn ystafell ddosbarth gynradd
- Integreiddio Ffrangeg o fewn gwahanol feysydd dysgu
- Ymwreiddio Amlieithrwydd
- IRh mewn lechyd a Lles: sut ydych yn teimlo?

Tanysgrifiadau Power language

Ers Gorffennaf 2021, mae 31 o ysgolion newydd wedi cofrestru ar gyfer y tanysgrifiad ar gyfer adnoddau Power Language a ariennir yn llawn. Mae hyn yn golygu, ers 2018, bod 80 o ysgolion ar draws y rhanbarth wedi cael cymorth i dderbyn adnoddau a hyfforddiant o safon. 60 o Power Language Schools ac 20 arall o'r Primary Languages Network. Mae pob ysgol newydd wedi cytuno i roi rhywfaint o adborth ar effaith hyn yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Darparu Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol

Cerdd Iaith: Ym mis Mehefin, roedd 5 ysgol wedi cofrestru ac wedi mynychu'r ail rownd o hyfforddiant Cerdd Iaith. Golyga hyn, ynghyd â'r hyfforddiant ym mis Tachwedd / mis Rhagfyr, bod 20 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi'u hyfforddi i ddefnyddio'r adnoddau Cerdd Iaith.

Darparu cefnogaeth uniongyrchol i athrawon cynradd trwy raglen Athrawon yn Dysgu i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.

Cwrs TELT y Brifysgol Agored ac Athrawon Cyswllt:

Mae 9 o athrawon wedi cofrestru ar gwrs TELT y BA ar gyfer 2021-2022 (7 ar gyfer rhan 1, 2 ar gyfer rhan 2). Ers 2018 ac erbyn Mehefin 22, bydd 31 o athrawon ar draws y rhanbarth wedi cwblhau'r cwrs hyfforddiant blwyddyn i ddysgu ac addysgu IRh mewn ysgol gynradd. Bydd 8 ohonynt wedi cwblhau'r ail flwyddyn hefyd. Yn 2019, dewisodd y BA un o'n athrawon i ddod yn Athro Cyswllt a bydd yn parhau mewn rôl fonitro a chefnogaeth yn y rhanbarth ac ar draws Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Addysgu a Dysgu Ieithoedd yn yr Ystafell Ddosbarth Gynradd: egwyddorion ac adnoddau addysgegol:

'Research in Primary Languages: Teacher Education Toolkit' gan Dr Alison Porter (Prifysgol Southampton) a'i Chydweithwyr - adnoddau clir a chryno i'w rhannu sy'n amlinellu'r prif egwyddorion o ran addysgu a dysgu iaith Ryngwladol. Mae pob rhan yn canolbwyntio ar 3 prif egwyddor ac maent yn cynnwys ystod o fideos gan ymarferwyr sy'n rhannu eu gwaith yn y dosbarth. Ceir hefyd dasg darllen ymchwil ac ymarfer ar gyfer pob rhan. Mae gwybodaeth ar gael yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE ac mae'r holl adnoddau ar gael am ddim ar gais.

Sector Uwchradd

Consortia i ddarparu cefnogaeth trwy'r model Hybiau Rhanbarthol

Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol - mae adran ITM/IRh wedi'i datblygu bellach o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau clir a chyfredol ar gyfer addysgu a dysgu ITM/IRh yn y sector uwchradd hefyd, fel cynigion a chyfleoedd yng nghyswllt Dyfodol Byd-eang. Caiff pob athro fynediad i'r wefan a gallant ddod o hyd i ddolenni a chysylltiadau ar gyfer parhau i ddatblygu eu hymarfer ac i gefnogi eu taith i 2022 a thu hwnt.

Saesneg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/?lang=en>

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe/>.

Cefnogaeth Ysgol i Ysgol

Gofynnwyd am gymorth rheolaidd gan Benaethiaid o 3 ysgol unigol. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar gynllunio, asesu a chynnydd, addysgu a dysgu. Darperir cymorth i ysgolion/adranau unigol. Cynlluniwyd cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer pynciau penodol bob hanner tymor i ymateb i anghenion a nodwyd gan athrawon ac i gefnogi agweddau ar Addysgu a Dysgu yn CA4/CA5, ac i ategu gwaith yr ymgymerydd ag ef gan y grwpiau rhanbarthol a lleol a drefnwyd gan y gwasanaeth gydag ysgolion o bob cwr o'r rhanbarth.

Yn dilyn ein cyfarfod rhwydwaith yn yr haf (1^{af} Gorffennaf 2021), cwblhaodd ysgolion arolwg ynghylch eu hanghenion o ran eu paratodau ar gyfer y CiG. Dyma'r agweddau y dymuna athrawon gael cymorth ar eu cyfer yn nhrefn blaenoriaeth:

- Asesu: beth a sut
- Cynllunio o fewn MDPH
- Egwyddorion o ran cynllunio'r Cwricwlwm
- Egwyddorion o ran cynnydd
- Datganiadau o ran yr Hyn sy'n Bwysig a Chamau Cynnydd
- Cynllunio ar draws MDPH
- Pontio Cynradd-Uwchradd
- Dadbacio ILICh

Anghenion/cwestiynau neu awgrymiadau eraill:

- Sut i gyflawni a sicrhau cynnydd gydag amserlen gyfyngedig iawn (1 wers yr wythnos)
- Effeithiau'r pandemig
- Pa elfennau o'r CiG sydd ar waith yn barod yn y sector cynradd
- Effaith newidiadau o ran TGAU ar gynllunio ar gyfer CA3

- Cysylltu ITM â phynciau eraill, yn enwedig ym mlwyddyn 7, pan nad yw dysgwyr wedi meistroli'r elfennau sylfaenol
- Sut i groesi llwybrau'n llwyddiannus o fewn y MDPH ILICH
- Sefydlu trwp Teams i gefnogi adrannau llai

Bydd ein cefnogaeth i ymateb i'r anghenion hyn yn unol â'r rhwydwaith cefnogaeth sydd ar waith gan y gwasanaeth, ac yn digwydd ochr yn ochr â hynny. Ei nod fydd ategu ac nid dyblygu'r gwaith a wneir gan y grwpiau rhanbarthol a lleol.

Archwiliadau a chynlluniau ar gyfer rhoi cefnogaeth

Cafodd data ar gyfer 2020-2021 ei goladu ddiwedd Gorffennaf a dechrau mis Medi. Mae 50/54 o ysgolion wedi cwblhau'r archwiliad. Cafwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer y rheiny a oedd yn astudio ieithoedd gyda gostyngiad sydyn mewn sawl ysgol lle nad oedd modd rhedeg rhai dosbarthiadau y llynedd. Roedd hanesion o lwyddiant yn galonogol iawn hefyd, ac fe gafodd syniadau a rannwyd o ran hybu ieithoedd eu coladu a'u rhannu â'r Penaethiaid Adran ar draws y rhanbarth. Anogwyd ysgolion i ymgysylltu â gweithgareddau partneriaid Dysgu Byd-eang er mwyn hybu diddordeb mewn ieithoedd a'r niferoedd sy'n eu hastudio. Bydd cefnogaeth barhaus i hybu ieithoedd yn parhau. Mae data ar gyfer 2021-2022 yn cael ei archwilio a chaiff ei ddadansoddi yn ddiweddarach y tymor hwn.

Prosiect Creu ar Draws Ieithoedd (Barddoniaeth Greadigol):

Yn dilyn y gwaith a wnaed y llynedd rhwng YCG GwE a Phrifysgol Bangor, rydym bellach wedi cychwyn ail gam y prosiect ar gyfer cydweithredu ag ysgolion. Cafodd ysgolion eu recriwtio a mynychwyd eu cyfarfod cyntaf (22/09/21) er mwyn cael deall nodau a disgwyliadau'r prosiect a'r modd yr ydym yn cydweithredu. Nod y prosiect yw cyflwyno barddoniaeth fel modd creadigol o archwilio ieithoedd a hunaniaethau. Bydd ysgrifennu creadigol ar draws ieithoedd yn helpu dysgwyr i feddwl am eu bywydau eu hunain trwy'r amlieithrwydd sydd o'n cwmpas, a bydd yr ymagwedd ymarferol hon yn rhoi hyder iddynt o ran defnyddio ieithoedd â mynegiant.

Mae hwn yn fodel posibl o ran sut i ddylunio uned o waith a sut i feddwl am ddylunio'r cwricwlwm o fewn MDPH, ond gyda'r potensial i gysylltu'r dysgu â MDPH eraill, ac ar draws MDPH. Mae'n hyblyg ac yn addasadwy er mwyn i ysgolion gael profi a datblygu'r model a fydd yn addas ar gyfer eu hysgol a'u cyd-destun lleol.

Rhannwyd adnoddau a chytunwyd ar gynllun gweithredu ar gyfer cwblhau gwaith treialu a gwerthuso erbyn mis Mawrth 2022 ac i'w rannu erbyn haf 2022. Crëwyd Google Classroom i bawb ar gyfer hwyluso cydweithredu a rhannu gwaith sy'n esblygu. Mae cymorth parhaus a chyfarfodydd monitro rheolaidd wedi'u cynllunio i gefnogi ac arwain ysgolion.

Ymwybyddiaeth o iaith yn CA3- Amlieithrwydd

Sefydlwyd cysylltiadau traws-gonsortia i weithio ar y cyd ar addasu a threialu'r adnoddau mewn ysgolion yng Nghymru.

Darparu cefnogaeth uniongyrchol i ysgolion uwchradd trwy brosiect mentora Prifysgol Caerdydd ar gyfer 2021-22. Hyrwyddo ac annog ymgysylltiad ysgolion mewn cynlluniau Mentora

Mentora blwyddyn 8/9: roedd cyfathrebu a chydweithredu effeithiol ag ysgolion ar draws y rhanbarth wedi arwain at 21 o ysgolion yn ymgeisio i'r rhaglen. Ymhlith y 15 ysgol a ddewiswyd, roedd 5 yn ysgolion nad oeddynt erioed wedi cymryd rhan o'r blaen. Felly mae'r prosiect yn cyrraedd ystod ehangach o ysgolion.

CALU - LIDCD

Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu drwy weithredu'r rhaglen hyfforddiant ar draws y rhanbarth.

Cynnal datblygiad proffesiynol cymorthyddion dysgu profiadol drwy weithredu'r rhaglen CALU ar draws y rhanbarth.

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

Mae 3 cymhorthydd wedi cwblhau yr hyfforddiant rhwng Ebrill ac Awst 2021, gyda 55 cymhorthydd wedi cofrestru ers dechrau Medi 2021 hyd yn hyn. Cyfanswm o 58 allan o darged o 100 ar gyfer y flwyddyn. Caiff manylion yr hyfforddiant ei rannu yn y Bwletin wythnosol ac yn y Dosbarth Google.

Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith

Bu i'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion profiadol gael ei rhewi o Fawrth 2020 hyd at ddiwedd haf 2021 oherwydd y pandemig. Yn dilyn trafodaethau cenedlaethol, penderfynwyd addasu'r rhaglen wreiddiol ar gyfer y llwyfan digidol. Addaswyd Diwrnod 1 wyneb yn wyneb gwreiddiol i 2 fodiwl ar-lein. Bydd y rhaglen hon ar gael i'w chynnig rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2021. Bwriedir cynnal hyfforddiant peilot gan gynnig 100 lle (50 cyfrwng Cymraeg a 50 cyfrwng Saesneg). Caiff hwyluswyr eu hyfforddi i gyflwyno'r rhaglen ar lwyfan digidol. Cysylltir gyda'r clystyrau oedd yn awyddus i gynnig yr hyfforddiant i'w cymorthyddion er mwyn trefnu dyddiadau newydd.

Darpar CALU

Darparwyd hyfforddiant ar gyfer 52 cymhorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 2, gyda 50 ohonynt wedi cwblhau y rhaglen hyfforddi gyflawn, sef 8 sesiwn ddigidol.

Oherwydd nad oedd rhaid cyfyngu ar niferoedd wrth gyflwyno'r rhaglen Darpar CALU yn ddigidol, darparwyd hyfforddiant ar gyfer 50 cymhorthydd ar y rhaglen Darpar CALU Cylch 2. Derbyniwyd 49 cais yn ogystal ar gyfer Cylch 3 sy'n dangos niferoedd iach ar draws y rhanbarth.

Bydd y 4 sesiwn olaf o hyfforddiant ar gyfer CALU Cylch 2 yn cael eu cynnal yn ddigidol yn ystod mis Hydref/Tachwedd 2021.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o'r Safonau Proffesiynol a sut i'w defnyddio yn eu rôl o ddydd i ddydd. Mae ganddynt hefyd well dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd bod eu mewnbwn i drafodaethau yn broffesiynol ac yn frwdfrydig o ran datblygu CiG yn eu hysgolion. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda'r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn.

Statws CALU

Yn dilyn mynychu 8 sesiwn ddigidol Darpar CALU, bu i 67% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 2 wneud cais am asesiad statws CALU. Effeithiwyd ar allu 33% i fynd ymlaen am asesiad oherwydd naill ai nad oedd modd iddynt gael digon o brofiad addysgu dosbarth, oherwydd effaith Covid ar ysgolion, effaith salwch neu oherwydd na fu iddynt lwyddo i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd Iefel 2 mewn pryd. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 3.

Recriwtiwyd a hyfforddwyd 2 aseswr newydd gydag arbenigedd ysgolion arbennig, sy'n golygu bod gennym 23 o aseswyr ar draws y rhanbarth ar gyfer Cylch 2. Mae'r rhain oll wedi derbyn hyfforddiant diweddar. Cynhaliwyd sesiwn i gefnogi'r cymorthyddion i gyflwyno eu haseiniadau. Cynhelir asesiadau Cylch 2 rhwng Hydref 18fed a Thachwedd 12fed.

Y Gymraeg

Gwaith Clwstwr

Mae nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau Lleol, ac o ganlyniad, llwyddwyd i gytuno ar egwyddorion ar gyfer y rhaglen waith am y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at gysondeb gweithredu cychwynnol ar draws y gogledd. Crëwyd taenlen 'dashfwrdd' newydd ar gyfer y Gymraeg mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau er mwyn coladu'r holl wybodaeth am gynllunio, costau, ac adrodd ar gynnydd. Yn ychwanegol i'r grŵp rhanbarthol, mae pob Awdurdod wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda'r YCG cyswllt a'r cyfarfodydd yma yn gyfle i wyntyllu amrywiaethau, anghenion a thrafod datrysiadau lleol.

Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'.

Mae'r Cydlynwyr Siarter Iaith (SI) wedi cwblhau adroddiadau cynnydd ac mae adroddiad cyfansawdd wedi'i rannu gyda Llywodraeth Cymru (LIC). Mae cyllid i bob clwstwr wedi ei glustnodi er mwyn cefnogi gweithgareddau Siarter Iaith a Cymraeg Campus, â'r Cydlynwyr Siarter Iaith yn rhan o'r trafodaethau gyda'r clystyrau i bwrpas cynllunio'r gwariant yn effeithiol. Mae trafodaethau lleol hefyd wedi eu cynnal ynglŷn â sut mae'r gweithgareddau yma yn cyfrannu tuag at weithrediad CSGA yr Awdurdodau (Deilliant 3 a 5). Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynllunio gyda LIC er mwyn sicrhau cysondeb gweithredu ar draws Cymru a bydd trafodaethau ar rolau'r Cydlynwyr SI ar draws y rhanbarth a dechrau cynllunio ar gyfer Ebrill 2022 yn cael eu cynnal y tymor nesaf.

Datblygu cynnig proffesiynol i'r Iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth

Mae trafodaethau yn parhau o ran cydweithio gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cynnig proffesiynol ar gyfer adfer yr iaith Gymraeg sy'n rhan o Strategaeth Dysgu Carlam y rhanbarth (addysgeg ac adnoddau ymyraethau i gefnogi dysgwyr ar draws yr ystod gallu). O ran y camau nesaf, byddwn yn amlygu'r ddarpariaeth a'r camau datblygu proffesiynol nesaf i ysgolion gan sicrhau fod sylw pwrpasol yn cael ei roi i'r ddarpariaeth uwchradd – trochi a defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd a phynciau eraill. Bwriedir darparu cyfres o weithdai gan ddyfnhau'r gwaith ymhellach wrth ymgorffori egwyddorion 'Ein Llais Ni' sef cynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yng Ngogledd Cymru (gweler isod).

Datblygu sgiliau iaith y gweithlu

Derbyniwyd data gan y Ganolfan Iaith Genedlaethol o ran hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg (Rhan 1 a Rhan 2 tua 5 awr yr un). Mae 94 wedi cofrestru; 52 wedi cwblhau Rhan 1 (uned 1 – 5); a 43 wedi cwblhau Rhan 2 (uned 6 – 10).

Cynlluniau Sabothol – mae cwrs Cymraeg mewn blwyddyn yn cael ei gynnig mewn 2 ran yn y Gogledd eleni.

- 12 wedi'u derbyn i wneud Rhan 1 (Medi – Rhagfyr)
- 9 yn parhau i Rhan 2 (Ionawr – Ebrill) efo 8 ychwanegol yn ymuno efo nhw.
- 5 ar y rhestr aros ar gyfer Rhan 2.

I grynhoi:

- 12 ar y cwrs Sylfaen (rhan 1)
- 17 ar y cwrs Canolradd (rhan 2)
- 20 unigolyn yn cael mynediad i'r cyrsiau efo 5 wrth gefn

Cefnogaeth i staff GwE – mae 8 wedi bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg gan wneud Uned 5 o'r cwrs Canolradd, ac yn ymarfer at yr arholiad. Mae 4 wedi ymrwymo â'r Cynllun Siarad trwy'r Ganolfan Genedlaethol sef sesiynau i gael cyfle i sgwrsio gyda partneriaid o fewn GwE yn Gymraeg am awr yr wythnos, fel arfer am oddeutu 10 sesiwn. Mae cais newydd ei gyflwyno 'Cymraeg Gwaith' am fynediad i hyfforddiant pellach drwy'r cynllun.

Hyrwyddo proffil y Gymraeg ymysg arweinwyr i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a tharged Miliwn o Siaradwyr LIC:

Prosiect Ein Llais Ni (ELIN) - cynllun cwbl unigryw i hyrwyddo sgiliau llafaredd dysgwyr

Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2021 am gyllid i'n cefnogi i gynnal prosiect ymchwil gweithredol ar gyfer codi safonau llafaredd Cymraeg. Bwriad y cynllun yma yw rhoi'r gyfle i aildanio a gwreiddio sgiliau gwrandao a siarad wrth gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gan ystyried strategaethau dysgu ac addysgu llafaredd rhyngwladol. Mae cydweithio grymus eisoes ar waith rhwng y Brifysgol a'r Tîm Prosiect wrth gynllunio ar gyfer dechrau'r gwaith ymchwil. Bydd y cynllun yn rhoi cyfle i ysgolion gydweithio fel tîm ymchwil gweithredol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a GwE.

Mae llwybr clir wedi ei ddatblygu ar gyfer y prosiect ac yn rhoi sail cadarn iawn ar gyfer datblygu'r gwaith ymchwil gweithredol. Mae'r adborth gan ysgolion yn amlygu fod angen gwirioneddol am y math yma o gefnogaeth, yn enwedig o ystyried effeithiau Covid ar fedrau llafar a hyder y dysgwyr.

Rydym wedi gwahodd ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion i ymuno â chyfle unigryw i ddatblygu a mireinio ymarfer er mwyn hyrwyddo sgiliau llafaredd ein dysgwyr yma yng Ngogledd Cymru. Bydd cefnogaeth i'r ysgolion ar bob cam o'r daith wrth roi'r strategaethau ar waith a hynny dan arweiniad arbenigwr rhyngwladol ar hyrwyddo sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, sef Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor. Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol i lansio'r gwaith ymchwil, yr adnoddau cefnogol, ac i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r prosiect 'Ein Llais Ni' ar 20 Hydref 2021.

Datblygu Arweinyddiaeth

Mae mapio cychwynnol wedi bod ar gyfer cynnal rhwydweithiau llythrennedd cynradd, a chyda Rhwydweithiau Cymraeg yn cyfarfod o ran yr uwchradd – 27 (cyfuniad o rhanbarthol a lleol) (gweler Cynllun Busnes Y Gymraeg a Llythrennedd). Byddwn yn cyd-weithio i gynllunio'r gweithdai sy'n cyd-fynd â'r strategaeth DP i baratoi ar gyfer y CiG gan ystyried cynnwys y rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg.

Datblygu Partneriaethau

Mae cyfarfodydd cynllunio wedi eu cynnal gyda'r Awdurdodau sydd wedi arwain at rymuso'r cyd-weithio a rhannu adnoddau ymhellach gan amlygu'r anghenion ar draws yr awdurdodau. Yn ogystal, mae'r cydweithio wedi bod yn effeithiol o ran rhannu gwybodaeth a dulliau gweithredu ar draws awdurdodau er mwyn lleihau baich cynllunio.

Mae'r gwaith cenedlaethol rhwng y 4 rhanbarth ymhob cyfnod allweddol wedi parhau sydd wedi arwain at ddatblygu adnoddau clodwiw ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r cyfarfodydd yn fodd i ddatblygu rhwydweithiau defnyddiol ac i ddyfnhau cydweithio ar sail angen yn yr ysgolion.

LEFEL A

Defnyddio ALPs ar lefel ranbarthol: Mae data ALPs yn cael ei gasglu ar hyn o bryd ar gyfer deilliannau 2021.

Datblygu arweinwyr at y dyfodol: Cwrs Arweinyddiaeth Ôl-16: yn dilyn adolygiad o'r rhaglen, gyda'r cynrychiolwyr consortia eraill, fe gafodd y cwrs ei ail-ddatblygu mewn ffurf o bell dros bedwar sesiwn hanner diwrnod. Cynhelir y sesiwn gyflenwi gyntaf ar Hydref 9.

Datblygu gwydnwch ac annibyniaeth mewn dysgwyr: hyfforddiant yn y rhaglen VESPA. Cynigiwyd tri sesiwn datblygu pellach y tymor hwn – Cyflwyniad i VESPA; VESPA ar gyfer tiwtoriaid dosbarth a Hyfforddi.

Rhwydweithio a rhannu arferion ar draws penaethiaid 6ed Dosbarth: bydd cyfarfodydd rhwydwaith a drefnwyd yn cael eu cynnal yn fuan (Hydref/Tachwedd).

E-sgol

Parhau i gefnogi'r 6 e-sgol beilot ac ehangu eu cwricwlwm ym mlwyddyn 12: Mae'r amserlen a phynciau newydd wedi'u trefnu gyda'r 6 ysgol yn ogystal â'r darparwr allanol Mudiad Meithrin yn darparu cwrs Cam wrth Gam.

Sefydlu a gweithio gyda'r Bwrdd Strategol Rhanbarthol a'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol i weithredu camau, a godir ar ôl cyfarfod gyda chyfarwyddwyr y 6 ALL i lunio themâu cyffredin: cynhaliwyd cyfarfodydd ar draws pob un o'r 6 awdurdod. Mae'r Bwrdd Strategol wedi cyfarfod eto - yn edrych ar aelodau'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach y tymor hwn. Yn cyfarfod cyn hanner tymor Hydref 2021 i ddatblygu gwaith gyda'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol yn ogystal â phrosiectau peilot posibl.

YMCHWIL A GWERTHUSO

Mae GwE yn gweithio'n agos â Phrifysgol Bangor ar Brosiect y 'Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith' (CIEREI) i sicrhau systemau gwerthuso cadarn ar gyfer eu rhaglenni datblygu ac i fesur eu heffaith mewn ysgolion fel rhan o ddull rhanbarthol.

Dyma'r gwaith ymchwil a gwerthuso sy'n cael ei gyflawni eleni:

1. Y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil addysg a Phlentyndod (CIEREI 'Collaborative Institute for Education and Childhood Research'): Prosiectau penodol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol/Hyrwyddo'r defnydd o strategaethau sy'n cael eu llywio mwy ar sail tystiolaeth ar draws rhanbarth GwE/Hyrwyddo cysylltiadau cryfach rhwng ymchwilwyr addysg mewn SAU ac ysgolion i ddiogelu trosglwyddiad gwybodaeth trwy'r 'sianelau y gellir ymddiried ynddynt' ('trusted conduits') trwy weithgareddau ailadroddus (Gorard, 2020)
2. Clystyrau Ymchwil CIEREI
3. Rôl strategol mewn datblygu model o Ganolfan / Sefydliad Ymchwil Cymreig
4. Clystyrau Ymchwilio AGA
5. Cyllid Uwch Arweinwyr / Meistri
6. Dysgu Proffesiynol
7. Prosiectau ymchwil rhanbarthol

Dylid cyfeirio hefyd at gynllun busnes 'Re-ignite Learning' am ragor o fanylion am brosiectau penodol.

Gwella Safonau Trwy Adolygu Effeithiol (iStER)

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD yn ei thrydedd flwyddyn a'r flwyddyn olaf (2020-21) ac mae'r myfyriwr wrthi'n ysgrifennu papurau i'w cyhoeddi sy'n canolbwyntio ar y defnydd o arferion adalw a strategaethau ymarfer ar gyfer

profi. Mae'r myfyriwr bellach wedi cyflwyno cynnig i barhau â'r gwaith hwn gydag ystod o ysgolion uwchradd sy'n gwasanaethu ysgolion mwy difreintiedig.

Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu (PR4L)

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD hon yn ei hail flwyddyn (2020-21) ac mae'r myfyriwr wrthi ar hyn o bryd yn parhau i werthuso effaith strategaethau ysgol gyfan ar gyfer cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn dwy ysgol sy'n gwasanaethu cymunedau mwy difreintiedig.

Prosiect Llesiant Cydweithredol Warwick

Mae'r ysgoloriaeth ymchwil PhD gydweithredol hon yn ei hail flwyddyn (2021-22) ac mae'r myfyriwr wrthi ar hyn o bryd yn parhau â gwaith gwerthuso darpariaeth llesiant cyn ysgol. Mae'r prif dasgau a ganlyn wedi'u cwblhau:

- Adolygiad systematig o'r llenyddiaeth ar ymyriadau a rhaglenni llesiant ysgol gyfan. Mae hwn wedi'i gyflwyno ar gyfer ei gyhoeddi.
- Arolwg rhanbarthol o ddefnydd ysgolion o raglenni llesiant yng Ngogledd Cymru.

Bydd y drydedd agwedd derfynol ar y prosiect hwn yn cychwyn yn ystod tymor yr Hydref 2021. Bydd hyn yn werthusiad o raglen lesiant ysgol gyfan addawol o'r enw 'Connect'. Ymgwymerir â'r gwaith hwn ochr yn ochr â dau fyfyrwr meistr a noddir gan KESS ym Mhrifysgol Bangor, a bydd yn ymwneud â gwerthusiad o 'Connect' ochr yn ochr â chyfieithiad o fersiwn iaith Gymraeg.

Astudiaeth KiVa y DU

Mae GwE yn gyd-ymgeisydd yn y prosiect ymchwil mawr hwn i werthuso rhaglen wrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn saib o ganlyniad i bandemig COVID-19, cafodd 30 o ysgolion yng Ngogledd Cymru eu recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Cafodd 15 o'r ysgolion eu dewis ar hap i dderbyn KiVa yn 2021-22, a bydd y 15 ysgol sy'n weddill yn derbyn KiVa yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion a dderbyniodd yr ymyriad eu hyfforddi yn ystod tymor haf 2021, a buont yn cyflwyno KiVa o fis Medi 2021.

Clystyrau Ymchwil CIEREI

Bu GwE yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gam cychwynol y Strategaeth Genedlaethol ar Gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE) yn 2021, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2021. Hefyd, bu GwE yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod chwe ysgol yng Ngogledd Cymru i fod yn rhan o beilot 2021-22 y fenter NSERE hon i greu rhagor o ysgolion sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth. Mae'r gwaith hwn yn parhau ochr yn ochr â chydweithwyr o Brifysgol Bangor yn nhymor yr Hydref.

Rôl strategol mewn datblygu model o Ganolfan / Sefydliad Ymchwil Cymreig

Nod y cam hwn yw cryfhau ac adeiladu ar y gwaith a wnaed gan GwE a CIEREI ers 2016. Mae'r holl brosiectau a restrir yn yr adroddiad hwn yn dod o dan y fenter hon, a bydd GwE yn parhau i oruchwylio rôl ddeuol fel cydlynedd agwedd ymchwil ysgolion a dysgu proffesiynol y gwaith cydweithredol hwn, ond bydd hefyd yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth academaidd benodedig ar gyfer y myfyrwyr meistr a PhD sy'n ymwneud â'r gwaith hwn. Ceir sylw cynyddol hefyd ar ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn 2021-22 i ledaenu allbynnau gwaith GwE-CIEREI.

AGA

Cydweithio gyda'r Prifysgolion i sicrhau bod addysg gychwynol athrawon a'u sefydliad yn broses esmwyth.

Mae'r 4 consortia a'r darparwyr AGA wedi cydweithio eleni ar brosiect gan Lywodraeth Cymru i wella sgiliau mentora'r AGA a'r Mentor Sefydlu. Caiff y gweithdai tridiau eu cyd-gyflwyno ym mis Medi, mis Rhagfyr a mis Mai 2022. Mae 4 cynrychiolydd consortia a chydweithwyr AGA wedi cyflwyno diweddariad ar y cynnydd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2021.

Sicrhau cefnogaeth gadarn i garfan ANG 2021/22 GwE.

Mae rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol o safon uchel yn mynd rhagddi ar gyfer ANG. Roedd 321 o ANG GwE wedi mynychu sesiwn 1 o hyfforddiant cenedlaethol ANG. Trwy ymagwedd gydweithredol, mae cynlluniau cadarn ar waith i sicrhau trefniadau sefydlu mwy di-dor ar gyfer ANG. Bydd y rhaglen Fentora Sefydlu AGA/y Consortiwm yn cychwyn ym mis Tachwedd, bu cryn ddiddordeb yn y fenter newydd hon.

Mae gweithdrefnau ar waith i wella ansawdd mentora. Roedd 174 o Fentoriaid Sefydlu GwE a leolir mewn ysgolion wedi mynychu'r hyfforddiant cenedlaethol, y nifer uchaf o unrhyw gonsortiw m yng Nghymru.

Mae rhwydweithiau pynciau arbenigol yng nghymau cyntaf eu datblygiad.

Mae rhai ANG ar hyn o bryd ar leoliadau mewn ysgolion am y tymor – mae'r cam arloesol hwn yn sicrhau eu bod yn gallu ymarfer eu haddysgu yn llwyddiannus ynghyd â chefnogi eu sefydlu. Ceir dros 100 o ANG cynradd a 30 o rai uwchradd yn ysgolion GwE sy'n manteisio ar y cynllun hwn gan LIC.

Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu a hyfforddi athrawon sy'n dysgu yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o effaith gadarnhaol darpariaeth AGA o safon uchel ar ysgolion yn y rhanbarth.

Mae dulliau cyfathrebu'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd - mae'r wefan yn cael ei diweddarau, cylchlythyr wedi'i gynllunio, gweminar posibl wedi'i chynllunio, a darparwyd gwybodaeth i ysgolion lle y bo'n briodol. Mae hyn yn sicrhau gwell dealltwriaeth o fanteisio cadarnhaol darpariaeth AGA llwyddiannus.

Mae GwE yn mynychu cyfarfodydd staff CaBan a HMS lle y bo'n briodol, ac mae staff CaBan yn mynychu cyfleoedd dysgu proffesiynol GwE – e.e. Shirley Clarke, sesiynau CiG, mae staff GwE yn cyflwyno ar raglenni BA a TAR. Mae cyfanswm o 24 o staff GwE wedi cynnig sesiynau: darparwyd 17 o sesiynau yn 2020-21, a hyd yma, yn nhymor yr hydref 2021-22, cynlluniwyd 10 o sesiynau, gyda rhagor i ddilyn yn chwarteri 3 a 4. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn cael eu rhannu, ynghyd â gwell adnoddau, gwell cysondeb o ran dulliau gweithio, cynyddu gwybodaeth a sgiliau staff GwE, staff CaBan ac athrawon dan hyfforddiant.

Sesiynau cydweithredol E-sgol – cynlluniwyd sesiynau cychwynnol i uwchsgilio a chodi ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfleoedd gydag ysgolion e-sgol rhanbarthol. Sesiynau wedi'u cynllunio a rhwydweithio cenedlaethol i sicrhau mynediad teg ynghyd â hybu recriwtio a gwybodaeth bynciol mewn meysydd prinder allweddol.

Cymraeg

Mae gwybodaeth myfyrwyr ac ANG o'r Gymraeg yn gwella. Mae cydweithrediad yn parhau â Phrifysgol Bangor i sicrhau bod addysgeg yn cael ei hymwreiddio ac y cymerir camau i fynd i'r afael â disgygliadau, yn enwedig o ran diwylliant a threftadaeth Cymru, yng nghyswllt y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r cwrs / llwybr TAR cyfrwng Cymraeg wedi'i weithredu'n llawn.

Prosiect a Rennir yn Seiliedig ar Ymchwil, 'Ein Llais Ni' - cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng GwE a thîm ymchwil Prifysgol Bangor. Cafwyd nifer dda yn mynegi diddordeb mewn ymuno â'r prosiect, gyda 103 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn ymgeisio o blith pob ALI. Mae bron pob ysgol yn mynychu'r Gynhadledd a bydd 60 yn gweithio'n agos â'r agwedd ymchwil ar y prosiect. Bydd y tîm ymchwil yn gweithio'n agos â nifer benodol o ysgolion i werthuso effeithiau'r strategaethau.

DIGIDOL

Cadernid Digidol

Mae GwE wedi recordio a rhyddhau dwy bennod sy'n rhan o gyfres o bodlediadau sy'n trin a thrafod cadernid digidol. Y testunau oedd 'Camwybodaeth', a 'Cadw'n driw i'ch hyn ar lein'. Mae'r podlediadau wedi derbyn sylw cenedlaethol, gyda Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio fel podlediad answyddogol i gefnogi eu tudalennau o gefnogaeth i ysgolion drwy safle Hwb.

Datblygu Arweinyddiaeth Ddigidol

Yn ystod chwarter 2 fe ail-lansiwyd y rhaglen hwyluswyr digidol. Mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn dda gyda bron i hanner clystyrau'r rhanbarth yn ymateb. Bydd y rhaglen yn weithredol yn ystod chwarter 3. Bydd y rhaglen yn cael ei chefnogi gan lansiad offeryn hunan arfarnu dysgu digidol cenedlaethol - mae'r dyddiad diweddaraf ar gyfer y lansiad hwn ym mis Ionawr 2022.

Hwb

Mae data defnydd Hwb y rhanbarth yn parhau i fod yn gryf. Cyfartaledd yr ysgolion oedd yn ymgysylltu â Hwb yn ystod chwarter 2 oedd 93.16%. Mae hyn yn ffigwr da o ystyried fod gwyliau'r haf wedi digwydd yn ystod hanner y cyfnod. Roedd y cyfartaledd fel a ganlyn ar gyfer pob mis:

- Gorffennaf – 97.66%
- Awst – 83.5%
- Medi – 98.3%

Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Er mwyn cefnogi'r ysgolion yn eu defnydd o Hwb crëwyd creu cyfres o gyrsiau ar lein sy'n canolbwyntio ar wneud defnydd effeithiol o wasanaethau sydd ar gael; Google for Education, J2E, Flipgrid, Adobe Spark. Mae'r cyrsiau hyn wedi cael eu dylunio ar sawl lefel er mwyn sicrhau fod datblygiad ar gael i ddefnyddwyr newydd ac i ddefnyddwyr mwy profiadol. Mae'r hyfforddiant hyn ar ffurf cwrs sydd ar gael ar alw er mwyn sicrhau fod athrawon a chymorthyddion yn gallu cael mynediad ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Hyd yn hyn mae'r cynnwys wedi cael ei wyllo 5642 o weithiau- mae hyn yn gynydd o 1502 ers chwarter 1.

Cefnogaeth o ran y cwricwlwm newydd

Rhannwyd citiau o offer rhaglennu rhwng ysgolion ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi cyfle iddynt arbrofi gyda gofynion o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Y bwriad yw bod yr ysgolion hyn yn gallu darparu / rhannu eu profiadau gydag ysgolion eraill a bwydo eu profiadau i mewn i rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru Lleol a rhanbarthol. Comisiynwyd 3 ymarferydd i baratoi adnoddau sy'n addas i arddangos ac ateb gofynion o fewn y llinyn cyfrifiaduro yng Nghwricwlwm i Gymru. Bydd yr adnoddau hyn yn barod i'w cyhoeddi yn ystod chwarter 3 a 4.

MATHEMATEG A RHIFEDD

Ysgolion sy'n Achos Pryder

Cynradd ac Uwchradd: Mae cymorth wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion yng Nghategori Estyn (Mesurau Arbennig) wedi canolbwyntio ar gefnogi gweithdrefnau monitro ysgol gyfan ynghyd â pharatoi ysgolion yn briodol ar gyfer ymweliadau dilynol gan Estyn. Mae cymorth wedi'i deilwra a gweithdai wedi parhau ar gyfer ysgolion y rhanbarth y tybir eu bod 'mewn perygl' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at gynllunio gwell ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a gwell dealltwriaeth o sut mae rhifedd yn cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm.

Cefnogaeth Ranbarthol

Cynradd ac Uwchradd - Asesiadau Personol: Mae YCG Llythrennedd a Rhifedd wedi creu gweminar i hysbysu ysgolion yn llawn am ofynion a manylion yr Asesiadau Personol Cenedlaethol ar gyfer darllen, rhifedd a rhesymu rhifiadol. Yn disgwyl am ryddhau'r Asesiad Rhesymu Rhifiadol cyn uwchlwytho i Ganolfan Cefnogaeth GwE.

Cynradd ac Uwchradd - Prosiect Braenaru ar gyfer Dysgu Proffesiynol ym Maes Addysg Ariannol yng Nghymru: wedi'i gyflwyno ar y cyd â Ye/Prifysgol Caeredin ac wedi'i ariannu'n allanol gan MaPS, i gefnogi darpariaeth addysg ariannol ar draws y rhanbarth (e-ddysgu a hyfforddiant wyneb-i-wyneb). Mae datblygiad proffesiynol wedi rhoi cyfleoedd i ymarferwyr gefnogi gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eu dysgwyr ym mhrif feysydd addysg ariannol, yn ogystal ag edrych ar y Cwricwlwm newydd i Gymru a sut mae addysg ariannol yn mynd ochr yn ochr â hyn. Cwblhawyd y prosiect ar ddiwedd tymor yr haf. Bwriedir rhannu arferion effeithiol gan ysgolion y prosiect.

SAESNEG A LLYTHRENNEDD

Ysgolion sy'n Achos Pryder

Mae cymorth wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder o fewn categorïau Estyn wedi paratoi ysgolion yn briodol ar gyfer ymweliadau dilynol gan Estyn. Crëwyd grwpiau o ysgolion â blaenoriaethau a rennir o ran datblygu ysgrifennu. Darperir/hwylusir cymorth parhaus yn unol â'u hanghenion. Sefydlwyd cyfarfodydd Rhwydwaith/Fforwm rhanbarthol ar gyfer Penaethiaid Adran/Lefel A/Arweinyddion Llythrennedd.

Cwricwlwm i Gymru

Sefydlwyd cymorth rhwydwaith o fewn Rhwydweithiau CiG Rhanbarthol a chaiff effaith uniongyrchol ar weithgareddau Rhwydweithiau Lleol ar draws y rhanbarth cyfan.

Cafodd ysgolion eu recriwtio i weithio ar brosiect CiG "Creu ar draws leithoedd", i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd, sgiliau cyffwrdd, themâu trawsbynciol a phrofiadau dysgu.

Cymorth parhaus i ysgolion sy'n rhan o'r peilot 'Building Reading Power' i wneud defnydd effeithiol o ddata asesu, gan gynnwys Asesiadau Personol Cenedlaethol, er mwyn llywio cynllunio ac ymyriadau.

Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Cyfarfodydd rhwydweithiau

Yn ystod y tymor hwn trefnwyd cyfarfodydd gwyll dros Teams ar gyfer Penaethiaid Adrannau Y Gymraeg (trwy wahoddiad uniongyrchol a thrwy wahoddiad agored). Penderfynwyd cynnig sesiynau agored 'Ar alw' (gyda ffocws penodol) dros Teams gan recordio'r sesiynau hyn a'u gosod yn y Teams isod.

Sefydlu Teams 'Gwe - Y Gymraeg - Uwchradd':

Mewn ymateb i'r angen i rannu gwybodaeth yn gyflym a chreu rhwydwaith digidol sefydlwyd Teams 'Gwe - Y Gymraeg - Uwchradd' .

Ceir 'cylchlythyr' misol sy'n 'fyw' a chyfredol o fewn y Teams hwn a bydd athrawon yn gallu cyfrannu tuag ato. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â sefydlu Teams arall ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg.

Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG

Yn dilyn cyflwyno'r rhaglen uchod (a'r rhaglen genedlaethol sydd ar y gweill) bydd angen rhaedru'r wybodaeth i Bau Y Gymraeg y rhanbarth

Bydd agweddau penodol o yn cael eu cyflwyno fel meysydd ffocws penodol ar gyfer y sesiynau agored 'Ar alw' uchod ac yn cael eu plethu â'r rhaglen Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG.

Bydd y sesiynau hyn yn cael eu recordio yn ystod y flwyddyn er mwyn creu banc o adnoddau i gefnogi Pau Y Gymraeg 'ar daith ddiwygio' eu hysgolion.

Prosiect 'Ein Llais Ni'

Bydd y prosiect rhanbarthol arloesol (sy'n brosiect ar y cyd â Phrifysgol Bangor) yn weithredol yn ystod y flwyddyn hon. Cynhelir Cynhadledd 'Ein Llais Ni' ar gyfer yr ysgolion a wnaeth gais i ymuno â'r prosiect 20fed Hydref 2021

'Y Stordy' - Canolfan Cefnogaeth Gwe

Er mwyn ymgysylltu â holl ysgolion y rhanbarth rydym wrthi'n datblygu gwefan 'Y Stordy' er mwyn creu cartref hylaw a chyfleus ar gyfer adnoddau 'Y Gymraeg a Llythrennedd' yng Nghanolfan Cefnogaeth Gwe

Y Gweithgorau Cenedlaethol

Mae gwaith dau o'r gweithgorau cenedlaethol yn parhau ar hyn o bryd sef gweithgorau CA4 a CA5. Mae cynrychiolaeth gref o ysgolion y rhanbarth ar y gweithgorau hyn. Bydd dau aelod o weithgor CA4 yn cyfrannu tuag at y digwyddiad cenedlaethol sy'n lansio eu gwaith yn ystod Tymor yr Hydref 2021. Cartref ffrwyth gwaith y gweithgorau hyn ar o bryd yw 'Y Pair' (sef rhwydwaith adnoddau ar Hwb) ond mae gwefannau a grëwyd gan y gweithgorau hyn bellach wedi'u hymgorffori o fewn gwefan adnoddau swyddogol CBAC yn ogystal.

Cynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg 2021-22

Yn dilyn llwyddiant y gweithgor a sefydlwyd llynedd rhannwyd y syniad o sefydlu gweithgor cenedlaethol tebyg gyda'r swyddogion sy'n gyfrifol am y Gymraeg o fewn y consortia eraill. Byddwn yn parhau â'r trafodaethau cenedlaethol ond yn sicrhau bod cynhaliaeth ar gyfer ANG Y Gymraeg o fewn y rhanbarth yn ystod Tymor yr Hydref 2021

GWYDDONIAETH

Gwella ansawdd cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu (addysgeg)

Oherwydd y sefyllfa bresennol heb ein hysgolion, nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i gynnig y dysgu proffesiynol cynlluniedig sydd wedi'i nodi o fewn y cynllun busnes. Mae'r tîm wrthi ar hyn o bryd yn llunio strategaeth dysgu ac addysgu ac yn bwriadu symud y cynnig ymlaen at dymor y Gwanwyn.

Cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion

Mae cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion yng nghyswllt dysgu ac addysgu ac arweinyddiaeth wedi'i darparu i'r ysgolion hynny sydd wedi'u hadnabod gan YCG yr ysgolion, ynghyd â'r rheiny sydd wedi gwneud cais am gefnogaeth ychwanegol. Mae'r YCG uwchradd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar gynlluniau cefnogi ysgol unigol a fydd yn nodi pa ysgolion sydd angen cefnogaeth ym maes Gwyddoniaeth. Bwriedir eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref, a bydd hyn yn cyfarwyddo'r rhaglen waith ar gyfer darparu cefnogaeth i ysgolion.

Cefnogi athrawon a dysgwyr

Fel yn Chwarter 1, mae'r gwaith o ddatblygu gwefan TANIO ymhellach wedi parhau, ac mae Cynnal yn gwneud gwaith ar y platfform ar hyn o bryd i gynnwys adrannau i gefnogi Ôl-16 a'r Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad i'r sefyllfa COVID parhaus, nid ydym eto wedi canfod unigolion i ddatblygu adnoddau ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gynnig cyllid i ysgolion unigol gwblhau'r tasgau. Caiff hyn ei archwilio y tymor nesaf, ond bydd angen cysylltu â gwaith y clystyrau a MDPH.

Y CYFNOD SYLFAEN

Darparu cefnogaeth wedi'i theilwra i ysgolion sy'n achosi pryder, gan eu galluogi i yrru eu taith wella eu hunain

Mae bron pob ysgol sy'n derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra yn mynd i'r afael â chymau gweithredu sydd wedi'u hadnabod gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y Cyfnod Sylfaen, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithredu'r camau gweithredu yn effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, gan leihau amrywiadau o fewn rhai ysgolion a gwella cysondeb mewn dysgu ac addysgu ar draws y rhanbarth. Mae cefnogaeth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o egwyddorion ac addysgeg y Cyfnod Sylfaen, sy'n cyd-fynd â'r addysgeg yng nghanllawiau Agor Llwybrau y Cwricwlwm i Gymru.

I wella'r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ymhellach ar draws holl ysgolion y rhanbarth mewn paratoad ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru.

Sicrhau defnydd da neu well o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol

Datblygu cydweithio traws-sector a rhannu arferion asesu da

Datblygu cydweithio traws-sector ar drawsnewid a rhannu arferion da

Darparwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i bob ysgol gan dargedu'r agweddau hynny y nodwyd bod angen eu blaenoriaethu o ganlyniad i COVID e.e. sgiliau cyfathrebu plant ac iechyd a lles. Canolbwyntiwyd ar ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn addysgeg briodol o safbwynt datblygiadol.

Darparwyd hyfforddiant hefyd i Athrawon a Chymorthyddion sy'n newydd i'r Cyfnod Sylfaen mewn perthynas ag addysgeg a 'Rôl yr Oedolyn'. Mae'r sesiynau hyfforddiant wedi:

- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut y mae'r egwyddorion addysgegol yn cysylltu â'i gilydd i greu profiadau dysgu cynhyrchiol ac effeithiol.
- Ymarferwyr yn defnyddio cymysgedd o dulliau addysgegol priodol o safbwynt datblygiadol sy'n ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).
- Ymarferwyr yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol dysgwyr.
- Ymarferwyr i ystyried nid yn unig y manau ffisegol ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial.
- Dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd arsylwi yn eu hymarfer bob dydd er mwyn:
 - cael gwell dealltwriaeth o anghenion, sgiliau a chynnydd disgyblion.
 - caniatáu i ymarferwyr ganfod y dulliau a ffefrir gan blant a phobl ifanc o ran dysgu, a'r modd gorau o'u hysgogi i gyfranogi yn y broses ddysgu.
 - canfod y dysgwyr hynny sydd efallai angen cymorth ychwanegol i'w helpu i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Ymarferwyr yn deall bod arsylwadau effeithiol yn eu galluogi i gynllunio darpariaeth briodol sy'n cefnogi ymrwymiad a mwynhad dysgwyr o fewn eu gweithgareddau dysgu, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.
- Deall bod angen i asesu fod yn broses barhaus sydd wedi'i hymwreiddio o fewn ymarfer o ddydd i ddydd, mewn modd anweladwy o fewn y dysgu a'r addysgu.

Yn gyffredinol, mae arsylwadau YCG yn awgrymu bod gwell defnydd o arsylwadau a strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu priodol ar gyfer cynllunio'r camau nesaf o fewn y dysgu.

Caiff ysgolion fynediad i'r holl hyfforddiant / rhwydweithiau / adnoddau / astudiaethau achos o ymarfer llwyddiannus (o fewn Canolfan Cefnogaeth GwE, Google Classroom a Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen GwE ar HwB). Mae llawer o ysgolion o fewn y rhanbarth yn defnyddio'r gweminarau ac ati o fewn cyfarfodydd staff a HMS i uwchsgilio'r gweithlu. Mae YCG yn nodi bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.

ARWEINYDDIAETH

Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn cysylltiad â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth er mwyn datblygu arweinwyr presennol ac at y dyfodol

Mae pob modiwl o bob Rhaglen Arweinyddiaeth hyd yma (ac eithrio'r Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol) wedi'u cwblhau yn llwyddiannus o fewn yr amserlen a nodwyd yn y cynllun gwreiddiol. Rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (MLDP), a'r Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr (SLDP) erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Bydd y Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (CPCP) yn cynnal y Ganolfan Asesu ym mis Chwefror 2022 a'r Rhaglen Penaethiaid Newydd ac Mewn Gofal erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon.

Unwaith eto, yn ystod yr 2^{il} chwarter, mae sylwadau anffurfiol a gasglwyd gan unigolion sy'n darparu ac yn rhedeg y rhaglenni hyn yn awgrymu, yn gyffredinol, bod arweinwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni yn dangos mwy o hyder a dealltwriaeth o arweinyddiaeth effeithiol wrth drafod eu rolau arweinyddiaeth yn ôl yn eu hysgolion.

Mae trefniadau ar waith i gasglu adborth ffurfiol gan gyfranogwyr ar draws pob rhaglen ar ddiwedd y flwyddyn galendr hon. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu effaith y rhaglenni arweinyddiaeth ar ddatblygu arweinwyr ym mhob cam o'r Llwybr Arweinyddiaeth.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad chwarterol blaenorol, mae mynd ati'n rheolaidd i werthuso a mireinio cynnwys y rhaglenni wedi sicrhau'r gallu i addasu i anghenion perthnasol arweinwyr ysgol presennol. Mae hwyluswyr y rhaglenni wedi parhau i fod yn ystyriol o anghenion arweinwyr ysgolion yn ystod y pandemig, gan sicrhau eu bod yn meithrin gwydnwch a'u gallu i arwain yn ystod cyfnodau heriol. Maent hefyd wedi sicrhau bod negeseuon a diweddariadau allweddol ar yr Agenda Genedlaethol a'r CiG wedi'u cynnwys yn y rhaglenni.

Mae YCGau GwE wrthi ar hyn o bryd yn gweithio â'r rhanbarthau eraill ar lefel genedlaethol i ddatblygu darpariaeth ymhellach – yn arbennig o ran y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a'r Rhaglen Penaethiaid Newydd a Mewn Gofal. Mae hyn yn sicrhau bod y rhaglenni'n parhau i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn effeithiol o ran cefnogi datblygiad arweinyddiaeth effeithiol y fewn yr hinsawdd bresennol.

LLYWODRAETHWYR

Mewn cytundeb â'r Awdurdodau Lleol, cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol ym maes Diwygio Addysg.

Fel rhan o'r gefnogaeth barhaus ar gyfer Dysgu Proffesiynol Llywodraethwyr, mae nifer o gyflwyniadau wedi'u cyflwyno ar draws y rhanbarth gyda'r nod o gyflwyno Llywodraethwyr i'r fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae niferoedd da o lywodraethwyr wedi mynychu'r sesiynau hyn ym mhob Awdurdod Lleol gan alluogi'r llywodraethwyr hynny i fod â gwell dealltwriaeth o'r agweddau a gaiff eu darparu, bod yn fwy hyderus wrth gefnogi eu hysgolion, ynghyd â gallu cyfrannu yn fwy strategol at drafodaethau'r corff llywodraethol.

Darparu hyfforddiant cyn-arolwg i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn yn ystod arolwg.

Ni fu hyfforddiant cyn-arolwg yn angenrheidiol yn ystod y chwarter hwn. Mae cefnogaeth ychwanegol wedi bod ar gael i ysgolion mewn categorïau. Yn 2021 – 2022, bydd GwE yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod Llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran paratoi ar gyfer arolwg yn ystod y 3 wythnos sy'n arwain at yr ymweliad.

Darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i Lywodraethwyr o fewn ysgolion ar agweddau y mae eu Hunanwerthusiad wedi'u hadnabod sydd angen gwella.

Ni fu gofyn am unrhyw gefnogaeth wedi'i thargedu yn ystod y chwarter hwn. Bydd GwE yn parhau i gefnogi llywodraethwyr i fod â gwell dealltwriaeth o'r agwedd sydd angen ei gwella ynghyd â'r hyder i hunan wella.

CYNGHREIRIAU / RHWYDWEITHIAU / CLYSTYRAU

Cydweithio ag arweinwyr ysgol ar bob lefel i wella rôl a chyfraniad y clystyrau cynradd / uwchradd, y cynghreiriau uwchradd a'r gwahanol rwydweithiau rhanbarthol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae bron pob ysgol wedi ymgysylltu'n effeithiol gyda 'chynghreiriau' neu 'glystyrau' lleol lle maent wedi cydweithio gyda chyfoedion i adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol. Mae'r nifer o adnoddau ysgol-i-ysgol sydd ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE bellach dros 200, ac mae'r nifer o 'ymweliadau' ers ei lansio yn bron i 40,000 gyda'r nifer o adnoddau sydd wedi'u lawrlwytho ers ei lansio yn bron i 8,000.

I ysgolion uwchradd mae'r gwaith hefyd wedi cynnwys cefnogi partneriaid o fewn cynghreiriau gyda phrosesau yn ymwneud â pharatoi ar gyfer gwobrwyo graddau yn 2021.

Mae'r holl ysgolion uwchradd a chynradd yn rhan weithredol o gydweithio o fewn Clwstwr CiG. Yn ystod tymor y gwanwyn/haf maent wedi cymryd rhan mewn gweithdai CiG [Arwain Newid, Datblygu Cydweledigaeth a Newid Cwricwlwm - sesiynau 1,2,3]. Caiff cefnogaeth ei thargedu bellach i sicrhau y bydd gan bob ysgol gynllun clir sy'n adnabod camau gweithredu ar gyfer 2021-22 fel eu bod mewn sefyllfa i gwrdd â gofynion statudol newydd ar gyfer mis Medi 2022. Bydd pob cynllun yn adnabod sut y bydd ysgolion yn mynd i'r afael ag agweddau penodol, gan gynnwys dysgu proffesiynol i gefnogi'r holl staff; defnyddio grantiau; treialu a gwerthuso dulliau o ran dylunio'r cwricwlwm ar draws y 6 MDPH ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid. Bydd cyswllt gyda'r YCG yn ystod hanner tymor cyntaf Hydref 2021 yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan bob ysgol gynllun ar waith.

I gefnogi ysgolion ymhellach gyda'r gwaith hwn, bydd Rhwydweithiau MDPH ar lefelau rhanbarthol a lleol yn weithredol o fis Medi. Cafodd yr holl arweinwyr ac athrawon ym mhob ysgol gyfle'n ddiweddar i fynegi diddordeb mewn cydweithio â GwE i ddatblygu ymarfer effeithiol ar draws 8 maes/agwedd allweddol, sef:

- Dylunio'r Cwricwlwm ar gyfer yr Ysgol Gyfan
- Dadbacio potensial un o'r MDPH
 - ✓ Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg a'r Saesneg)
 - ✓ Mathemateg a Rhifedd
 - ✓ Gwyddoniaeth a Thechnoleg
 - ✓ Dyniaethau
 - ✓ Iechyd a Lles
 - ✓ Celfyddydau Mynegiannol
- Aseu

Mae'r lefel o ddiddordeb wedi bod yn uchel gyda bron i 300 o ymgeiswyr ac mae'r gwaith o sefydlu'r timau yn mynd rhagddi. Yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn bydd gan aelodau'r tîm gyfle i:

- Gydweithio gyda grŵp o gyfoedion i gefnogi dylunio'r cwricwlwm ar lefel leol a chefnogi datblygiad MDPH ar lefel ranbarthol.
- Cyfathrebu a rhaeadru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws yr ysgolion yn yr awdurdod lleol.
- Mynychu dysgu proffesiynol ar lefel ranbarthol ynghyd â fforymau trafod wedi'u hwyluso gan yr Athro Donaldson
- Cyfrannu at ddatblygu modelau dylunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer y dysgu cyntaf

Mae natur a dwysedd y gefnogaeth gan rwydweithiau/fforymau pynciau penodol traddodiadol yn cael ei thrafod a'i datblygu ar hyn o bryd i sicrhau ei bod yn cynyddu ac yn cyd-fynd a'r gwaith MDPH.

AMCAN 4 – YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles

GDD PMG

**Datblygu'r strategaeth GDD genedlaethol ymhellach a'i gweithredu ar draws y rhanbarth.
Gwreiddio'r model clwstwr/cynghrair GDD PMG ar draws y rhanbarth.**

Mae'r ffocws y chwarter hwn wedi bod ar weithredu cynllun cyfathrebu clir a chyson ar gyfer y GDD PMG 2021/22 gyda'r holl Arweinwyr Craidd ynghyd â thargedu holl glystyrau/fforymau penaethiaid yr ALL o ran y cynllun/dashfwrdd ynghyd â lliniaru unrhyw bryderon allweddol. Cyflawnwyd hyn ym mhob un o'r 6 ardal ALL.

Mae GwE wedi rhoi cefnogaeth anuniongyrchol ac uniongyrchol i ysgolion a atgyfeiriwyd gan YCG/Arweinwyr Craidd yng nghyswllt Iechyd a Lles/Cefnogi Dysgwyr Bregus/PMG/GDD fel y bo angen. Hefyd, bu GwE yn targedu clystyrau sydd â niferoedd uchel o PMG ac sydd angen rhagor o arweiniad neu sy'n rhai sy'n destun pryder.

Mae Canolfan Cefnogaeth GwE yn parhau i fod yn fan cyfeirio i bob sefydliad ac mae'r gwaith o wella'r adnoddau ymhellach yn parhau. Canolbwyntiwyd i raddau helaeth ar gynlluniau iechyd a lles ysgolion a chynlluniau lles clystyrau, yn unol â fframwaith LIC.

Mae Diploma carfan 7 GwE mewn Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma yn llawn (27) ac felly mae'n parhau i adeiladu capasiti.

Mae'r grŵp/rhwydwaith nas cynhelir rhanbarthol ar gyfer GDD Blynyddoedd Cynnar gyda'r 6 ALL wedi cyfarfod a'r amodau gorchwyl wedi'u cytuno. Hefyd, mae GwE wedi cefnogi mynediad i'r Dysgu Proffesiynol gyda sylw ar Chwarae/Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma y Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r ffocws wedi bod ar weithio gydag Arweinwyr Lles ym mhob un o'r ALL ac Ysgolion Iach o ran y dull ysgol gyfan a mapio lles ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad Iechyd a Lles rhanbarthol drafft wedi'i gwblhau.

Mae'r rhwydwaith rhanbarthol LACE/GwE hefyd wedi cyfarfod, ac mae 6 chyfarfod unigol ychwanegol wedi'u cynnal gyda phob ALL i drafod anghenion/pryderon lleol.

LLES Y GWEITHLU (GwE ac Ysgolion)

Cefnogi lles emosiynol yr unigolyn yng nghyd-destun eu rôl broffesiynol.

Rhoi iechyd a lles wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein prif flaenoriaeth yn ystod y cyfnod llawn dryswch hwn o newid na welwyd mo'i debyg o'r blaen yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, gan wneud popeth yn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant, pobl ifanc a'n gweithlu trwy gydol y cyfnod hwn. Rhoddwyd sylw i amrywiaeth o agweddau o fewn yr agenda lles, er enghraifft, gwydnwch, addasu i amgylchedd sy'n newid, hunanfyfyrion, dysgu gweithredol ac ati:

- Darparu 'Llefydd i Fyfyrio' ('Reflective Spaces') - darparu bloc o sesiynau gyda Dr Coral Harper neu Mike Armiger. Mae Dr Coral Harper a Mike Armiger wedi ymrwmo i weithio ar draws y rhanbarth o fis Medi 2021, ac wedi dyblu'r capasiti o ran Llefydd i Fyfyrio sydd ar gael i Uwch Arweinwyr.
- Sesiwn grŵp i ymarferwyr Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma gyda Coral Harper. 1 sesiwn y tymor. 6 grŵp trwy gydol y flwyddyn.

Mae 'Llefydd i Fyfyrio' yn parhau i gael eu defnyddio ar draws y rhanbarth, gydag adborth cadarnhaol gan yr hyfforddwy a'r hyfforddeion. Mae Dr Coral Harper neu Mike Armiger yn gweithio hyd eithaf eu capasiti. Dengys data ar gyfer mis Hydref bod Mike Armiger yn gweithio gyda 7 o arweinwyr ysgol am 12 mis gyda chyfarfodydd bob hanner tymor. Mae Dr Coral Harper yn darparu cyfanswm o 43 o sesiynau gyda 10 o arweinwyr o bob cwr o'r rhanbarth, sy'n golygu eu bod yn cael 6 sesiwn yr un. Bydd hyn yn rhedeg tan Chwefror 2022 pryd y byddwn yn cynnal adolygiad ac yn cynllunio sut yr ydym am ymestyn y cynnig i ragor o bobl. Hefyd, mae GwE wedi creu rhagor o le ar gyfer cymorth 'mewn argyfwng' os yw ysgolion yn wynebu her benodol. Mae sesiynau grŵp wedi'u cynllunio ar gyfer Tymor y Gwanwyn 2022.

Defnyddio fframwaith hyfforddi mewn sgysiau, cyfarfodydd ac arweinyddiaeth bob dydd i ddatgloi potensial ac annog twf unigolion.

Mae hyn yn parhau gyda staff yn dilyn cwrs ILM Hyfforddi a Mentora Gweithredol Lefel 7.

Mae Llefydd i Fyfyrio ar lefel genedlaethol wedi dechrau gyda staff GwE yn cefnogi cydweithwyr o Dde Cymru.

Mae Shane Fletcher, Rheolwr Tîm o Crusaders Rugby, yn dechrau sesiynau grŵp ar gyfer 11 o arweinwyr y tymor hwn, yn seiliedig ar sgysiau adeiladol, sy'n canolbwyntio ar atebion. Fe'u cynhelir o fewn cylch 4 wythnos, a'r grŵp fydd yn llywio cynnwys y sesiynau.

LLES YSGOL GYFAN (MDPh)

Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus yng Nghymru'

Datblygu Ymagwedd Ysgol Gyfan at les

Cyd-greu adnoddau Lles Ysgol Gyfan gydag ysgolion ar draws y rhanbarth

Menter TEDxGwE

Fel gwasanaeth, bu i ni gysylltu gyda chynllun Climate Neutral Now y CU ddwy flynedd yn ôl er mwyn gwrthbwyso allyriadau teithio GwE. Rydym wedi datblygu'r berthynas hon ymhellach drwy gefnogi'r 'Her 100 ysgol'. Wrth i ni symud yn agosach at Gynhadledd Partion y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yn Glasgow yn ystod mis Tachwedd 2021, penderfynasom gymryd camau pellach drwy ddatblygu'r fenter TEDxGWE.

Mae TEDx yn fenter fyd-eang i hyrwyddo a chyflymu dulliau o ddatrys yr argyfwng hinsawdd, gan droi syniadau yn weithredoedd. Caiff cyfres o ddigwyddiadau a arweinir gan y gymuned eu cynnal ar draws y byd; rydym wedi cofrestru ac yn dal y drwydded ar gyfer TEDxGWE.

Bydd GwE yn cynnal digwyddiad TEDxGWE ar y 1^{af} o Dachwedd 2021 i blant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru. GwE fydd yn arwain ond rydym ar hyn o bryd yn datblygu partneriaeth ar gyfer Gogledd Cymru a chysylltiadau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Theatr Clwyd, Do Well Ltd, Tales to Inspire ac Adfywio Cymru.

Yng Ngogledd Cymru, rydym eisiau defnyddio TEDxGWE fel catalydd i ddechrau sgwrs gydag arweinwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, ynghyd â'n cymunedau a'n plant a phobl ifanc, ynaglŷn â'r her gyfunol rydym i gyd yn ei wynebu, gyda'r nod o droi'r syniadau gan y plant a'r bobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn weithredoedd. Ein cenhadaeth yw uno ein rhanbarth i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan ein bod yn gweld hyn fel cyfrwng perffaith i ddatblygu agwedd Dinasyddion Egwyddorol Gwybodus y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym eisiau gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddefnyddio eu llais i annog sgwrs ledled y rhanbarth i arwain gweithredoedd drwy ddod â phobl ynghyd i ddeall yr her, ynghyd ag edrych ar y datrysiadau mwyaf effeithiol sydd wedi'u cyd-greu a'u llywio gan dystiolaeth, gan sicrhau ein bod i gyd yn ymateb i'r her. Nod digwyddiadau byd-eang TEDx yw ateb pum cwestiwn allweddol rhyng-gysylltiedig sy'n helpu i lywio cynllun tuag at ddyfodol glanach:

- Egni – Pa mor sydyn allwn ni newid i bŵer glân 100%?
- Cludiant – Sut allwn ni uwchraddio'r modd yr ydym yn symud pobl a phethau?
- Deunydd - Sut allwn ni ail-ddychmygu ac ail-wneud y pethau o'n cwmpas?
- Bwyd – Sut allwn ni annog newid byd-eang tuag at systemau bwyd iachach?
- Natur – Sut allwn ni warchod y ddaear yn well ac ail-lasu'r ddaear?

Bydd modd i ysgolion gofrestru ar gyfer y digwyddiad a chyflwyno fideo 60 eiliad yn defnyddio FlipGrid. Caiff y fideos eu coladu a'u rhannu gyda chynulleidfa ehangach. Bydd ysgolion yn derbyn pecyn adnoddau i gefnogi'r rhai sy'n cymryd rhan i ddatblygu sgwrs TED fel eu bod yn gallu rhannu eu storïau, problemau, meddyliau a'r gweithredoedd sydd eu hangen i greu dyfodol gwell. Bydd Adfywio Cymru yn ariannu'r pecynnau adnoddau a'r mentoriaid.

Cafodd ein tudalen Flipgrid gyfanswm o 350 o ymweliadau a 6 awr o ymgysylltu. Mae 11 ysgol o bob un o'r ALL ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y digwyddiad byw ar 1^{af} Tachwedd yn Theatr Clwyd, a lywyddir gan Iolo Williams, y Naturiaethwr a'r cyflwynydd Radio a Theledu, awdur ac arweinydd teithiau natur. Yn ystod wythnos COP26, byddwn yn rhannu'r holl fideos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt gael gwybod beth yw barnau ein pobl ifanc.

Cafodd pob ysgol 3 awr o hyfforddiant gan Do-Well Ltd a Tales to Inspire, i gefnogi'r gwaith paratoi ar gyfer y sgwrs TED. Yn ogystal â fideo hyrwyddo, bydd Modant yn cynhyrchu'r gwaith o wneud fideo. Ar y diwrnod, gofynnir i westeion wneud adduned i gefnogi ein pobl ifanc. Bu GwE yn gweithio mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adfywio Cymru, Do-Well (UK) Ltd a Tales to Inspire i gynnal y digwyddiad hwn.

Fel rhan o'r Grŵp Lles Cenedlaethol, mae GwE yn gweithio ar y cyd â Mind Cymru i gynnig cyfle dysgu proffesiynol rhithwir a hwylusir (yn y Gymraeg a'r Saesneg). O fis Medi 2021, cafodd ysgolion fynediad at Sesiwn

Ymwybyddiaeth lechyd Meddwl a Rheoli lechyd Meddwl yn y Gwaith a chefnogi staff. Mae'r niferoedd o ysgolion sydd wedi manteisio ar hwn yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd capasiti.

STRATEGAETH I GEFNOGI RHINIEN / GOFALWYR

Arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Sicrhau cyflwyno "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn effeithiol i ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.

Sicrhau cydlyniant a chapasiti addas i ddarparu adnoddau rhanbarthol o safon uchel yn y maes hwn.

Sefydlwyd y grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth gan GwE a phob ALL i arwain, rheoli a chydlynu'r maes o gefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysg eu plentyn. Dyma'r prif ddatblygiadau ar gyfer chwarter 2:

- Mae pecyn cyfryngau cymdeithasol wedi'i gynhyrchu a'i ddosbarthu i ysgolion.
- Mae datblygwr yr adnodd wedi gweithio ochr yn ochr â GwE, gan rannu gwybodaeth ag ysgolion.
- Mae datblygwr yr ymchwil wedi creu 'Help Your Teen to Learn' (HYTTL) ar gyfer blwyddyn 9 i fyny, sy'n cael ei gyfieithu ar hyn o bryd.
- Bydd y Grŵp Rhanbarthol yn cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 1af Tachwedd i drafod darpariaeth ar gyfer rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol, i gyflwyno'r adnoddau HYTTL a thrafod cynlluniau ar gyfer rhaglen ar gyfer cymorthyddion i gefnogi rhieni o fewn amgylchedd yr ysgol.

AILGYNNAU DYSGU

Gweithredu rhaglenni sy'n ceisio lliniaru effaith cau ysgolion ar gyrhaeddiad darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Strategaeth addysgu wedi'i llywio gan dystiolaeth wedi'i dylunio i helpu disgyblion wella eu rhuglder a chynnydd mewn mathemateg.

Datblygu adnoddau ar-lein sy'n addas i staff ysgol a rhieni i alluogi defnyddio'r ymyriadau hyn i helpu gyda datblygiad darllen plant dros y flwyddyn ysgol nesaf.

Parhau i ddatblygu a chreu cyfres o ddeunydd cefnogi cyffredinol ar gyfer mathemateg uwchradd a llythrennedd uwchradd.

Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) – GWEDD 2

Dechreuodd tîm ymchwil RILL waith Gwedd 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn anghydamserol/cydamserol gwreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020, ac mae'r rhain bellach yn cynnwys fersiwn wedi'i addasu i'w ddefnyddio yn y dosbarth a hefyd i rieni a gofalwyr. Cafodd gwahoddiadau i ysgolion fynychu hyfforddiant yn nhymor yr haf a thymor yr hydref 2021 eu cylchredeg ym mis Mehefin 2021. Bu i YCG GwE fynychu cyfarfodydd y fforwm penaethiaid rhanbarthol i egluro'r rhaglen. Cafodd RILL ei groesawu'n gadarnhaol iawn yn y cyfarfodydd hyn, yn arbennig y fersiwn Cymraeg newydd sydd wedi'i deilwra.

Mae 29 o'r 54 ysgol wedi'u hyfforddi mewn RILL hyd yma, ac mae hyn yn cynnwys 43 o athrawon. Gwahoddwyd y 25 ysgol arall i fynychu sesiwn erbyn diwedd tymor yr hydref 2021. Yn ogystal â diwrnod llawn o hyfforddiant, mae GwE ar hyn o bryd yn cynnig sesiynau galw heibio wythnosol i gefnogi athrawon. Mae GwE hefyd wedi datblygu rhwydwaith Hwb lle gall athrawon gael mynediad at wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant (e.e. tiwtorialau a fideos ar sut i wneud pethau), gofyn cwestiynau a myfyrio ynghylch eu profiadau gyda'r tîm ymchwil/athrawon eraill.

Addysgu Manwl a SAFMEDS

Ni fydd astudiaeth ymchwil sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn dechrau tan fis Medi 2021.

- Bu sesiynau 'galw heibio' misol ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth
- Darparwyd hyfforddiant wedi'i theilwra i ysgolion y rhanbarth ac UC Dau
- Hyrwyddwyd SAFMEDS trwy'r Bwletin a Chanolfan Cefnogaeth GwE
- Crëwyd adnoddau dwyieithog yn barod i'w lansio'n fuan:
 - Tiwtorial ar-lein SAFMEDS
 - Gwefan bwrsol SAFMEDS
 - Hyfforddiant diwygiedig SAFMEDS ar gyfer cardiau llaw
 - Cyflwyniad i Hyfforddiant Addysgu Manwl
 - Cardiau llaw SAFMEDS fel rhan o wedd ychwanegol i ymestyn y ddarpariaeth o'r Fframwaith Rhifedd

- Comisiynwyd gwaith i greu deunydd dysgu newydd – gellir defnyddio'r rhain fel darpariaeth benodol a chyffredinol, gan dargedu ymarfer adfer rheolaidd a datblygu rhuglder
- Dyma'r ffigyrau ymweld ar gyfer deunyddiau ar-lein:
 - Saesneg: 1023 o ymweliadau â gweminar 'Re-ignite Learning' a 391 o ymweliadau â fideo hyfforddiant SAFMEDS.
 - Cymraeg: 474 ar gyfer y gweminar a 70 ar gyfer yr hyfforddiant SAFMEDS.

Gwella Rhuglder Darllen Llafar (iFOR)

Mae pob ysgol a oedd wedi cofrestru ar gyfer hyn wedi cael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyrraeth i'w lawrlwytho ar gyfer eu defnyddio yn yr ysgolion. Roedd deng ysgol wedyn wedi mynychu sesiwn Cwestiwn ac Ateb dilynol ar-lein. Gwahoddir pob ysgol bellach i fynychu pedwar sesiwn gefnogaeth o bell, rhwng rŵan a mis Mai 2022, i'w helpu i weithredu hyn, a gallant gysylltu â'r tîm ymchwil am unrhyw gymorth yn y cyfamser. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu'r deunydd cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cyd-fynd â'r datblygiadau mwy diweddar o ran yr adnoddau cyfrwng Saesneg. Gwahoddir ysgolion hefyd i chwarae rhan mewn mesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen Llafar, yn ogystal â threialu defnydd ysgol-cartref o'r ymyriadau i gynyddu'r cyfleoedd i ymarfer. Gwahoddir rhagor o ysgolion i gymryd rhan yn y prosiect ar ôl y gwyliau hanner tymor, ac unwaith eto yn y flwyddyn newydd.

Mathemateg Uwchradd

Mae gwefan Maths.Cymru wedi'i datblygu i gynnwys adnoddau i gefnogi ymyriadau yn CA4 a CA3. Yn CA4, mae adnoddau ar gael i gefnogi'r haenau sylfaenol a chanolraddol, gyda'r haen uwch ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys fideos cyfarwyddiadol, taflenni gwaith ac atebion sy'n addas ar gyfer dysgu TGAU ynghyd ag esiampl o sut i gwblhau cwestiwn TGAU mewn clip fideo.

Yn CA3, mae'r adnoddau ar gyfer rhif wedi'u datblygu a byddant i gyd ar gael cyn mis Medi 2021. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyniad 'PowerPoint' cyn ac ar ôl asesu, adnoddau i gefnogi dysgu sy'n cynnwys dolenni cyswllt at glipiau fideo cyfarwyddiadol, cwestiynau enghreifftiol a thasgau i ddysgwyr eu cwblhau a'u marcio eu hunain.

Mae gwybodaeth am y wefan a'r adnoddau ar gyfer CA4 wedi'u rhannu gyda'r HOM yn rhanbarthol yn ystod 2020, ac ar gyfer CA3, wedi'u rhannu gyda'r Cydlynwyr Rhifedd yn rhanbarthol yn ystod 2020/21. Mae defnyddio'r fforymau a sefydlwyd wedi profi i fod yn effeithiol.

Mae ambell ysgol yn gweithio ar dreialu'r defnydd o adnoddau Maths.Cymru i gefnogi dysgwyr gyda'u rhaglenni RRRS. Mae cefnogaeth wedi'i darparu yn ôl y galw ac mae'r prosiectau hyn ar eu camau cychwynol ar hyn o bryd. Bydd angen adolygu'r cynnydd yn ystod tymor yr hydref. Mae dwy ysgol yn datblygu'r prosiect – mae'r ddwy ohonynt yng Ngwynedd.

Llythrennedd Uwchradd

Gwnaed gwaith datblygu ar adnoddau gwefan Herio i gefnogi sgiliau llythrennedd sylfaenol dysgwyr. Caiff y rhain eu defnyddio ar draws y rhanbarth. Mae 11 ysgol yn gweithredu'r rhaglen ymyrryd 'Building Reading Power'. Cynhaliwyd 5 sesiwn hyfforddi ac mae pob ysgol wedi mynychu'r sesiynau hyn. Datblygwyd deunydd cefnogi ac adolygir cynnydd yn ystod tymor yr haf.

AMCAN 5 – CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn barhaus.

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Datblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.

Datblygu'r gallu i arwain ledled y system.

Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.

Parhau i ddatblygu'r systemau cydweithredol o fewn G6 sy'n hwyluso prosesau ymgysylltu â chymheiriaid yr ysgolion.

Cyn dyfodiad y pandemig COVID, cytunwyd ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. At hyn, fe ddisbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a gafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Mae 22 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Mae chwech o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi'u hyfforddi'n llawn fel cyflwynwyr rhaglen ac mae modd iddynt gynnig yr hyfforddiant *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau.

Derbyniodd holl aelodau staff GwE ddiweddiad ar hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ar Fedi 17^{eg} 2021. Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar Hydref 4^{ydd} 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, a gallant bellach gyflwyno hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau.

Mae deuddeg clwstwr (72 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf / cychwyn tymor yr hydref 2021. Mae 97 o benaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 92 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r holl ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar gychwyn tymor yr haf 2021. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion uwchradd / y clystyrau sydd ynghlwm wedi'i drefnu ar gyfer cychwyn tymor yr hydref 2021. Cafodd yr holl ysgolion arbennig yn y rhanbarth gyflawni hyfforddiant llawn yn ystod tymor yr haf 2021.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i garfan newydd o ysgolion a chlystyrau. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 fel bod pob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cymryd rhan yn y rhaglen adolygu cymheiriaid erbyn diwedd y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Hydref 2021. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Trefnwyd bellach i bob clwstwr dderbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Hydref / Gwanwyn.

CYMELL A MENTORA

Darparu hyfforddiant Cymell a Mentora

Mae aelodau staff GwE wedi derbyn yr 8 sesiwn hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster ILM Lefel 7 'Certificate for Executive and Senior Level Coaches and Mentors'. Mae aelodau'r tîm hefyd yn ymwneud â'u haseiniad ymarferol sef hyfforddi 2 aelod o Uwch Dimau o fewn ysgolion GwE. Bydd rhaglen o hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn academaidd o Fedi 2021 yn cael ei threfnu a'i darparu gan aelodau'r tîm craidd hwn. Er na wnaed unrhyw waith cymheiriol ar gyfer goruchwyllo hyd yma, bu'r tîm o 12 yn cefnogi datblygiad ei gilydd fel hyfforddwyr ac maent yn parhau i wneud hynny.

Cefnogi dysgu proffesiynol mewn Hyfforddi a Mentora

Mae gweithgarwch 'Reflective Space' Cenedlaethol wedi cychwyn. Mae pawb wedi derbyn enw hyfforddai ar ddechrau'r hanner tymor hwn ac wedi cysylltu trwy e-bost, a chynhaliwyd sawl sesiwn hyfforddi.

Derbyniwyd ceisiadau ar gyfer y cynllun Mentoriaid Sefydli; bydd 25 o'r ymgeiswyr yn mynd ymlaen i fynychu'r rhaglen genedlaethol (Gorffennaf 2021).

YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

Bu'r rhanbarth yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Estyn i sefydlu panel amlasiantaethol ar gyfer y 4 ysgol sydd yn y categori Mesurau Arbennig. Cynhaliwyd cyfarfodydd panel ym mhob un o'r 4 ysgol, ynghyd ag ymweliadau monitro Estyn â dwy o'r ysgolion. Roedd canfyddiadau Estyn ym mhob ysgol yn dangos cynnydd. Mae gan bob ysgol gynllun cefnogaeth 'cyfannol' trwy gynllun amlasiantaethol. Mae GwE wedi cydweithio ag Estyn mewn dwy o'r ysgolion i adnabod cerrig milltir allweddol ar gyfer y daith welliant ynghyd â diffinio'r union welliant yn ystod pob carreg filltir.

Cryfhau strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio YAC

Mewn ymateb i'r ymagwedd cenedlaethol tuag at ysgolion yn y categori Mesurau Arbennig, fe gafodd prosesau rhanbarthol ar gyfer cefnogi, monitro a herio ysgolion sy'n achosi pryder eu hadolygu gan weithgor *Gorchwyl a Gorfffen*. Ymhlith aelodau'r gweithgor yr oedd Ymgynghorwyr GwE ac uwch swyddogion o'r 6 Awdurdod Lleol. Hyd yn hyn, bu 6 chyfarfod a dyma'r camau gweithredu:

- Adnabod sut y gallai strwythurau a phrosesau diwygiedig wella llif effeithiol yr wybodaeth rhwng yr amryw haenau a sicrhau bod y cyfrifoldebau ynghylch gwneud penderfyniadau yn glir i bawb.
- Cytuno i sefydlu grŵp amlasiantaethol ar gyfer pob YAC ym mhob un o'r 6 Awdurdod Lleol. Mae'r Canllawiau ar gyfer y cylch gorchwyl a'r aelodaeth wedi'u hamlygu.
- Cytuno ar *Drothwyon a Sbardunau* lefel uchel i adnabod YAC [*Llinyn 1 : Safonau, D + A, Asesu ac Arwain; Llinyn 2 : Cyllid, AD, Gwasanaethau Rheoli; Llinyn 3 : Cynhwysiant, Presenoldeb, Lles ac ADY*]
- Cytuno bod yr holl YAC yn meddu ar gynllun cefnogi cyfannol 360.
- Cytuno y byddai'r grŵp amlasiantaethol lleol yn cynnal trosolwg o'r cynnydd o ran monitro ar gyfer pob ysgol, a phan fyddai pryderon yn cynyddu, eu bod yn adrodd hyn i Fwrdd Ansawdd Lleol wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Addysg/Pennaeth Gwasanaeth. Bydd canllawiau ar gyfer cylch gorchwyl ac aelodaeth yn cael eu cytuno'n lleol.
- Cytuno ar werthoedd ac ymddygiadau cyffredinol a fyddai'n ategu'r gwaith ledled y rhanbarth.
- Cytuno ar ddiffiniad i ysgolion gael eu hadnabod ar gontinwmm ymreolaeth tuag at ddod yn Ysgol sy'n Gwella ei Hun [gan osgoi'r stigma sydd ynghlwm â chategoreiddio a 'iaith' Estyn].
- Cynnal gwaith cynllunio cychwynnol ar gyfer gweithdai rhanbarthol er mwyn i ymgynghorwyr a swyddogion sicrhau bod dulliau cyffredin a chysondeb o ran adnabod 'pryderon', ynghyd ag o fewn strategaethau cefnogi ac o ran ansawdd adroddiadau. Cynhelir gweithdai yn ystod tymor yr hydref.

Sicrhau bod yr holl YAC yn ymwneud yn effeithiol â rhaglenni cefnogaeth cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac yn ymwneud ag ymgysylltu â chymheiriaid, cynghrair/clwstwr a rhwydweithio ehangach

I ryw raddau, mae'r holl YAC wedi cymryd rhan yng ngweithdai Cwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn rhan o drafodaethau dilynol gyda'u Hymgyngorwyr Cefnogi Gwelliant cyswllt. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ynghlwm â'u Cynlluniau Gweithredu Ar Ôl Adolygiad / Cynllun Datblygu Ysgol o fis Medi ymlaen. Mae'r ddwy ysgol yn Wrecsam sydd mewn mesurau arbennig wedi ymgymryd â hyfforddiant ymgysylltu â chymheiriaid fel rhan o fodel Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yr ALL cyfan. Bu'r holl ysgolion ynghlwm â 'chynghreiriau' lleol lle cawsant gydweithio â chymheiriaid i adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol a chefnogi partneriaid y cynghrair gyda phrosesau ynghylch paratoi i gyflwyno graddau yn 2021. Bydd Rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad ar lefel ranbarthol a lleol ar waith o fis Medi ymlaen. Bydd angen i ni sicrhau bod yr holl ysgolion yn cydweithio â'r Rhwydweithiau Meysydd Dysgu a Phrofiad rhanbarthol a lleol.

YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)

Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliadau sy'n Dysgu. Cynorthwyo'r ysgolion hynny ar draws y rhanbarth nad ydynt wedi rhoi sylw i YSD i ail-gydio yn y broses yn llwyddiannus, gan felly gefnogi eu taith ddiwygio ar gyfer y CiG.

Bwriedir trefnu dysgu proffesiynol ar gyfer holl staff y gwasanaeth er mwyn eu diweddarau ynghylch gofynion YSD yn ystod tymor yr Hydref 2021. Bydd arweinwyr y portffolio YSD yn dadansoddi ac yn adnabod y prif negeseuon sydd yn deillio o arolwg staff GwE ac yn adnabod agweddau pellach i weithio arnynt. Bydd y dadansoddiad a'r prif negeseuon yn cael eu rhannu gyda'r uwch dîm i ddechrau, cyn eu rhaeadru â gweddill staff y gwasanaeth. Bwriedir cynnal trafodaethau â'r Bwrdd Rheoli o ran cydweithio gyda'r awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad yr ysgolion â'r agwedd hon yn gwella, gan hefyd roi'r cyfle i'r awdurdodau eu hunain gwblhau'r arolwg.

Bydd Gweminar dwyieithog byr yn cael ei chynnig i holl ysgolion y rhanbarth er mwyn codi ymwybyddiaeth o YSD a'r berthynas efo CiG a'r daith ddiwygio.

Bydd YCG yn hybu'r defnydd o'r arolwg YSD fel man cychwyn i ysgolion adnabod eu hanghenion o ran datblygu'r 7 dimensiwn ymhellach gan gyfeirio ysgolion at yr arolwg sydd bellach ar Hwb a chydweithio efo'r ysgolion yn dilyn dadansoddi er mwyn adnabod dimensiynau sydd angen gweithredu pellach.

Mae hyfforddiant i lywodraethwyr i godi ymwybyddiaeth ynglŷn ag egwyddorion YSD ar gael yn y ddarpariaeth ar gyfer Llywodraethwyr.

Gwnaed cyflwyniad yng nghynhadledd ryngwladol ICSEI ym mis Mawrth 2021 gyda chydweithwyr o Seland Newydd, British Columbia, Lloegr, yr Almaen ac Awstralia - symposiwm o'r enw: 'Harneisio ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i wireddu newid system yn ystod a thu hwnt i amseroedd COVID19'. Bydd sesiynau dilynol yn cyfrannu arferion ac yn eu rhannu ar draws GwE mewn papur academiaidd sy'n edrych ar YSD a'r 4 thema trawsliniol.

Hyrwyddo lansiad yr AGGC [yr Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol] gyda holl ysgolion y rhanbarth - mae 6 ysgol o'r gogledd wedi ymwneud â pharatoi adnoddau ar gyfer yr adnodd cenedlaethol. Mae'r lansiad ffurfiol bellach wedi ei ohirio i fis Tachwedd. Mae Estyn a LIC angen adnabod 90 o ysgolion dros Gymru i'w treialu ymhellach - bydd GwE yn coladu enwau'r ysgolion sydd â diddordeb.

Oherwydd y pandemig, mae'r gofynion ar ysgolion wedi bod yn andwyol wrth iddynt ddelio gyda materion dydd i ddydd o ran yr agwedd weithredol o redeg ysgolion. Wrth i'r ddau gyfnod clo lacio, mae'r ysgolion wedi ymgysylltu'n dda iawn efo'r DP o ran Taith Ddiwygio'r Cwricwlwm i Gymru.

Efallai nad yw'r ysgolion wedi sylweddoli hyn, ond mae eu datblygiad dros y cyfnodau clo fel YSD wedi bod yn sylweddol, yn enwedig wrth ystyried y 4 thema trawsliniol o Amser, Technoleg, Ymddiriedaeth a Meddwl Gyda'n Gilydd. Mae sawl un o'r dimensiynau wedi cael sylw da hefyd, e.e. hyrwyddo dysgu mewn tîm, creu cyfleoedd dysgu parhaus, dysgu trwy'r amgylchedd allanol.

FFRAMWAITH GWELLA ANSAWDD

Datblygu defnydd yr ysgolion o'r Pedwar Diben fel rhan o'r Fframwaith Gwella Ansawdd i werthuso ymarfer a blaenoriaethau cyfredol.

Creu gwell synthesis yn ymwneud â'r blaenoriaethau ar gyfer y Pedwar Diben.

"Gwasanaeth Paru" i gyfuno meysydd arbenigedd gyda meysydd i'w datblygu.

Gweithrediadau arfaethedig i'w cyflawni o dymor yr hydref ymlaen:

- Yr holl ysgolion i gyflawni gwerthusiad cychwynnol, gan ddefnyddio'r fframwaith, erbyn hanner tymor yr Hydref 2021 - mae bwriad i gynnig y fframwaith yn holl ysgolion y rhanbarth erbyn hanner tymor cyntaf yr Hydref 2021 drwy gyflwyniadau gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i glystyrau neu ysgolion unigol.
- Coladu'r wybodaeth o bob cwr o'r rhanbarth ac adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol a'r rheiny sy'n benodol i'r awdurdod. Bydd defnyddio 'One Drive' ar y cyd o fewn Office 365 i gynnal y Fframwaith hefyd yn fodd i'r uned data ddadansoddi canfyddiadau'r Awdurdod ynghyd â chanfyddiadau ledled y rhanbarth.
- Arweinwyr Craidd i hwyluso gwasanaeth paru ar gyfer ysgolion yn eu hawdurdod – y tîm data i gyflwyno trosolwg penodol i'r awdurdod i'r Arweinwyr Craidd fel bod modd iddynt hwyluso'r gwasanaeth paru fel y bo'n briodol.
- Ysgolion sy'n defnyddio Cynghreiriau'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion a'r trefniadau Clwstwr i ymateb i'r ardaloedd blaenoriaeth – cyflawni'r gwaith ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg i sicrhau bod y fframwaith y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yn cefnogi ymateb i heriau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion. Felly, caiff y defnydd o'r fframwaith ei ymgorffori o fewn ymarfer adolygu cymheiriaid a hwyluswyr gwelliant y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.

AMCAN 6 – BUSNES

Sicrhau bod GwE yn meddu ar drefn llywodraethu gryf a chefnogaeth busnes a gweithredol effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian.

Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd eglur a chadarn yn gryfder allweddol o fewn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl yn ymwneud â'r holl lefelau cynllunio yn mynd i'r afael â holl agweddau gwaith GwE ac yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i'r agenda trawsnewid yn glir. Mae'r cynlluniau wedi'u priso'n llawn gyda meini prawf o ran llwyddiant a cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni amcanion.

Mae yna drefniadau hunanwerthuso manwl. Caiff cynlluniau eu hadolygu'n chwarterol gan werthuso'r cynnydd a'r effaith. Mae'r staff ar yr holl lefelau'n deall eu cyfrifoldebau o ran gwelliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae pob Awdurdod Lleol yn meddu ar gynllun busnes manwl sydd wedi'i gymeradwyo gan y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff y cynnydd tuag at yr amcanion y cytunwyd arnynt ar lefel awdurdod lleol eu monitro'n chwarterol. At hyn, bydd yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol yn eu trafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd. Caiff problemau parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunanwerthuso'n nodwedd gref yng ngwaith GwE ac mae'r broses hunanwerthuso'n gylchol ac yn barhaus. Mae cryn bwyslais ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ynghyd â phwyslais cyson ar gynnydd yn unol â blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn mynd ati'n gywir i adnabod meysydd perfformiad da a meysydd i'w datblygu, neu feysydd lle mae elfen o risg o ran gwella profiadau a deilliannau addysgol i'r dysgwyr.

Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheoli cyllid effeithiol ar waith. Mae'r gwaith cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol ac mae staff GwE, yr awdurdod lleol penodol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant o ran grantiau'n rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn ategu'r gwaith o gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Yn sgil defnydd cynyddol effeithiol o'r data i adnabod y blaenoriaethau allweddol, caiff y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a'r penderfyniadau ynghylch cynllunio ariannol ei gryfhau, gan fod y ffrydiau gwaith sy'n ategu'r cynllun busnes yn nodi'r adnoddau sydd i'w defnyddio'n glir.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r rhanddeiliaid i gyd o'r un farn erbyn hyn ynghylch sut i asesu gwerth am arian yng nghyswllt gweithgareddau GwE o fewn strwythurau ac amcanion y cynllun busnes.

Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli risgiau'n gywir ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r cofnod risgiau yn ddogfen fyw ac fe gaiff ei diweddarau'n rheolaidd er mwyn adnabod risgiau cynyddol neu risgiau nad ydynt mwyach yn risgiau lefel uchel. Caiff y ddogfen ei hadolygu pob mis mewn cyfarfod arweinyddiaeth uwch. At hyn, mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cofnod pob chwarter.

Mae GwE yn rheoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol ac mae hyn yn ei dro yn sicrhau modd iddynt gefnogi amcanion y rhanbarth, defnyddio'r adnoddau'n effeithiol a bodloni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Systemau rhannu gwybodaeth

Cafodd effeithiolrwydd 'Tableau /Analytics' fel adnodd dadansoddi ar gyfer G6 ei rannu gyda'r Uwch Dîm Rheoli. Sefydlwyd cyfrifon ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Rheoli i gychwyn ac mae disgwyl y byddwn yn sefydlu cyfrifon ar gyfer yr Arweinwyr Craidd yn ystod tymor yr Hydref 2021. Caiff gwybodaeth o'r adnodd dadansoddi ei defnyddio'n effeithiol eisoes i lywio adroddiadau system fel y rhaglen trawsnewid ADY a hefyd ymgysylltiad ysgolion â chynnig dysgu proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn bwriadu sefydlu dangosfyrddau ychwanegol i ddadansoddi canlyniadau TGAU a Safon Uwch er mwyn gweinyddu a llunio adroddiadau ar y cyrsiau dysgu proffesiynol a gynigir yn ranbarthol.

Bu i'r tîm ADY a'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt gyflawni gwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i ailymwneud â G6 yn dilyn cyfnodau clo'r pandemig. Bu hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar gerrig milltir trawsnewid ADY gan arwain at gynnydd mewn ysgolion sy'n cymryd rhan ac yn cwblhau statws eu cynnydd cyfredol. Arweiniodd hyn at well dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer y meysydd lle mae angen cefnogaeth bellach.

Cafodd rhaglen dreigl o ran sefydlu a chefnogaeth ei chynnig i Benaethiaid newydd ac aelodau'r Uwch Dîm Reoli ledled y rhanbarth, a hynny'n rhithwir a drwy ymweliadau wyneb yn wyneb. At hyn, mae mwy a mwy o ysgolion wedi caffael hawliau gweinyddol dros eu cyfrifon staff G6 eu hunain. O ganlyniad, erbyn hyn, mae modd i'r ysgolion reoli strwythurau eu cyfrifon eu hunain ar ran eu mudiad.

Cydweithiodd unigolion arweiniol yn effeithiol gyda'r tîm digidol i ddatblygu potensial Canolfan Cefnogaeth GwE ymhellach. Nifer bresennol yr ymweliadau â thudalennau yw 65,000 gyda 12,500 yn cael eu lawrlwytho.

2. ATODIAD

Data Rhanbarthol.



GWE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Atodiad 2: Data Rhanbarthol Chwarter 2



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



Tud. 429



CYNLLUN BUSNES 2021-2022

BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022

Data Rhanbarthol ar gyfer Chwarter 2

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'i seilio ar degwch a rhagoriaeth sy'n gosod safonau uchel i bob dysgwr

CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

Data Rhanbarthol:

Prosiect GwE a Shirley Clarke – Haen 3

Cyfanswm ysgolion ar draws y rhanbarth yn Haen 1, 2, and 3

	Ysgolion	Athrawon
Haen 1	27	54
Haen 2	193	386
Haen 3	140	261
Cyfanswm	260	701

- 89% ysgolion y rhanbarth
- 96% Cynradd
- 80% Uwchradd
- 70% Arbennig

Mynychodd dros 1000 o athrawon ar draws y rhanbarth sesiwn gyda Shirley Clarke 28/09/2021.

GWIREDDU'R CWRICWLWM (CIG)

Data Rhanbarthol:

Gweithdai Cwricwlwm i Gymru

- % sydd wedi mynychu un sesiwn neu mwy - 80.3%
- 54 sesiwn
- 108 awr o Ddysgu Proffesiynol
- 1155 wedi mynychu'r sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion

TIMAU MDaPh:

Data Rhanbarthol (13/10/2021)

Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu at y rhaglen gymorth barhaus ar gyfer Ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:

Disgrifiad	Nifer
Aseu	94
Cynllunio Cwricwlwm	124
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	60
Iechyd a Lles	60
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	87

Atodiad 2

Mathemateg a Rhifedd	60	
Y Celfyddydau Mynegiannol	61	
Y Dyniaethau	53	

AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN**Data Rhanbarthol:**

- Adnoddau a tanysgrifadau newydd 'Power Language' 2021-2022: 31 o ysgolion cynradd
- Prifysgol Agored 2021-2022: 9 o athrawon cynradd
- Cymorth parhaus i ysgolion uwchradd: 3
- Nifer ysgolion / Cyfarfod Rhwydwaith 01/09/2021:
26 Ysgolion / 31 Athrawon

CALU - LIDCD**Data Rhanbarthol:**

- Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi: 55
- Darpar CALU Cylch 3: 43
- Statws CALU Cylch 2: 33
- Aseswyr CALU: 24
- Dosbarth Google i gymorthyddion: 1900 erbyn Hydref 2021

LEFEL A**Data Rhanbarthol:**

Rhwydweithio a rhannu arfer dda: 20

DIGIDOL**Data Rhanbarthol:**

Ymgysylltiad Rhanbarthol Hwb yn Chwarter 2: 93.16% (*yn cynnwys gwyliau'r haf)

MATHEMATEG A RHIFEDD**Data Rhanbarthol:**

Cefnogaeth benodol i ysgolion:

- Cynradd: 1
- Uwchradd: 11

Financial Education

- Nifer sydd wedi cwblhau e-ddysgu: 48
- Nifer wedi eu hyfforddi: 69

SAESNEG A LLYTHRENNEDD**Data Rhanbarthol:**

Cefnogaeth llythrennedd i ysgol sydd naill ai yng nghategori Estyn / Mesurau Arbennig, neu yn peri pryder neu angen arweiniad.

- Cynradd: 8
- Uwchradd: 13

Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD**Data Rhanbarthol:**

- Cyfarfodydd rhwydweithiau: 16
- Aelodau o safle Teams GwE – Y Gymraeg – Uwchradd: 27

CYFNOD SYLFAEN**Data Rhanbarthol:**

- Cefnogaeth benodol ar gais YCG i ysgolion unigol neu ysgolion risg uchel / categori Estyn: 35

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Yn cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol.

ARWEINYDDIAETH**Data Rhanbarthol:**

1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG): 98
2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 61
3. Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi ar gyfer CPCP): 72
4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 37
5. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol: 17

CYFANSWM: 285

CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU**Data Rhanbarthol:**

- Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair : 53
- Nifer ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair: 331
- Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG: 54
- Nifer yr ysgolion cynradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG: 331

AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

GDD PMG**Data Rhanbarthol:**

Atodiad 2

- Ymweliadau / Cefnogaeth Ysgolion Unigol: 24
- Fforymau / Clystyrau Penaethiaid: 10
- Swyddogion PMG ALI: 12. Un cyfarfod rhanbarthol.
- Swyddogion ALI (ADY / Seicolegwyr Addysg / Lles / Ysgolion Iach / Blynyddoedd Cynnar): 8

Dysgu proffesiynol:

- Nurture International: 26
- Ymarfer Gwybodus am drawma: 40

AIL GYNNAU DYSGU

Data Rhanbarthol:

- *Remote Instruction of Language and Literacy (RILL)* – RHAN 2: 54 o ysgolion wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ym mis Medi 2021.
- Hyfforddiant *Precision Teaching* a *SAFMEDS* ar lein wedi ei gynnal: 7
- *Improving fluency in Oral Reading (iFOR)*: 42

AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cyfrwng i ddysgu a gwella'u harferion yn barhaus.

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Data Rhanbarthol :

- Nifer ysgolion / clystyrau sy'n cymryd rhan: 72/12
- Adolygwyr cymheiriaid wedi'u hyfforddi: 97
- Hwyluswyr gwella wedi'u hyfforddi: 92
- Tymor yr Hydref 2021 - Nifer yr ysgolion / clystyrau wedi'u hadnabod ar gyfer hyfforddiant y carfan nesaf: 193/33

YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

Data Rhanbarthol:

- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol: 11
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol : 2
- Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn peilot cenedlaethol YAC [mesurau arbennig]: 4
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion: 5
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion: 0
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan mewn cynghrair cydweithredol: 11
- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n rhan o gydweithio clwstwr: 2
- Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sydd wedi cyflwyno'r rhaglen mewn gweithdai CiG a thrafodaethau dilynol: 11

Atodiad 2

- Nifer YAC cynradd rhanbarthol sydd wedi cymryd rhan mewn gweithdai CiG a thrafodaethau dilynol: 2
- Nifer y swyddogion ac ymgynghorwyr sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol: 16

AMCAN 6 – BUSNES

Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Data rhanbarthol:

Systemau rhannu gwybodaeth:

- Canolfan Gefnogaeth GwE
 - Nifer sydd wedi ymweld â'r safle: 65,000
 - Nifer sydd wedi lawrlwytho: 12,500



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

10 TACHWEDD 2021

Adroddiad gan: Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Cefnogi pob ysgol gyda'r Cwricwlwm i Gymru: Datblygu rhwydweithiau lleol a rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar ein dull gweithredu gyda datblygu rhwydweithiau lleol a rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru er mwyn cefnogi pob ysgol a lleoliad i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Cymru wedi ymrwmo i agenda diwygio uchelgeisiol er mwyn gwireddu cwricwlwm sy'n gweddnewid. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion ac mae'r Pedwar Diben wrth wraidd yr holl ddysgu ac addysgu a'r rhain yw'r weledigaeth gyffredin i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

2.2 Pan gyhoeddwyd [Canllawiau Cwricwlwm i Gymru](#) ym mis Ionawr 2020, roedd hyn yn dynodi'r cam nesaf o ran diwygio'r cwricwlwm a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol gynradd, ysgol feithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Anogir yr ysgolion uwchradd hynny sydd yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm ym mlwyddyn 7 i wneud hynny, ond ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd.

2.3 Mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill, Estyn a Llywodraeth Cymru i osod y disgwyliadau sydd ar ysgolion a lleoliadau o safbwynt diwygio wrth i ni symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn [Cwricwlwm i Gymru: Y Daith at 2022](#). Yn y ddogfen hon,

cydnabyddir hefyd yr her y mae Covid-19 yn parhau i'w rhoi i bob ysgol o fewn y strategaeth adnewyddu a diwygio.

2.4 Ar draws GwE, bu Hwyluswyr Clwstwr Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae dysgu proffesiynol ac arian wedi bod ar gael i rhwydweithiau a chlystyrau o ysgolion i ddatblygu cydweithio ag ymarferwyr ar draws y continwwm 3 i 16. Y rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru yw'r cam nesaf yn y datblygiad hwn, gyda'r bwriad o ddatblygu cydweithio ar draws y cwricwlwm cyfan.

2.5 Ym mis Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol i gyfrannu at raglen gymorth barhaus GwE i ysgolion yn y meysydd a ganlyn:

- Dylunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan
- Cynnydd ac Asesu
- Datgloi potensial un o'r MDaPh
 - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Cymraeg a Saesneg)
 - Mathemateg a Rhifedd
 - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
 - Y Dyniaethau
 - Iechyd a Lles
 - Y Celfyddydau Mynegiannol

Yn ystod tymor yr Haf 2021, mynegodd 300 o athrawon ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r rhwydweithiau. Ym mis Medi a mis Hydref 2021, gofynnodd lawer mwy o ysgolion am gael bod yn rhan o'r rhwydweithiau lleol. Bellach, mae mwy na 600 o athrawon o leoliadau ysgol ar draws y rhanbarth wedi ymrwymo i fod yn rhan o'r gwaith hwn.

2.6 Bydd y Rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALI yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDaPh effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar hyd y Daith Ddiwygio. Mae gwaith y rhwydweithiau yn cyd-fynd yn llwyr â'r disgwyliadau a nodir yn y ddogfen [Cwricwlwm i Gymru: Y Daith at 2022](#) ac yn arddel egwyddorion:

- Cyd-lunio
- Addysgeg
- Ymgysylltu â dysgu, arbenigedd a rhwydweithiau proffesiynol
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Cyd-destun ehangach yr ysgol

3.0 Ystyriaethau

3.1 Atodir (Atodiad 1) trosolwg o'r rhwydweithiau ar lefel Awdurdod Lleol a rhanbarthol. Ym mhob un o'r wyth grŵp ym mhob Awdurdod Lleol, adnabuwyd dau gynrychiolydd o ysgolion i gynrychioli'r grŵp lleol ar lefel ranbarthol. Rôl y cynrychiolwyr hyn fydd mynychu cyfarfodydd rhanbarthol pob hanner tymor ac yna arwain a chadeirio'r cyfarfodydd lleol i drafod a gweithio ar y cyd ar fodlu agweddau cyffredin ar gynllunio'r cwricwlwm.

- 3.2 Neilltuwyd tîm o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i weithio gyda phob un o'r wyth grŵp rhanbarthol. Gall cydweithwyr GwE gyfrannu at drafodaethau a helpu i hwyluso a chefnogi'r Cadeirydd yn y cyfarfodydd lleol, fel y bo angen. Rôl allweddol yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant fydd sicrhau bod gan bob ysgol fynediad at y gwaith a'r dysgu sydd yn cael ei ddatblygu a'i rannu drwy'r rhwydweithiau. Mae'r gwaith hwn ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE.
- 3.3 Bydd llinellau cyfathrebu clir yn hollbwysig ac mae prosesau i sicrhau bod cyfathrebu effeithiol dwy-ffordd drwy ddefnyddio technoleg ddigidol yn cael ei sefydlu, er enghraifft, defnyddio TEAMS i storio a rhannu dogfennau gyda phob aelod rhanbarthol yn cael fynediad at y dogfennau byw hyn.
- 3.4 Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith rhanbarthol pob hanner tymor a byddant yn canolbwyntio ar un thema benodol. Cytunwyd ar drosolwg o'r themâu a ddaw'n uniongyrchol o'r ddogfen 'Y Daith i Gyflwyno'r Cwricwlwm', sydd yn Atodiad 2. Fel hyn, ystyrir y gofynion y bydd angen i bob ysgol eu gweithredu cyn ystyried cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Bydd GwE hefyd yn gweithio ar y cyd i hwyluso dysgu proffesiynol a chyfraniadau gan 'arbenigwyr' ble mae angen. Ble'n bosibl, caiff sesiynau eu recordio i'w rhannu o fewn rhwydweithiau lleol. Caiff y trosolwg o'r themâu eu hadolygu'n rheolaidd, gan ystyried sylwadau o gyfarfodydd rhwydwaith lleol, sylwadau o drafodaethau cenedlaethol a gwaith gyda chonsortia rhanbarthol eraill.

4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo'r dull gweithredu ar gyfer datblygu rhwydweithiau lleol a rhanbarthol wrth gefnogi pob ysgol a lleoliad i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol drwy arian grant Llywodraeth Cymru. Rhoddir £2000 i bob ysgol fod yn rhan o'r rhwydweithiau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Bydd gan gynrychiolwyr ysgolion sydd ar rwydweithiau lleol a rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru fynediad at ragor o gyllid hyd at 15 diwrnod gwaith i gynnwys mynychu cyfarfodydd lleol, dysgu proffesiynol a gwneud gwaith yn yr ysgol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE, y Cyd-Bwyllgor a Thîm Llawn GwE.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Trosolwg o Rwydweithiau Lleol a Rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru

9.2 Atodiad 2 - Trosolwg o'r themâu i'w hystyried gan y Rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar gyfer 2021-2022

9.3 Atodiad 3 – Cylch gorchwyl Rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL


Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Cadarnhaf fod dyraniad o fewn Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol i gefnogi datblygu dealltwriaeth, ac i gefnogi dylunio a chynllunio'r cwricwlwm wrth baratoi ar gyfer gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Disgwylir y bydd GwE yn gweithredu o fewn yr adnodd ariannol hwn fel nodwyd yn 5.1 yr adroddiad.

ATODIAD 1



ATODIAD 2

	Tymor yr hydref 2021	Tymor y gwanwyn 2022	Tymor yr haf 2022
Grwpiau MDAph	<p>Datgloi'r datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig - cysyniadau allweddol</p>	<p>Ystyried rôl ymholi proffesiynol - treialu mewn ysgolion</p>	<p>Modelau a dulliau o fewn ac ar draws MDAph - gweithio gyda'r gymuned leol</p>
Cynllunio cwricwlwm	<p>Cynllunio ar gyfer sgiliau trawsgwricwlaidd</p> <p>Dealltwriaeth o fodel cwricwlwm lefel uchel</p>	<p>Datblygu ystod o fodelau a dulliau mewn cyd-destunau lleol</p> <p>Cynllunio ar gyfer yr elfennau gorfodol - themâu trawsgwricwlaidd</p>	<p>Gwerthuso modelau a gafodd eu treialu - rhannu dysgu proffesiynol</p> <p>Enghreifftiau o gwricwlwm cryno i'w cyhoeddi</p>
Cynnydd ac asesu	<p>Ystyried dealltwriaeth gyffredin o gynnydd</p> <p>Ystyried dulliau ysgol gyfan o asesu</p>	<p>Dulliau o gefnogi iechyd a lles ysgol gyfan</p> <p>Modelau i ddangos pontio effeithiol ar draws y continwmm 3-16</p>	<p>Enghreifftiau o adrodd i rieni</p> <p>Paratoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf</p>





Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



RHWYDWEITHIAU CWRICWLWM I GYMRU

Cylch gorchwyl



 www.gwegogledd.cymru  [@GwEGogleddCymru](https://twitter.com/GwEGogleddCymru)



RHWYDWEITHIAU CWRICWLWM I GYMRU Cylch gorchwyl

1. Cefndir a chyd-destun

Mae Cymru wedi ymrwymo i agenda ddiwygio uchelgeisiol er mwyn gwireddu cwricwlwm trawsnewidiol. Cwricwlwm a arweinir gan bwrpas yw'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n rhoi'r 4 Diben wrth galon yr holl addysgu a'r dysgu ac fel gweledigaeth gyffredin ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Roedd cyhoeddi [canllawiau Cwricwlwm i Gymru](#) ym mis Ionawr 2020 yn dangos cam nesaf diwygio'r cwricwlwm a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol gynradd, ysgol feithrin a gynhelir yn ogystal â lleoliadau meithrin nas cynhelir ac o fis Medi 2022 ymlaen. Bydd yr ysgolion uwchradd hynny sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm ym mlwyddyn 7 yn cael eu hannog i wneud hynny, ond ni fydd gweithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol yn orfodol tan 2023, a bydd yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd.

Ar draws GwE, mae ysgolion wedi cael eu cefnogi o'r blaen i ymgysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru drwy Hwyluswyr Clwstwr Cwricwlwm i Gymru. Mae dysgu a chyllido proffesiynol wedi bod ar gael i rwydweithiau ac i glystyrau o ysgolion i ddatblygu cydweithrediad ag ymarferwyr ar draws y continwmm 3-16. Rhwydweithiau Cwricwlwm Cymru yw'r cam nesaf yn y datblygiad hwn, sy'n ceisio datblygu cydweithrediad ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae GwE wedi gweithio gyda chonsortia rhanbarthol eraill, Estyn a Llywodraeth Cymru i nodi'r disgwyliadau ar ysgolion a lleoliadau o ran diwygio wrth i ni symud tuag at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn [Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022](#). Mae'r ddogfen hon hefyd yn cydnabod yr her y mae Covid-19 yn parhau i'w chyflwyno i bob ysgol yn y strategaeth adnewyddu a diwygio.

Ym mis Mehefin 2021, gwahoddwyd ysgolion i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o rwydweithiau rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru i gyfrannu at raglen gefnogi barhaus GwE ar gyfer ysgolion yn y meysydd canlynol:

- Dylunio Cwricwlwm Ysgol Gyfan
- Dadansoddi potensial un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad
 - Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg a Saesneg)
 - Mathemateg a Rhifedd
 - Gwyddoniaeth a Thechnoleg
 - Dyniaethau
 - Iechyd a Llesiant
 - Celfyddydau Mynegiannol
- Aseiad

Bydd Rhwydweithiau Cwricwlwm Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arferion MDPheffeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Ddiwygio. Mae gwaith y rhwydweithiau yn cyd-fynd yn llwyr â'r disgwyliadau a nodir yn y ddogfen [Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022](#) ac yn cynrychioli'r egwyddorion yn y canlynol:

- Cydailleiddu
- Addysgeg

- Ymgysylltu â dysgu proffesiynol, arbenigedd a rhwydweithiau
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Cyd-destun ehangach yr ysgol

2. Prif bwrpas

Cyfrannu at ddatblygu, cynllunio a dylunio modelau i gefnogi ysgolion. Bydd hyn yn hyrwyddo treialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer yr addysgu am y tro cyntaf drwy enghreifftiau seiliedig ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cynnal cyfeiriad cyffredinol rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru sy'n cynnwys:

- **Goruchwylio sgysiau parhaus:** rhoi sicrwydd bod y rhain yn mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl a'u bod yn cael eu cefnogi gan y bobl, yr adnoddau a'r mewnbynnau cywir.
- **Cynnal cydlyniant â gwaith ehangach:** sicrhau bod sgysiau parhaus a sgysiau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol yn ategu gwaith sy'n bodoli eisoes – ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol – o ran amseriad sgysiau a'r cwestiynau a'r allbynnau rydyn ni'n eu ceisio o'r rhain
- **Pennu cyfeiriad sgysiau yn y dyfodol:** defnyddio adborth o sgysiau parhaus, heriau ac anghenion sy'n dod i'r amlwg, ac awgrymiadau'n uniongyrchol gan ymarferwyr ynghylch pa faterion yr hoffent eu gweld yn cael eu trafod yn y Rhwydwaith. Bydd y grŵp yn defnyddio'r adborth hwn i gynllunio pa faterion fydd yn cael eu hystyried fel sgysiau gan y Rhwydwaith.
- **Cynllunio cyfathrebu yn dilyn sgysiau ac allbynnau:** sicrhau bod sgysiau a'r hyn sy'n deillio ohonynt yn cael eu rhannu'n eang ac yn gyflym, gan wreiddio arferion da a dulliau gweithredu newydd ar draws y system. Bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu ar lwyfannau digidol a thrwy ddeialog rheolaidd â phob ysgol.

3. Nodau ac amcanion

- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a rhannu arferion cwricwlwm yn ranbarthol ac yn lleol.
- Cydweithio â grŵp o gymheiriaid sy'n cefnogi'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm ar lefel leol ac yn cefnogi datblygiad Meysydd Dysgu a Phrofiad ar lefel ranbarthol.
- Cyfleu a rhaedru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws yr ysgolion yn yr awdurdod lleol.
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen gyffredin gyson a chynhwysol o Ddysgu Proffesiynol sy'n ymwneud â dylunio ac asesu'r cwricwlwm yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad.
- Cyfrannu at ddatblygu modelau cynllunio a dylunio i gefnogi ysgolion i dreialu, gwerthuso a pharatoi'r gweithlu ar gyfer addysgu am y tro cyntaf.
- Sicrhau cydlyniant a chapasiti priodol i ddarparu adnoddau ranbarthol o ansawdd uchel yn y maes hwn.
- Cefnogi datblygiad y Strategaeth Ranbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

- Ystyried polisiau a gweithgarwch presennol Llywodraeth Cymru mewn meysydd integreiddio er mwyn ymateb iddynt ar lefel genedlaethol.

4. Rolau a Chyfrifoldebau

Grwpiau rhanbarthol	Grwpiau lleol
<ul style="list-style-type: none"> • Mynychu fforymau dysgu a thrafod proffesiynol rhanbarthol o dan hyrwyddiad yr Athro Donaldson. • Arwain a chadeirio grŵp lleol o gymheiriaid i gydweithio i gefnogi a modelu dylunio cwricwlwm. • Dadansoddi potensial datblygiad Maes Dysgu a Phrofiad. • Cynllunio a dylunio modelau i gefnogi ysgolion drwy dreialu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth. • Gwerthuso effaith y gwaith. • Cyfathrebu a rhaedru dysgu ac arferion llwyddiannus ar draws yr ysgolion yn yr awdurdod lleol a dod â negeseuon allweddol yn ôl i'r Grŵp Rhanbarthol. • Lledaenu a rhannu arferion rhwng yr 8 Grŵp Rhanbarthol. • Dewis cynrychiolydd i fynychu'r Grŵp Gweithredol Cyffredinol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cyfathrebu clir er mwyn cydweithio'n effeithiol gyda'r Grŵp Rhanbarthol. • Cynnal rhesymeg glir ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad, gan sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd â fframwaith a blaenoriaethau cenedlaethol <i>Cwricwlwm i Gymru</i>, a'i fod wedi'i gynllunio ar gyfer continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed. • Cynllunio a dylunio modelau enghreifftiol i gefnogi ysgolion - gan ddadansoddi potensial datblygu Maes Dysgu a Phrofiad. • Hyrwyddo cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu, treialu, gwerthuso a rhannu arferion effeithiol yn lleol ac ar draws y rhanbarth. • Annog ymarferwyr i ymgysylltu ar bob lefel a lledaenu arferion llwyddiannus ar draws y partneriaethau Maes Dysgu a Phrofiad ac ar gyfer cynulleidfaoedd ehangach. • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen gyffredin gyson a chynhwysol o Ddysgu Proffesiynol sy'n ymwneud â dylunio ac asesu'r cwricwlwm yn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. • Hyrwyddo ymgysylltu â'r ysgol a chydweithio â rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, busnesau lleol ac asiantaethau a sefydliadau addysgol eraill ynghylch cynllunio'r cwricwlwm.
GwE	Aelodau Awdurdodau Lleol
<p>Mynd i bob cyfarfod rhanbarthol fel y gallant gyfrannu at drafodaethau, helpu i hwyluso a chefnogi'r Cadeirydd i arwain y trafodaethau drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod â Chadeiryddion Rhanbarthol yn ôl yr angen. • Mynd i gyfarfodydd grŵp lleol yn ôl y galw. • Adrodd yn rheolaidd i dîm ehangach GwE ar sut mae'r gwaith yn mynd rhagddo 	<p>Mynd i gyfarfodydd rhwydwaith lleol yn ôl yr angen a sicrhau bod y negeseuon pwysig yn cael eu trosglwyddo i dimau awdurdodau lleol.</p> <p>Cefnogi trafodaeth ysgolion yn y rhwydweithiau a chyfrannu at wneud synnwyr lleol.</p>

Cefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod negeseuon pwysig y grŵp rhanbarthol yn cael eu trosglwyddo i'r grŵp lleol a phob ysgol i'w gweithredu.	Hyrwyddo cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu, treialu, gwerthuso a rhannu arferion effeithiol yn lleol ac ar draws y rhanbarth.
--	--

5. Aelodaeth

Rhanbarthol	Lleol
<p>8 grŵp</p> <p><u>Aelodau:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Yr Athro Graham Donaldson (Rôl gynghori) 2-4 cynrychiolydd o bob ALL ar draws lleoliadau / arweinwyr GwE. Gellir gwahodd mynychwyr achlysurol yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd a'r themâu a drafodir. <p><u>Swyddogaeth:</u> Mewnbynnu yn ôl themâu / rhannu gwaith / negeseuon cyson.</p>	<p>Ym mhob Awdurdod Lleol – 8 grŵp</p> <p><u>Aelodau:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgolion a fynegodd ddiddordeb, arweinwyr enwebedig GwE a swyddogion ALL. Gellir gwahodd mynychwyr achlysurol yn unol â'r blaenoriaethau a bennwyd a'r themâu a drafodir. <p><u>Swyddogaeth:</u> Gweithio drwy themâu, gwaith ymarferol / modelau mewn cyd-destunau lleol.</p>

6. Cyfarfodydd

Grwpiau rhanbarthol	Grwpiau lleol
<p><u>Tymor yr Hydref 2021</u></p> <p>Cyfarfodydd rhanbarthol: Cyfarfodydd hanner diwrnod bob hanner tymor.</p> <ul style="list-style-type: none"> 21/09/2021 06/10/2021 16/11/2021 14/12/2021 <p><u>Trosolwg Tymor y Gwanwyn 2022</u></p> <p><u>Trosolwg Tymor yr Haf 2022</u></p>	<p><u>Trosolwg Tymor yr Hydref 2021</u></p> <p>Cyfarfodydd lleol: 3 chyfarfod hanner diwrnod bob hanner tymor.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod 1 – wythnos yn dechrau 04/10/21 Cyfarfod 2 - rhwng 11/10/21 a 16/11/21 Cyfarfod 3 - rhwng 17/11/2021 a 20/12/2021 <p><u>Trosolwg Tymor y Gwanwyn 2022</u></p> <p><u>Trosolwg Tymor yr Haf 2022</u></p>

7. Ysgrifenyddiaeth

Grwpiau rhanbarthol	Grwpiau lleol
<p>Bydd y Rhwydweithiau Rhanbarthol yn cael cefnogaeth weinyddol gan GwE.</p> <p>Bydd GwE yn:</p> <ul style="list-style-type: none">Trefnu'r cyfarfodydd ac yn dosbarthu agendâu, papurau a diweddariadau.Cynnal ardal Timau Rhwydweithiau CiG.	<p>Cyfarfodydd lleol i'w trefnu gan Gadeiryddion Lleol ar gyfer yr 8 grŵp.</p> <p>Efallai y bydd modd ymuno â grwpiau o fwy nag un ALL os yw'r niferoedd yn ddigon bach.</p> <p>GwE i gefnogi sefydlu ardal Timau lleol yn ôl yr angen.</p>

8. Llywodraethu

Grwpiau rhanbarthol	Grwpiau lleol
<p>Dull Adrodd</p> <ul style="list-style-type: none">Grwpiau Rhanbarthol – bydd y materion y tynnir sylw atynt fel rhai sydd angen sylw yn cael eu cyfeirio at y Grŵp Llywio Cyffredinol a/neu Fwrdd Rheoli GwE i'w hystyried ymhellach, ac yna at Gydbwyllgor GwE yn ôl yr angen.	<p>Dull Adrodd</p> <ul style="list-style-type: none">Grwpiau Lleol – Adrodd yn ôl i gyfarfodydd rhanbarthol a chyfrannu unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y broses.

Atodiadau / Dogfennau ategol